Cynnig i Gau Ysgol Gynradd Pontiets

Dogfen Ymgynghori



Cynnwys

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Cefndir 4
3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig 9
4. Y Cynnig – Cau Ysgol Gynradd Pontiets 41
5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion 51
6. Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni/arnynt 56
7. Yr effaith ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg 61
8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) 70
9. Cyllid 71
10. Tir ac Adeiladau 78
11. Teithio a Thrafnidiaeth 79
12. Trefniadau Derbyn 83
13. Y Broses Ymgynghori 87

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned 93
Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg 99
Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig 120
Atodiad D - Ffurflen Ymateb 157

Geirfa o Fyrfoddau

ACEHI – Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is

AD – Adnoddau Dynol

ADY – Anghenion Dysgu Ychwanegol

ALl – Awdurdod Lleol

CADY – Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CDLl – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig

CDU – Cynllun Datblygu Unigol

CGCB – Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau

CRhAF – Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau

CSCA – Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

CYBLD – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

eFSM – Prydau Ysgol Am Ddim

AEI – Asesiad Effaith Integredig

LIC – Llywodraeth Cymru

MALIC – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

APP – Asesiad Perfformiad Panel

RhMA – Rhaglen Moderneiddio Addysg

RhYLl – Rheolaeth Ysgolion yn Lleol

SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol

TGCh – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

UPFSM – Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynnig yr Awdurdod Lleol i gau Ysgol Pontiets o 31 Rhagfyr 2027. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri o 1 Ionawr 2028.

Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i rieni/gofalwyr, staff ysgol ac unrhyw un arall sydd â diddordeb gyflwyno unrhyw sylwadau neu opsiynau eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried. Ar ôl ymgynghori ar y newid arfaethedig, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynigion hyn.

Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu yn dilyn adolygiad manwl ar sail tystiolaeth o gynaliadwyedd Ysgol Gynradd Pontiets yn y tymor hir. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi nifer o heriau mawr, gan gynnwys nifer disgyblion sy'n gyson isel ac yn gostwng, lefel uchel o leoedd gwag, ac, yn fwy diweddar, cyllideb sy'n lleihau'n gyflym. Yn unol â gofynion y Cod, mae'r Awdurdod wedi ystyried y ffactorau hyn ochr yn ochr â'r angen i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau, argaeledd lleoedd ysgol digonol ac addas, a'r potensial i gynnal neu wella safonau addysgol a deilliannau dysgwyr.

Bydd y Cyfnod Ymgynghori ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnal rhwng 10 Tachwedd 2026 a 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

2. Cefndir

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo ac a yw'n llwyddo i wneud y defnydd gorau o adnoddau a chyfleusterau er mwyn cyflawni ei ddyheadau addysgol ar gyfer holl blant Sir Gaerfyrddin.

Cafodd Strategaeth Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar 18 Tachwedd 2024, a'i diben yw cyflawni dyheadau'r Awdurdod Lleol o ran moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion. Fe'i hategir gan set o **amcanion strategol** ac **egwyddorion addysg gynradd.** Pedwar o'r amcanion yw:

- Datblygu rhwydwaith o ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif, gan hwyluso'r gwaith o wireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel;

- Darparu dull strategol o ran buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol;
- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion drwy leihau nifer y lleoedd gwag hyd at lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynega'r rhieni gan ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.

Mae'r amcanion strategol yn cyd-fynd â set o **Egwyddorion Addysg Gynradd** sy'n nodau uchelgeisiol ar gyfer rhwydwaith ysgolion cynradd yr Awdurdod. Yr egwyddorion yw:

• Anelu at gael arweinyddiaeth gynaliadwy, gydag arweinwyr sy'n rhydd i arwain a rheoli, heb unrhyw ymrwymiad addysgu parhaol amser llawn.

• Anelu at sefyllfa lle na fydd mwy na 2 grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth addysgu.

• Ymdrechu i gynnal nifer disgyblion sy'n ddigonol i gefnogi'r trefniadau strwythurol uchod.

• Bod yn ddichonol yn ariannol o dan fframwaith ariannu Rheoli Ysgolion yn Lleol a gweithredu yn y tymor hir heb ddiffyg cyllidebol.

• Cael mynediad at gyfleusterau addysgu awyr agored addas i wella dysgu a chefnogi llesiant corfforol ar draws yr ysgol.

• Bod yn gwbl gynhwysol ac yn hygyrch i bawb.

• Cael cyfleusterau modern sy'n cefnogi dysgu digidol.

• Creu amgylchedd dysgu o safon uchel sy'n cefnogi llesiant yr holl ddysgwyr ac sy'n gwella eu cynnydd a'u cyflawniadau ar draws ystod eang o sgiliau a meysydd cwricwlwm.

Yn unol â'r egwyddorion a'r amcanion strategol hyn, gall pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin gael ei gwerthuso yn erbyn cyfres o feini prawf seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu gwneud asesiad o hyfywedd gweithredol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau ar sail angen buddsoddi cymharol pob ysgol. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu rhaglen yn wrthrychol ar gyfer yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith ysgolion a buddsoddi mewn moderneiddio'r ystad ysgolion mewn modd sy'n dryloyw ac yn amlwg yn deg.
Mae safle o fewn continwwm hyfywedd yn cael ei neilltuo i bob un o ysgolion yr Awdurdod, er mwyn cadarnhau'r prognosis ar gyfer yr ysgol honno. Mae'r crynodeb o'r asesiad hyfywedd yn sail ar gyfer nodi prosiectau moderneiddio a chynigion rhesymoli o fewn y rhaglen gyffredinol.

Defnyddir y **meini prawf hyfywedd** i asesu hyfywedd ysgol neu grŵp o ysgolion mewn ardal benodol, ac i benderfynu a fyddem am gynnal adolygiad o hyfywedd yr ysgol. Mae cyd-destun pob ysgol yn wahanol a gallai ysgol unigol brofi heriau gan unrhyw un o'r meini prawf hyfywedd, neu gyfuniad ohonynt.

Y meini prawf hyfywedd yw:

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Arweinyddiaeth
- Nifer y disgyblion, tueddiadau a rhagolygon
- Lleoedd gwag
- Hyfywedd ariannol
- Cyflwr ac addasrwydd adeilad yr ysgol
- Cyfleoedd cyllido/adfywio cydweithredol

Rhaid i benderfyniadau a wneir gan y Cyngor o fewn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ymateb i dirwedd addysg sy'n newid. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu pwysau ariannol cynyddol, ynghyd â chyfraddau genedigaethau gostyngol, gostyngiad yn nifer y disgyblion, cynnydd mewn lleoedd ysgol gwag, heriau recriwtio, a chostau adeiladu a chynnal a chadw cynyddol. Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn duedd allweddol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru, a rhagwela ffigurau Llywodraeth Cymru ostyngiad o 15% yn nifer y disgyblion erbyn 2041. Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy difrifol yn y sector cynradd ar hyn o bryd, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 1000 yn llai o ddysgwyr cynradd oedran statudol yn Sir Gaerfyrddin nag yn 2021. Mae'n ofynnol i bob ysgol feddu ar gapasiti disgyblion sydd wedi'i gyfrifo'n ffurfiol, ac yn Ionawr 2026 roedd mwy na 3,500 o leoedd gwag ar draws y 94 o ysgolion cynradd sydd yn y sir. Mae hyn gyfystyr â thros 20 y cant o gyfanswm capasiti disgyblion cynradd ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae gan hyn oblygiadau ar gynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith ysgolion, gan fod cyllidebau ysgolion yn gysylltiedig yn uniongyrchol â niferoedd disgyblion, a hynny o ran cyfanswm y cyllid a gaiff Sir Gaerfyrddin gan Lywodraeth Cymru, ac o ran sut caiff y cyllid hwn ei ddirprwyo wedyn gan yr Awdurdod Lleol i ysgolion unigol drwy'r fformiwla gyllido.

Mae rhwydwaith ysgolion y Sir wedi wynebu pwysau ariannol cynyddol ers 2024. Mae mwy a mwy o ysgolion mewn diffyg ariannol eisoes, gan fod nifer y lleoedd gwag ar draws yr ystad ysgolion wedi cynyddu. Mae llai o ddisgyblion mewn ysgolion, a'r cynnydd mewn lleoedd gwag wedi lleihau hyfywedd ariannol llawer mwy o ysgolion. Gall pwysau ariannol mewn ysgolion gael effaith sylweddol ar eu gallu i ddarparu addysg o safon i blant. Yn naturiol, mae effaith hyn yn amlycach mewn ysgolion lle mae niferoedd y disgyblion yn llai neu'n gostwng. Yn Ionawr 2024 roedd gan 18 o ysgolion Sir Gaerfyrddin 50 neu lai o ddisgyblion. Erbyn Ionawr 2026 roedd y rhif hwn wedi cynyddu i 22 o ysgolion.

Y gyllideb o £158.9m ar gyfer ysgolion yw'r fwyaf o blith holl wasanaethau'r Cyngor. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26, roedd y gyllideb hon mewn diffyg o £9.5m. Mae'r straen ariannol cynyddol sydd ar ysgolion yn peri risg sylweddol i allu'r Cyngor i ddarparu ei holl wasanaethau eraill i drigolion y sir. O ganlyniad, mae'r Cabinet

wedi cytuno bod cynnydd tuag at foderneiddio a rhesymoli ysgolion y sir yn hanfodol, os yw cyllidebau ysgolion yn mynd i aros yn fforddiadwy. Mae angen lleihau nifer y safleoedd ysgol er mwyn gwneud hyn, yn ogystal ag arbedion eraill. Cymeradwyodd y Cabinet adroddiad strategaeth y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror 2025. Fe'i cymeradwywyd wedyn gan y Cyngor llawn ar 26 Chwefror 2025.

Yn ogystal â hyn, mae'r naratif rheoleiddio dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fwyfwy clir. Y neges gyson yn arolygiad Estyn (2023), ymweliad Estynedig Arolygwyr Arweiniol Awdurdodau Lleol Estyn (Mehefin 2025) a'r Asesiad Perfformiad gan Banel (2025) yw bod gan Sir Gaerfyrddin strategaeth moderneiddio ysgolion gredadwy, ond bod y gwaith o'i gweithredu wedi bod yn rhy araf o ystyried y pwysau demograffig ac ariannol mae'r system addysg yn ei wynebu. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad ddwywaith fod oedi wedi atal yr awdurdod rhag cyflawni ei gynlluniau ad-drefnu i'r graddau sydd ei angen. Mae Estyn hefyd wedi gwneud cysylltiad penodol rhwng ad-drefnu ysgolion a lleoedd gwag, diffygion cynyddol ysgolion, a risgiau ariannol i'r Cyngor. Bu i'r Asesiad Perfformiad gan Banel atgyfnerthu'r angen am newid trawsnewidiol amserol mewn ymateb i ddirywiad demograffig a phwysau ariannol. Gyda'i gilydd mae rheoleiddwyr o'r farn nad absenoldeb strategaeth yw'r risg fwyaf mwyach, ond arafwch wrth ei chyflawni.

Mae'n bwysig felly i ystyried y cynnig a gyflwynir yn y Ddogfen Ymgynghori hon yn y cyd-destun ehangach a amlinellir uchod.

2.1 Trafodaethau Llunio (Cam 0)

Yn dilyn trafodaeth lunio a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2025 gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu a'r Aelod Lleol o Ysgol Pontiets ynglŷn â sefyllfa bresennol yr ysgol. Cyflwynwyd datganiad sefyllfa a nifer o gynigion gyda chynlluniau gweithredu manwl cysylltiedig ar gyfer gweithredu amcanion allweddol i'w hystyried wedyn. Nod y cynigion hyn oedd cefnogi cynaliadwyedd a datblygiad hirdymor Ysgol Pontiets ac maent wedi'u hymgorffori fel opsiynau 2 i 8 yn y tabl opsiynau amgen.


Roedd ymateb yr ysgol hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- hanes pwysig yr ysgol, gan gynnwys dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed, a fu o ddiddordeb eang i'r gymuned a thu hwnt
- darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg
- yr ystod eang o gyfleoedd a gynigir i ddisgyblion, yn y cwricwlwm ac y tu allan iddo
- y partneriaethau a ddatblygwyd i ymestyn a chyfoethogi gweithgareddau cwricwlaidd ac awyr agored
- y bartneriaeth gyda Menter Cwm Gwendraeth ar gyfer sefydlu darpariaeth Feithrin a Mwncis Mentris (Mam a Phlentyn Bach)
- cwricwlwm cynhwysol a sut y bydd yr ysgol yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr
- dyluniad y cwricwlwm yn seiliedig ar y pedwar diben
- ethos o addysgu pob plentyn fel unigolyn, yn hytrach nag yn ôl grŵp blwyddyn, gyda ffocws ar ddatblygu sgiliau a gallu

- rôl a chyfranogiad gweithredol y Corff Llywodraethol
- perfformiad yn erbyn targedau
- sefyllfa ariannol ragamcanol yr ysgol, y disgwylir iddi fod mewn gwarged ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26
- Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion weithgar sy'n ariannu ystod o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn
- cyflwr ac addasrwydd priodol adeilad yr ysgol
- llwyddiant wrth sicrhau cyllid grant i wella gweithgareddau academaidd a llesiant.

3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig

Mae Ysgol Gynradd Pontiets yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion 4-11 oed, ac wedi'i lleoli ym mhentref Pontiets ar y B4309 rhwng Caerfyrddin a Llanelli. Sefydlwyd yr ysgol yn 1875, a dathlodd yr ysgol 150 o flynyddoedd yn 2025. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ochr ddwyreiniol pentref Pontiets. Dangosodd data diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2026 fod 21 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Llun o'r Ysgol – Ysgol Gynradd Pontiets	**Map o'r Lleoliad – Ysgol Gynradd Pontiets**
	

Cafodd Ysgol Gynradd Pontiets ei nodi ar gyfer adolygiad yn dilyn Asesiad Hyfywedd o bob ysgol gynradd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd wedi'i diweddaru, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn diffinio ysgol wledig gan ddefnyddio dosbarthiad gwledig-trefol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). O dan y diffiniad hwn nid ystyrir ysgol yn wledig oni bai ei bod wedi'i lleoli mewn anheddiad a ddynodwyd yn bentref, neu mewn pentrefan neu ardal wasgaredig, naill ai mewn cyd-destun anghysbell neu lai poblog. Yn ogystal, dywed y Cod mai dim ond ysgolion a nodwyd drwy'r dynodiad hwn ac a gynhwyswyd ar y rhestr swyddogol o ysgolion gwledig yn Atodiad F (o'r Cod) sy'n cael eu trin fel rhai gwledig at ddibenion y Cod.

Nid yw Ysgol Gynradd Pontiets yn bodloni'r meini prawf hyn, gan nad yw'n cael ei dosbarthu o fewn y categorïau anheddiad gwledig diffiniedig hyn nac wedi'i chynnwys ar y rhestr swyddogol o ysgolion gwledig dynodedig. Felly, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), nid yw'n cael ei hystyried yn ysgol wledig, ac nid yw'r darpariaethau penodol sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, megis y rhagdybiaeth yn erbyn cau, yn berthnasol.

3.1 Gwybodaeth am yr Ysgol – Ysgol Gynradd Pontiets

		Ysgol Gynradd Pontiets
Lleoliad yr Ysgol		Heol Llanelli, Pontiets, SA15 5UB
Ystod Oedran		4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol
Categori laith		3 – Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Oedran Meithrin**	2
	Derbyn – B.6	19
	Cyfanswm	21
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	24
	Ionawr 2024	26
	Ionawr 2023	28
	Chwefror 2022	34
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (2026)	**Ionawr 2027**	21
	Ionawr 2028	22
	Ionawr 2029	19
	Ionawr 2030	20
	Ionawr 2031	21
Capasiti Meithrin 25/26		9
Capasiti Derbyn-B6 25/26		69
Cyfanswm Capasiti 25/26		78
% y lleoedd gwag yn CYBLD 2026		73%
Capasiti Meithrin 26/27		9
Capasiti Derbyn-B6 26/27		74
Cyfanswm Capasiti 26/27		83
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2025/26)		£8,180
Cyllideb Ysgol (2025/2026)		£196,314
Sefyllfa'r gyllideb diwedd 2025/26		Gwarged o £5,330
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27)		£9,017
Cyllideb Ysgol (2026/2027)		£189,356
Sefyllfa'r gyllideb diwedd 2026/27		Diffyg o £80,469
Canlyniad Arolygiad Estyn		Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Gynradd Gymunedol Pontiets - Estyn
Categori Cyflwr Adeilad (2024)		B
Addasrwydd yr Adeilad (2024)		B

(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

Graddau Categori Cyflwr Adeilad		Addasrwydd	
Gradd A	Fel newydd	Gradd A	Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol.
Gradd B	Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig	Gradd B	Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd.
Gradd C	Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.	Gradd C	Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol.
Gradd D	Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr	Gradd D	Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol.

3.2 Y Trefniadau Presennol – Y Status Quo yn Ysgol Gynradd Pontiets

Mae Ysgol Gynradd Pontiets yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Pontiets. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed gan ddangos ei hamlygrwydd fel sefydliad addysg yn yr ardal.

Dangosodd data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2026) fod 21 o ddisgyblion ar y gofrestr, 2 ddisgybl o dan oedran ysgol statudol (Meithrin) a 19 o oedran ysgol statudol (Derbyn ac uwch).

O blith y 21 o ddisgyblion ar y gofrestr yn CYBLD 2026, roedd 12 o'r disgyblion yn dod o ddalgylch Ysgol Gynradd Pontiets tra bod y 9 disgybl arall yn dod o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Gynradd Pontiets. Yn ogystal, roedd 38 o ddisgyblion o ddalgylch Ysgol Gynradd Pontiets yn mynychu ysgolion eraill.

Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026 oedd 78 lle.
Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026-2027 yw 83 lle.

Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth dros dro sydd â chyfrifoldeb addysgu o 0.4 ac sy'n Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (CADY).

Yn ogystal, mae dau athro yn cael eu cyflogi yn yr ysgol (un 0.8 ac un 0.6) a dau gynorthwyydd addysgu (un 0.7 ac un 0.6).

Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth. Un dosbarth o ddisgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 ac ail ddosbarth o Flynyddoedd 3 – 6.

Mae'r ysgol yn wynebu sawl her y mae angen mynd i'r afael â nhw, ochr yn ochr â ffactorau demograffig ehangach y mae'n rhaid eu hystyried, er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth ysgolion cynradd, gan gynnwys:

Niferoedd isel o ddisgyblion sy'n gostwng

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 34 o ddisgyblion yn CYBLD 2022 i 21 o ddisgyblion yn CYBLD 2026.

Blwyddyn CYBLD	Meithrin Amser Llawn	Derbyn	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm
2026	2	1	3	2	2	6	2	3	21
2025	2	3	3	0	6	3	3	4	24
2024	1	4	0	6	3	3	4	5	26
2023	3	1	6	3	4	4	4	3	28
2022	1	6	3	4	3	4	3	10	34

Data Dalgylchoedd

Mae data CYBLD 2026 yn dangos bod nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontiets sy'n mynychu'r ysgol yn isel. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontiets yn mynychu ysgolion eraill.

Cyfanswm Nifer y Disgyblion (CYBLD 2026)	Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon	Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon	Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill
21	12	9	38*
*Bryn, Carwe, Glanyffferi, Gwynfryn, Llannon, Pen-bre, Ponthenri, Pontyberem, Pum Heol, Santes Fair (Llanelli), Trimsaran			

Nifer Uchel o Leoedd Gwag

Mae cael nifer isel o ddisgyblion hefyd yn effeithio ar leoedd gwag yr ysgol.

Mae lefel uchel o leoedd gwag wedi bod yn Ysgol Gynradd Pontiets dros y pum mlynedd diwethaf, fel y dangosir isod:

CYBLD Hanesyddol				CYBLD 2026
2022	2023	2024	2025	

Cyfanswm Capasiti	85	85	85	85	78
Cyfanswm Cyfrif Pennau	34	28	26	24	21
Lleoedd gwag	51	57	59	61	57
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	60%	67%	69%	72%	73%

Fel sy'n cael ei nodi yn adran 1.21 y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:

Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent ystyried pa un ai i wneud cynigion i'w gwaredu os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol (fel y'i diffinnir yng Nghylchlythyr 21/2011) ac o leiaf 30 o leoedd heb eu llenwi.

Yn ôl CYBLD 2025 roedd gan Ysgol Gynradd Pontiets 72% o leoedd gwag a 61 o leoedd heb eu llenwi. Yn ôl data CYBLD 2026 roedd gan yr ysgol 73% o leoedd gwag a 57 o leoedd heb eu llenwi.

Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion a Chapasiti Lleoedd Gwag a Ragwelir

Yn seiliedig ar ddata PLASC 2026, mae amcanestyniadau disgyblion Ysgol Pontiets yn rhagweld nifer uchel o leoedd gwag yn barhaus.

Blwyddyn	Ionawr 2027	Ionawr 2028	Ionawr 2029	Ionawr 2030	Ionawr 2031
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (gan gynnwys disgyblion oed Meithrin)	21	22	19	20	21
Cyfanswm Capasiti	83	73	73	73	73
Lleoedd gwag	62	51	54	53	52
% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)	75%	70%	74%	73%	71%

*Mae'r fethodoleg o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn defnyddio cyfartaledd treigl o ddisgyblion 5, 6, 7 ac 8 oed ar gyfer ysgolion cynradd. Felly, mae unrhyw newidiadau sydyn ym mhoblogaeth y disgyblion yn cymryd tua phedair blynedd cyn i'r anghysondebau hyn gael eu normaleiddio a bydd dewis rhieni yn penderfynu sut mae'r niferoedd gwirioneddol yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd amrywiadau rhifiadol bach, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol yn cael mwy o effaith gyfrannol mewn ysgolion gyda niferoedd isel o ddisgyblion.

Felly, rhagwelir y bydd Ysgol Gynradd Pontiets yn parhau i brofi niferoedd isel o ddisgyblion a lleoedd gwag sylweddol dros y pum mlynedd nesaf.

Data Genedigaethau

Yn ogystal â data CYBLD ac amcanestyniadau disgyblion, dadansoddwyd data genedigaethau lleol i asesu'r galw posibl yn y dyfodol am leoedd ysgol gynradd yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontiets.

Mae data genedigaethau diweddar ar gyfer y dalgylch yn dangos cysondeb o ran nifer isel o enedigaethau byw. Awgryma'r duedd hon mai go brin y gwelir twf yn nifer y plant fydd yn dechrau addysg statudol yn yr ardal leol.

Mae'r tabl isod yn cymharu data genedigaethau ar lefel cod post yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontiets â nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y Derbyn, fel y cofnodwyd hynny yn CYBLD, ar gyfer y blynyddoedd academaidd cyfatebol.

Tabl Data Genedigaethau

Disgyblion a anwyd mewn cod post dalgylch yn erbyn disgyblion ar y gofrestr yn PLASC yn y dderbynfa ar gyfer y flwyddyn academaidd berthnasol								
Pontiets	**Blwyddyn Geni**	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**	**2025**	**2026**
	Blwyddyn Derbyn	**2024**	**2025**	**2026**	**2027**	**2028**	**2029**	**2030**
	Genedigaethau	8	6	1	12	3	10	7
	CYBLD	4	3	1	-	-	-	-

O ganlyniad, nid oes dim tystiolaeth yn y data genedigaethau sydd ar gael i awgrymu bydd adferiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets. Mae'r cyd-destun demograffig hwn yn cefnogi'r amcanestyniadau disgyblion a nodir yn y ddogfen hon, sy'n rhagweld niferoedd disgyblion isel parhaus a chynnydd yn y lleoedd gwag dros y pum mlynedd nesaf.

Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	**£**
2021/22	Gwarged o £101,364

2022/23	Gwarged o £121,403
2023/24	Gwarged o £95,382
2024/25	Gwarged o £39,859
2025/26	Gwarged o £5,330

2026/27

Swm cyllid yr ysgol	£189,356
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr **2026**)	21
Cyllid fesul disgybl	£9,017
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Diffyg a ragwelir hyd at ddiwedd 2026/27	Diffyg o £80,469

Mae'r ysgol yn rhagweld y bydd ganddi diffyg o £80,469 yn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27.

Cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl

Yn seiliedig ar Ddatganiad Cyllideb Addysg Adran 52 y Cyngor ar gyfer 2026-27, cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2026-27 yw £9,017. Mae hyn £3,048 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin o £5,969 ar gyfer 2026-27.

Oherwydd nifer isel y disgyblion, yn ystod 2026-27 bydd yr ysgol yn derbyn Tâl Atodol Ysgol Fach o £45,000 a Thâl Atodol Lleoedd Gwag o £20,000.

Mae'r tâl atodol o ran nifer y disgyblion yn seiliedig ar fformiwla sy'n nodi gwahanol feintiau ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn eu rhoi dan anfantais o gymharu ag ysgolion eraill. Mae'r tâl atodol yn darparu canran deg o gyllid ar draws y costau allweddol a nodwyd.

Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Cafodd Ysgol Gynradd Pontiets ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2017 ac yn unol â Deddf Addysg 2005, roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol. Roedd yr argymhellion a nodwyd ar y pryd fel a ganlyn:

A1 Gwella medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2.
A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu a'r cwricwlwm.
A3 Sicrhau bod yr addysgu'n cynnig y lefel briodol o her, ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion er mwyn iddynt gymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu.
A4 Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r materion diogelu.
A5 Gwella strwythur arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir ac atebolrwydd ar bob lefel.
A6 Cryfhau'r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir blaenoriaethau ar gyfer gwelliant a sicrhau cynnydd yn eu herbyn.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn bod angen gwelliant sylweddol yn yr ysgol hon. Roedd yr ysgol i lunio cynllun gweithredu i ddangos sut y byddai'n mynd i'r afael â'r argymhellion. Byddai Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ym mis Rhagfyr 2018 barnwyd bod Ysgol Gynradd Pontiets wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf. O ganlyniad, tynnodd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yr ysgol o'r rhestr o ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol, ac fe'i rhoddwyd yn y categori 'Dim gweithgarwch dilynol'.

Heriau gyda darpariaeth addysgol oherwydd nifer o grwpiau blwyddyn yn yr un dosbarth

Mae niferoedd isel y disgyblion yn yr ysgol yn effeithio ar drefniadaeth dosbarthiadau. Ar hyn o bryd mae disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth oedran cymysg, mae disgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth a Blynyddoedd 3 - 6 yn cael eu haddysgu mewn dosbarth arall.

Mae hyn yn hynod heriol i athro oherwydd mae'n rhaid diwallu anghenion dysgu amrywiol iawn ym mhob gwers, sy'n gallu bod yn anodd gan fod gan wahanol grwpiau blwyddyn ddisgwyliadau statudol gwahanol, gyda'r disgyblion yn rhychwantu sawl cam cyrhaeddiad neu gam datblygiadol. Rhaid i'r athro hefyd reoli dosbarth lle mae disgyblion yn gweithio ar wahanol dasgau ar yr un pryd; mae angen cefnogaeth fwy uniongyrchol ar ddisgyblion iau ac mae angen her ac annibyniaeth ar y disgyblion hŷn.

Mae cynllunio gwersi yn aml yn cymryd mwy o amser nag ar gyfer dosbarthiadau un flwyddyn, ac mae prinder staff yn golygu nad oes rhyw lawer o gyfle i gydweithio ar CPA, sy'n arwain at fwy o lwyth gwaith i athrawon.

Gall disgyblion iau deimlo nad oes sylw teilwng yn cael ei roi iddynt yn gymdeithasol ac yn emosiynol, a gall disgyblion hŷn deimlo eu bod yn cael eu dal yn ôl neu fod gormod o gyfrifoldeb arnynt. Mae angen monitro hyder a chyfranogiad yn ofalus, gan roi mwy o bwyslais ar ddiwylliant dosbarth cynhwysol.

Mae Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024 yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn anelu at gael dim mwy na 2 grŵp blwyddyn fesul dosbarth addysgu.

Arweinyddiaeth

Dyhead yr Awdurdod Lleol ar gyfer arweinyddiaeth ysgol yw cael arweinyddiaeth gynaliadwy gydag arweinwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas sy'n rhydd i arwain a rheoli'r ysgol, lle na fydd gan yr un pennaeth ymrwymiad addysgu parhaol.

Nid oes arweinyddiaeth barhaol yn Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth dros dro sydd â chyfrifoldeb addysgu o 0.4 ac sy'n Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (CADY).

Cyflwr ac Addasrwydd yr Adeilad

Addasrwydd yr Adeilad yw priodoldeb adeiladau a safle'r ysgol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol. Y sgôr addasrwydd gyfredol yw Gradd B sy'n cael ei diffinio fel "Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nad yw'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd".

Mae sgôr gyfredol Ysgol Gynradd Pontiets o ran cyflwr yn dangos bod yr ysgol, ar y cyfan, mewn cyflwr boddhaol (Gradd B), ond mae'n glir bod angen gwaith cynnal a chadw a buddsoddiadau parhaus. Mae'r rhan fwyaf o elfennau'r adeilad mewn cyflwr boddhaol i'w defnyddio, er bod rhai yn dirywio (Bloc 3 a Bloc 5). Nid yw Bloc 3 yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac mae Bloc 5 yn cael ei ddefnyddio'n rhannol i storio.

3.3 Cryfderau a gwendidau o ran cynnal y status quo

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys asesiad o gryfderau a gwendidau cynnal y status quo, gan gynnwys unrhyw fygythiadau a chyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o sut y gall yr opsiwn hwn effeithio ar ansawdd a safonau addysg yr ysgol, effeithio ar y gymuned leol ac effeithio ar drefniadau teithio.

Cryfderau	**Gwendidau**
Dim newid i'r disgyblion na'r staff.	Mae'r ysgol yn wynebu heriau sy'n effeithio ar ei chynaliadwyedd yn y dyfodol e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefel

	uchel o leoedd gwag, a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
Dim angen Cynnig Statudol.	Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â dyheadau Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin.
Dim effaith ar y gymuned leol ac mae'r ysgol yn cynnal ei hunaniaeth unigryw.	Nid yw amcanestyniadau yn rhagweld newid sylweddol yn niferoedd disgyblion dros y pum mlynedd nesaf ac maent yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel.
	Disgwylir i lefel y lleoedd gwag aros yn uchel dros y pum mlynedd nesaf.
	Nid yw'r Data Cyfraddau Genedigaethau yn awgrymu cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg.	Mae nifer isel y disgyblion a'r heriau cyllidebol sydd yn sgil hynny yn rhwystr i gynllun gwella'r ysgol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae Ysgol Gynradd Pontiets yn ysgol dau ddosbarth, lle mae gan y pennaeth dros dro gyfrifoldeb addysgu o 0.4 yn ogystal â bod yn CADY yr ysgol.

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae sgiliau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar lefel isel. Fodd bynnag, mae llawer yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Gall y mwyafrif o'r disgyblion o flynyddoedd 3 – 6 ysgrifennu hyd at safon sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae cystrawen lleiafrif o'r disgyblion yn wan. Mae sgiliau mathemategol y mwyafrif o'r disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau mathemateg yn gadarn. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion mwy abl nad ydynt yn cyflawni eu potensial llawn.

Mae'r staff yn darparu amryw brofiadau dysgu cynhwysfawr i ddisgyblion, sy'n bodloni'r gofynion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogi ar y cyd i ddiwallu anghenion llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digonol i ddatblygu sgiliau annibynnol. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o weithgareddau buddiol sy'n datblygu sgiliau llythrennedd a TGCh disgyblion yng ngwaith thematig y dosbarth. Serch hynny, nid yw cynlluniau yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau rhifedd yn llawn.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig

ar ddisgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol a chariad at ddysgu. Ystyrir llesiant a hapusrwydd disgyblion ym mhob agwedd ar fywyd ysgol, gan greu cymuned ofalgar a chefnogol. Mae staff yn defnyddio'r weledigaeth hon i osod disgwyliadau uchel ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu allweddol, gan gynnwys darllen, ysgrifennu a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn cyfleu'r un disgwyliadau uchel i ddisgyblion wneud yr un cynnydd yn y cwricwlwm ehangach. Mae aelodau'r corff llywodraethu yn rhan greiddiol a gwerthfawr o'r gwaith o ddatblygu'r staff. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol a'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at godi safonau. Fodd bynnag, mae angen cryfhau eu mewnbwn i brosesau hunanwerthuso.
Yr effaith debygol ar y gymuned Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r status quo yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw yn yr ardal.
Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

3.4 Pam ystyrir bod angen newid

O ystyried y wybodaeth uchod, mae angen newid i sicrhau bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod modd ailddyrannu adnoddau i ysgolion sydd â'r gallu i sicrhau deilliannau addysgol gwell i ddisgyblion. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â'r broblem lleoedd gwag ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o arian cyhoeddus. Mae cynnal yr ysgol ar ei ffurf bresennol yn cael ei ystyried yn anghynaladwy ac nid yw'n darparu'r safonau addysg sydd eu hangen.

Ar ôl ystyried yn ofalus nifer y disgyblion, lleoedd gwag, cynaliadwyedd ariannol, safonau addysgol, effeithiau cymunedol, y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, nifer y lleoedd ysgol amgen addas sydd ar gael, a'r asesiad o'r opsiynau amgen rhesymol, mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad bod cadw'r trefniadau presennol yn annhebygol o roi bod i ateb cynaliadwy yn y tymor hir. Felly mae'r Awdurdod o'r farn mai priodol yw cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig, gan alluogi rhanddeiliaid i fynegi eu barn a sicrhau bod yr holl sylwadau'n cael eu hystyried yn llawn cyn dod i unrhyw benderfyniad terfynol.

3.5 Asesu Opsiynau Amgen

Yn dilyn trafodaeth lunio ar 12 Mawrth 2025 gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu a'r Aelod Lleol ar gyfer Ysgol Gynradd Pontiets ynglŷn â sefyllfa bresennol yr ysgol, cafodd datganiad sefyllfa a sawl cynnig â chynlluniau manwl ar gyfer gweithredu

amcanion allweddol eu cyflwyno gan yr ysgol i'w hystyried. Nod y cynigion hyn oedd cefnogi cynaliadwyedd a datblygiad hirdymor Ysgol Gynradd Pontiets, ac maent wedi'u hymgorffori fel opsiynau 2 i 8 yn y tabl opsiynau amgen.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026, cafodd yr holl opsiynau amgen rhesymol eu hystyried yng nghyd-destun yr heriau allweddol sy'n wynebu'r ysgol, ac aseswyd eu heffaith debygol ar:

- Safonau addysg a deilliannau dysgwyr;
- Cynaliadwyedd ariannol;
- Effaith ar y gymuned;
- Trefniadau teithio gan ddysgwyr;
- Capasiti'r ysgol a'r lleoedd gwag;
- Cyflwr ac addasrwydd yr adeilad.

Cynhaliwyd dadansoddiad SWOT ar wahân (gan edrych ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) ar gyfer pob opsiwn i helpu i nodi'r ffordd fwyaf addas ymlaen. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn y tablau canlynol:

Opsiwn Amgen 1 - Cadw'r trefniadau presennol (Y Status Quo) yn Ysgol Gynradd Pontiets	
Cryfderau	**Gwendidau**
Dim newid i'r disgyblion na'r staff.	Mae'r ysgol yn wynebu heriau sy'n effeithio ar ei chynaliadwyedd yn y dyfodol e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefel uchel o leoedd gwag, a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
Dim angen Cynnig Statudol.	Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â dyheadau Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin.
Dim effaith ar y gymuned leol ac mae'r ysgol yn cynnal ei hunaniaeth unigryw.	Nid yw amcanestyniadau yn rhagweld newid sylweddol yn niferoedd disgyblion dros y pum mlynedd nesaf ac maent yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel.
	Disgwylir i lefel y lleoedd gwag aros yn uchel dros y pum mlynedd nesaf.
	Nid yw'r Data Cyfraddau Genedigaethau yn awgrymu cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau	Mae nifer isel y disgyblion a'r heriau cyllidebol sydd yn sgil hynny yn rhwystr i gynllun gwella'r ysgol.

cyllidebau diffyg.	

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae Ysgol Gynradd Pontiets yn ysgol dau ddosbarth, lle mae gan y pennaeth dros dro gyfrifoldeb addysgu o 0.4 yn ogystal â bod yn CADY yr ysgol.

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae sgiliau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar lefel isel. Fodd bynnag, mae llawer yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Gall y mwyafrif o'r disgyblion o flynyddoedd 3 – 6 ysgrifennu hyd at safon sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae cystrawen lleiafrif o'r disgyblion yn wan. Mae sgiliau mathemategol y mwyafrif o'r disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau mathemateg yn gadarn. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion mwy abl nad ydynt yn cyflawni eu potensial llawn.

Mae'r staff yn darparu amryw brofiadau dysgu cynhwysfawr i ddisgyblion, sy'n bodloni'r gofynion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogi ar y cyd i ddiwallu anghenion llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digonol i ddatblygu sgiliau annibynnol. Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o weithgareddau buddiol sy'n datblygu sgiliau llythrennedd a TGCh disgyblion yng ngwaith thematig y dosbarth. Serch hynny, nid yw cynlluniau yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau rhifedd yn llawn.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol sy'n seiliedig ar ddisgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol a chariad at ddysgu. Ystyrir llesiant a hapusrwydd disgyblion ym mhob agwedd ar fywyd ysgol, gan greu cymuned ofalgar a chefnogol. Mae staff yn defnyddio'r weledigaeth hon i osod disgwyliadau uchel ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu allweddol, gan gynnwys darllen, ysgrifennu a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn cyfleu'r un disgwyliadau uchel i ddisgyblion wneud yr un cynnydd yn y cwricwlwm ehangach.

Mae aelodau'r corff llywodraethu yn rhan greiddiol a gwerthfawr o'r gwaith o ddatblygu'r staff. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol a'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud tuag at godi safonau. Fodd bynnag, mae angen cryfhau eu mewnbwn i brosesau hunanwerthuso.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r status quo yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw yn yr ardal.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau o ran cyllideb yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol.

Opsiwn Amgen 2 – Cynyddu capasiti'r ysgol drwy ddatblygu a gweithredu ystod o fentrau e.e. datblygu partneriaeth gyda Menter Cwm Gwendraeth i sefydlu darpariaeth feithrin, cynllun hyrwyddo, diwrnodau agored.

Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Mae dewis rhieni ar gyfer derbyn i ysgol yn parhau i fod y tu hwnt i reolaeth yr ysgol/Corff Llywodraethu.
Nid oes angen adnoddau ychwanegol i weithredu mentrau e.e. cynllun hyrwyddo, diwrnodau agored, gan y byddai'r rhain yn cael eu rheoli gan yr ysgol/Corff Llywodraethu.	Gallai gymryd sawl blwyddyn i weld yr effaith ar nifer y disgyblion sy'n golygu y gallai heriau'r ysgol mewn perthynas â nifer isel o ddisgyblion, lleoedd gwag a chyfran uchel o gyllideb fesul disgybl barhau yn y tymor byr i ganolig.
Gallai'r gymuned leol elwa ar wasanaethau ychwanegol yn yr ardal.	Byddai angen cytundeb yr Awdurdod Lleol cyn i ddarparwr allanol ddefnyddio'r lle yn yr ysgol e.e. darparwr Meithrin.
Dim angen proses statudol.	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i greu perthynas waith dda gyda phartneriaid allanol.	Gofynion cydymffurfio sy'n gysylltiedig â sefydlu darpariaeth feithrin ar safle ysgol.
Gallai ehangu cynnig addysgol / gwasanaeth yr ysgol ddenu rhagor o ddisgyblion i'r ysgol.	

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Ni fyddai unrhyw newid i ansawdd a safonau mewn addysg gan y byddai'r status quo yn parhau.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Mae un lleoliad gofal plant cofrestredig yn y pentref, sef Nyth y Plant, a allai gael ei effeithio gan gyflwyno darpariaeth feithrinfa yn yr ysgol. Effaith andwyol bosibl yw y gall rhai rhieni ddewis y ddarpariaeth feithrinfa yn yr ysgol yn hytrach na'r lleoliad gofal plant, gan arwain at ostyngiad yn nifer y plant sy'n mynychu Nyth y Plant. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y gallai unrhyw leoedd sy'n cael eu gwagio gan blant sy'n trosglwyddo i'r feithrinfa ysgol greu cyfleoedd i blant eraill gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant yn Nyth y Plant. O ganlyniad, bydd yr effaith gyffredinol

ar y darparwr yn cael ei ddylanwadu gan ddewis rhieni a'r galw am leoedd gofal plant yn yr ardal leol yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau o ran cyllideb yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol.

Opsiwn 3 - Cynyddu cyfranogiad y gymuned e.e. Hysbysebu'r defnydd o ofod, datblygu partneriaethau a chynnwys grwpiau cymunedol.

Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefel uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
Ni fyddai angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r mentrau, byddent yn cael eu rheoli gan yr ysgol/Corff Llywodraethu yn unol â pholisi a phrosesau'r Awdurdod Lleol.	Gallai gymryd sawl blwyddyn i weld yr effaith sy'n golygu bod heriau'r ysgol yn parhau yn y tymor byr i ganolig.
Gallai'r gymuned leol elwa ar fynediad i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael yn yr ardal.	Byddai angen cytundeb yr Awdurdod Lleol cyn i ddarparwr allanol ddefnyddio'r lle yn yr ysgol.
Dim angen proses statudol.	
Gallai fod o gymorth i'r ysgol yn ariannol drwy greu incwm.	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Cyfle i sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda phartneriaid allanol a allai wella profiad dysgu'r ysgol.	Byddai angen rheoli risgiau yswiriant a rhwymedigaeth.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Ni fyddai unrhyw newid i ansawdd a safonau mewn addysg gan y byddai'r status quo yn parhau.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'n lleoliad arall i'r gymuned gynnal digwyddiadau lleol. Gallai grwpiau lleol

ddatblygu mwy o gysylltiadau â'r disgyblion yn yr ysgol; rhywbeth fyddai o fudd i'r ysgol a'r gymuned.
Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.
Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn • Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol. • Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol. • Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar broblemau'r ysgol o ran ei chyllideb. • Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol. • Ni fyddai'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol.

Opsiwn 4 - Gwell defnydd a gwella adeiladau ysgol	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Bydd angen buddsoddiad cyfalaf yn adeilad yr ysgol i weithredu'r fenter.
Gallai'r gymuned leol elwa ar fynediad i ddefnyddio'r gofod sydd ar gael yn yr ardal.	Byddai angen cytundeb yr Awdurdod Lleol cyn gwneud unrhyw newid i adeilad yr ysgol.
Dim angen proses statudol.	Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefel uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
Gallai fod o gymorth i'r ysgol yn ariannol drwy greu incwm.	Gallai gymryd sawl blwyddyn i weld yr effaith sy'n golygu bod heriau'r ysgol yn parhau yn y tymor byr i ganolig.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
	Byddai angen rheoli risgiau yswiriant a rhwymedigaeth.
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Ni fyddai unrhyw newid i ansawdd a safonau mewn addysg gan y byddai'r status quo yn parhau.	
Yr effaith debygol ar y gymuned Byddai'n lleoliad arall i'r gymuned gynnal digwyddiadau lleol. Gallai grwpiau lleol ddatblygu mwy o gysylltiadau â'r disgyblion yn yr ysgol; rhywbeth fyddai o fudd i'r ysgol a'r gymuned.	
Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio	

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar broblemau'r ysgol o ran ei chyllideb.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol.

Opsiwn 5 - Datblygu Modelau Cydweithredu e.e. cydweithredu gwirfoddol/ffederasiwn	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Prosesau cyfreithiol yn ofynnol i sefydlu ffederasiwn ffurfiol.
Gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu arweinyddiaeth, adnoddau a chreu effeithlonrwydd costau.	Angen ysgol / corff llywodraethu sy'n fodlon gwneud hyn
Gallai ddarparu ystod ehangach o brofiadau addysgol i ddisgyblion ac ehangu profiadau cymdeithasol disgyblion.	Nid yw'n sicr y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
	Gallai gymryd sawl blwyddyn i weld yr effaith sy'n golygu bod heriau'r ysgol yn parhau yn y tymor byr i ganolig.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Tâl atodol ffederasiwn yn cael ei ddarparu i ysgolion mewn ffederasiwn.	Efallai y bydd gwrthwynebiad gan rieni i arweinyddiaeth a rennir

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

- Gallai datblygu trefniant cydweithredu neu ffederasiwn ffurfiol ddarparu manteision addysgol trwy ragor o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth a rennir, dysgu proffesiynol, datblygu'r cwricwlwm a rhannu ymarfer effeithiol rhwng ysgolion. Gallai disgyblion elwa ar gael mynediad at ystod ehangach o brofiadau addysgol, cyfleoedd allgyrsiol a gweithgareddau ar y cyd, a gallai staff fod ar eu hennill o gael mynediad at rwydweithiau proffesiynol ehangach a rhagor o gyfleoedd i ddatblygu a rhannu arbenigedd.

- Gallai trefniant ffederasiwn hefyd helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd o ran ei harweinyddiaeth. Ar hyn o bryd nid oes gan Ysgol Pontiets bennaeth parhaol ac mae'n gweithredu dan strwythur staffio

cyfyngedig. Gallai ffederasiwn olygu gwell capasiti arweinyddiaeth, strwythurau cymorth cryfach a rhagor o gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, gan wella o bosibl hunanwerthuso, cynllunio gwelliant ac arwain y cwricwlwm.

- Fodd bynnag, er y gallai ffedereiddio gryfhau arweinyddiaeth a chydweithredu, ni fyddai'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Byddai'r ysgol yn parhau i brofi niferoedd isel o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag a chost anghymesur o uchel fesul disgybl. Mae'r amcanestyniadau disgyblion yn dangos bod yr heriau hyn yn debygol o barhau dros y tymor hwy. Felly, byddai'r pryderon ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd tymor hir yr ysgol yn parhau.

- Byddai'r ysgol hefyd yn parhau i weithredu â dosbarthiadau oedran cymysg a phoblogaeth fach iawn o ddisgyblion. Er y gellid cynnal safonau, byddai rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm, cynllunio cynnydd, rhyngweithio â chyfoedion a defnyddio adnoddau yn effeithlon yn parhau. Byddai'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â ffederasiwn felly yn cael eu cyfyngu gan heriau demograffig a threfniadaethol sylfaenol yr ysgol.

- Ar y cyfan, er y gallai'r opsiwn hwn gryfhau capasiti arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a gweithio ar y cyd, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol a ysgogodd yr adolygiad. O ganlyniad, credir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel a chefnogi gwella ysgolion yn y tymor hir.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Pontiets a'r ardal gyfagos.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Efallai y bydd angen teithio ychwanegol ad-hoc os oes cydweithrediad da rhwng yr ysgolion yn y ffederasiwn. Fel arall rhagwelir y byddai'r trefniadau teithio yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol na'r gostyngiad yn y galw a ragwelir yn y tymor hir.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n gwella cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth yn y tymor hir nac yn mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl.
- Er y gallai cydweithredu gryfhau capasiti arweinyddiaeth a chyfleoedd dysgu proffesiynol, ni fyddai'n datrys y problemau cynaliadwyedd sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.
- Byddai'r manteision addysgol yn dibynnu ar sicrhau ysgol bartner addas a sefydlu trefniadau cydweithredol effeithiol.
- Byddai nifer y disgyblion yn yr ysgol dal yn isel iawn, a byddai dosbarthiadau

oedran cymysg o hyd, sy'n golygu y byddai llawer o'r heriau trefniadaethol a'r heriau o ran y cwricwlwm yn parhau.

- Er y gallai cydweithredu gefnogi hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a gweithgarwch gwella'r ysgol, ni fyddai'n rhoi'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir i wella gwydnwch trefniadaethol a sicrhau model darpariaeth sy'n fwy cynaliadwy.
- O ganlyniad, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol a ysgogodd yr adolygiad, a chredir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel a gwella ysgolion yn y tymor hir.

Opsiwn Amgen 6 - Gweithredu Modelau Arweinyddiaeth a Rennir	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Proses gyfreithiol yn ofynnol i sefydlu ffederasiwn ffurfiol.
Gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu arweinyddiaeth, adnoddau a chreu effeithlonrwydd costau.	Angen ysgol / corff llywodraethu sy'n fodlon gwneud hyn
Gallai ddarparu ystod ehangach o brofiadau addysgol i ddisgyblion ac ehangu profiadau cymdeithasol disgyblion.	Nid yw'n sicr y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
	Gallai gymryd sawl blwyddyn i weld yr effaith sy'n golygu bod heriau'r ysgol yn parhau yn y tymor byr i ganolig.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Tâl atodol ffederasiwn yn cael ei ddarparu i ysgolion mewn ffederasiwn.	Efallai y bydd gwrthwynebiad gan rieni i arweinyddiaeth a rennir.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Gallai model arweinyddiaeth a rennir gryfhau capasiti arweinyddiaeth a darparu mynediad at ystod ehangach o arbenigedd arweinyddiaeth na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr ysgol. Gallai hyn gefnogi hunanwerthuso, datblygu'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol, datblygu'r gweithlu a chynllunio gwella'r ysgol. Gallai strwythur arweinyddiaeth mwy cynaliadwy hefyd godi rhywfaint o'r pwysau presennol sy'n gysylltiedig â'r pennaeth dros dro yn ysgwyddo cyfrifoldebau arweinyddiaeth, addysgu a Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar yr un pryd.

Gallai rhagor o gapasiti o ran arweinyddiaeth wella cynllunio strategol, cryfhau gwydnwch trefniadaethol, a gwella parhad os bydd staff yn absennol neu os bydd yr arweinyddiaeth yn newid. Gallai mynediad at dîm arweinyddiaeth ehangach gefnogi monitro safonau mewn modd mwy cadarn, cryfhau arweinyddiaeth y cwricwlwm, gwella cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff, a chynyddu gallu'r ysgol i wella'n barhaus. Gallai hefyd ddarparu rhagor o gyfleoedd i gryfhau prosesau

hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, a chefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol.

Fodd bynnag, er y gallai'r trefniadau arweinyddiaeth gryfhau, ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad. Byddai Ysgol Gynradd Pontiets yn parhau i weithredu â phoblogaeth fach iawn o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag a chost anghymesur o uchel fesul disgybl. Dengys amcanestyniadau disgyblion fod y niferoedd yn debygol o aros yn isel am y dyfodol rhagweladwy, ac felly fyddai pryderon ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth yn parhau.

Byddai'r ysgol hefyd yn parhau i weithredu â dosbarthiadau oedran cymysg fyddai'n rhychwantu ystod eang o grwpiau blwyddyn. Er bod staff yn gweithio'n effeithiol i ddiwallu anghenion y dysgwyr, byddai'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrth gynllunio, asesu a chyflwyno'r cwricwlwm mewn lleoliad mor fach yn parhau. Byddai cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â charfanau mwy o gyfoedion, cymryd rhan mewn dysgu ar y cyd, ac elwa ar brofiadau cymdeithasol ehangach yn parhau i fod yn gyfyngedig o gymharu â'r rheiny fyddai ar gael drwy'r opsiwn a ffefrir.

Ar ben hynny, byddai effeithiolrwydd trefniant arweinyddiaeth a rennir yn dibynnu ar argaeledd capasiti arweinyddiaeth addas mewn ysgol arall a pharodrwydd ysgol arall i fod yn rhan o'r trefniant. Hyd yn oed pe bai'n cael ei weithredu'n llwyddiannus, byddai'r trefniant yn mynd i'r afael yn bennaf â chapasiti arweinyddiaeth yn hytrach na'r heriau demograffig, trefniadaethol ac ariannol ehangach sy'n wynebu'r ysgol. O ganlyniad, ni fyddai llawer o'r ffactorau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd tymor hir yr ysgol yn newid.

Er y gallai'r opsiwn hwn wella capasiti arweinyddiaeth a chryfhau agweddau ar weithgarwch gwella'r ysgol, ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion, nifer fawr y lleoedd gwag, y gost uchel fesul disgybl na'r pryderon ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithlon. Ni fyddai ychwaith yn darparu'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir i sicrhau model addysgol mwy cynaliadwy neu i wella gwydnwch trefniadaethol dros y tymor hwy.

Yn gyffredinol, gallai'r opsiwn hwn gryfhau capasiti arweinyddiaeth, cefnogi gweithgarwch gwella'r ysgol, a gwella gwydnwch trefniadaethol yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, ni fyddai'n datrys yr heriau demograffig, ariannol a threfniadaethol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol, a phrin fyddai'r cyfle i wella ei chynaliadwyedd tymor hir. O ganlyniad, er y gellid cynnal safonau addysgol, credir bod yr opsiwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel, cryfhau arweinyddiaeth a chyflawni'r manteision addysgol tymor hir i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Pontiets a'r ardal gyfagos.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol, y rhagwelir y byddant yn parhau'n isel yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r lefel sylweddol o leoedd gwag yn yr ysgol, a fyddai'n parhau i effeithio ar y defnydd effeithlon o adnoddau.
- Ni fyddai'n gwella cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth yn y tymor hir nac yn mynd i'r afael â heriau cyllidebol yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost anghymesur o uchel fesul disgybl sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach iawn.
- Er y gallai model arweinyddiaeth a rennir gryfhau capasiti arweinyddiaeth a darparu gwell mynediad i arbenigedd arweinyddiaeth, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau demograffig a threfniadaethol sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.
- Ni fyddai'r opsiwn yn gwaredu'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu dosbarthiadau oedran cymysg ar draws ystod eang o grwpiau blwyddyn, na'r cyfyngiadau sy'n perthyn i boblogaeth fach iawn o ddisgyblion.
- Byddai'r manteision addysgol yn ddibynnol ar argaeledd capasiti arweinyddiaeth addas mewn ysgol arall a pharodrwydd ysgol arall i fod yn rhan o'r trefniant.
- Er y gallai capasiti arweinyddiaeth wella, ni fyddai'r opsiwn yn darparu ateb cynaliadwy i'r ffactorau a ysgogodd yr adolygiad, a phrin fyddai'r cyfle i wella hyfywedd yr ysgol yn y tymor hir.
- Ni fyddai'n darparu'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir i gryfhau gwydnwch trefniadaethol, gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, a sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy, o ansawdd uchel i ddysgwyr presennol ac yn y dyfodol.
- O ganlyniad, credir bod yr opsiwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran mynd i'r afael â'r heriau addysgol, trefniadaethol ac ariannol sy'n wynebu'r ysgol a sicrhau gwelliant yn y tymor hir o ran cynaliadwyedd a gwella ysgolion.

Opsiwn Amgen 7 - Archwilio Cyfleoedd am Gyllid Grant	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Nid yw grantiau yn darparu cyllid cynaliadwy hirdymor ac fel arfer maent yn gyfyngedig o ran amser, yn gystadleuol, ac nid oes modd gwarantu y byddant yn dod i law.
Ni fyddai angen adnoddau ychwanegol i weithredu'r fenter, byddai'n cael ei rheoli gan yr ysgol/Corff Llywodraethu.	Gall nodi, gwneud cais am grantiau a rheoli grantiau fod yn ddwys o ran adnoddau ac mae'n gofyn am gapasiti gweinyddol sylweddol.
Gallai ddarparu adnoddau refeniw/cyfalaf ychwanegol i'r ysgol.	Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau allweddol sy'n effeithio ar yr

	ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefel uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Gallai ddarparu cyfleoedd refeniw/cyfalaf ychwanegol i'r ysgol.	Efallai na fydd argaeledd y cyllid yn gyson a gallai amodau grant llym olygu nad yw grantiau'n berthnasol i fynd i'r afael ag anghenion yr ysgol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Ni fyddai unrhyw newid i ansawdd a safonau mewn addysg gan y byddai'r status quo yn parhau.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Pontiets a'r ardal gyfagos.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â phroblemau cyllidebol yn yr ysgol yn y tymor hir, os o gwbl, gan fod y broses o wneud cais am grantiau yn gystadleuol iawn, nid yw'r cyllid wedi'i warantu, ac mae cyfyngiad amser arno.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol.

Opsiwn 8 - Gwella'r defnydd o dechnoleg	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefel uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
Gallai gysylltu disgyblion ag athrawon o bell ac arbenigwyr pwnc i wella darpariaeth / perfformiad yr ysgol.	Efallai y bydd angen buddsoddiad mewn technoleg ychwanegol.
	Costau cynnal a chadw parhaus sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw'r dechnoleg.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**

Cyfle i weithio ar y cyd ag ysgolion/darparwyr addysg eraill i wella cwricwlwm yr ysgol.	Gwrthwynebiad posibl i ddefnyddio technoleg gan staff a disgyblion.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg

Gallai gwell defnydd o dechnoleg ddarparu cyfleoedd i gyfoethogi addysgu a dysgu, gwella mynediad at adnoddau digidol a chryfhau cydweithio ag ysgolion a darparwyr addysg eraill. Gallai dysgwyr elwa ar gael mynediad at arbenigedd, cyfleoedd dysgu rhithwir ac ystod ehangach o brofiadau cwricwlwm nad ydynt fel arall ar gael yn hwylus mewn ysgol fach iawn. Gallai'r opsiwn hefyd gefnogi datblygiad galluedd digidol disgyblion a chyfrannu yn gadarnhaol at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae technoleg yn gallu gwella cyflwyno'r cwricwlwm trwy alluogi mwy o fynediad at adnoddau ar-lein, cydweithio o bell, offer asesu digidol a chyfleoedd dysgu a rennir gydag ysgolion eraill. Gallai gefnogi athrawon i ddarparu ystod ehangach o brofiadau dysgu ac i ehangu mynediad disgyblion at arbenigedd, adnoddau a chyfleoedd addysgol y tu hwnt i'r rhai sydd ar gael yn yr ysgol ei hun. Mewn rhai achosion, gallai hyn helpu i liniaru agweddau ar heriau'r cwricwlwm sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol fach iawn.

Fodd bynnag, er y gallai technoleg wella profiadau dysgu, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol. Byddai Ysgol Gynradd Pontiets yn parhau i weithredu â niferoedd isel o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag a chost anghymesur o uchel fesul disgybl. Dengys amcanestyniadau disgyblion fod yr heriau hyn yn debygol o barhau am y dyfodol rhagweladwy, ac felly ni fyddai'r pryderon ynghylch hyfywedd a chynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth yn newid.

Byddai'r ysgol hefyd yn parhau i weithredu â dosbarthiadau oedran cymysg fyddai'n rhychwantu ystod eang o grwpiau blwyddyn. Er y gallai technolegau digidol gefnogi agweddau ar addysgu a dysgu, ni allant ail-greu yn llawn y manteision addysgol, cymdeithasol a datblygiadol sy'n gysylltiedig â dysgu ochr yn ochr â charfanau mwy o ddisgyblion o oedran a cham datblygu tebyg. Cymharol brin o hyd fyddai'r cyfleoedd i gydweithio â chyfoedion, trafod, gwneud gwaith tîm, arweinyddiaeth disgyblion a rhyngweithio yn gymdeithasol yn ehangach.

Yn ogystal, ni fyddai gwell defnydd o dechnoleg yn mynd i'r afael â'r pryderon sy'n ymwneud â chapasiti arweinyddiaeth, gwydnwch trefniadaethol neu allu i wella'r ysgol. Byddai'r ysgol yn parhau i weithredu â nifer fach o staff a chyfyngiadau o ran arweinyddiaeth, gyda'r pennaeth dros dro yn cydbwyso arweinyddiaeth, addysgu a chyfrifoldebau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. O ganlyniad, byddai llawer o'r heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio strategol, arwain y cwricwlwm, hunanwerthuso a gwella'r ysgol yn barhaus yn parhau. Roedd canfyddiadau arolygiad Estyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cryfhau strwythurau arweinyddiaeth, atebolrwydd a phrosesau hunanwerthuso i gefnogi gwelliant parhaus. Er y gallai technoleg gefnogi agweddau ar addysgu a dysgu, ni fyddai technoleg ar ben ei hun yn cynyddu capasiti arweinyddiaeth nac yn mynd i'r afael â'r heriau trefniadaethol ehangach hyn.

Byddai gweithredu'r opsiwn yn llwyddiannus hefyd yn gofyn am fuddsoddiad

parhaus mewn seilwaith digidol, offer, cynnal a chadw, cymorth technegol a dysgu proffesiynol y staff. Byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau heb fynd i'r afael â'r ffactorau demograffig ac ariannol allweddol sy'n effeithio ar ddyfodol yr ysgol. Prin yw'r dystiolaeth y byddai buddsoddi mewn technoleg yn unig yn arwain at welliant ystyrlon yng nghynaliadwyedd neu hyfywedd addysgol yr ysgol yn y tymor hir.

Er y gallai technoleg ddarparu buddion addysgol gwerth chweil a gwella rhai agweddau ar gyflwyno'r cwricwlwm, byddai'n gweithio'n bennaf fel mesur atodol yn hytrach nag ateb strategol i'r problemau a nodwyd drwy'r adolygiad. Hefyd gellid cyflawni llawer o'r manteision addysgol sy'n gysylltiedig â dysgu digidol mewn ysgolion mwy o faint a mwy cynaliadwy sydd â mwy o gapasiti staffio, strwythurau arweinyddiaeth cryfach a chyfleoedd cwricwlwm ehangach.

Ar y cyfan, er y gallai gwell defnydd o dechnoleg gyfoethogi'r profiadau dysgu, cryfhau capasiti arweinyddiaeth a chefnogi agweddau ar gyflwyno'r cwricwlwm, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau demograffig, trefniadaethol, ariannol ac arweinyddiaeth sy'n wynebu'r ysgol. Ni fyddai'r opsiwn yn gwella nifer y disgyblion, yn lleihau lleoedd gwag, yn cryfhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor nac yn darparu capasiti arweinyddiaeth ychwanegol i gefnogi gwella'r ysgol. Yn ogystal, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffactorau arweinyddiaeth a threfniadaethol y mae tystiolaeth o'r arolygiad yn awgrymu eu bod yn bwysig i sicrhau gwelliant parhaus. O ganlyniad, er y gallai'r safonau addysgol gael eu cynnal, credir bod yr opsiwn hwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel, arweinyddiaeth effeithiol a gwella ysgolion yn barhaus ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Pontiets a'r ardal gyfagos.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol, y rhagwelir y byddant yn parhau'n isel yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r lefel sylweddol o leoedd gwag yn yr ysgol, gan arwain at barhad yn y defnydd aneffeithlon o adnoddau addysgol ac adeiladau.
- Ni fyddai'n gwella cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth yn y tymor hir nac yn mynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach iawn.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost anghymesur o uchel fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd y sir.
- Byddai gweithredu'r opsiwn yn gofyn am fuddsoddiad mewn seilwaith digidol, offer, cynnal a chadw, cymorth technegol a dysgu proffesiynol y staff, gan

arwain at gostau ychwanegol heb fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ysgol.

- Er y gallai technoleg wella agweddau ar addysgu a dysgu, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau trefniadaethol sy'n gysylltiedig â chael dosbarthiadau oedran cymysg ar draws ystod eang o grwpiau blwyddyn.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau arweinyddiaeth presennol sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys absenoldeb pennaeth parhaol a'r capasiti arweinyddiaeth cyfyngedig sydd ar gael o fewn strwythur staffio bach iawn.
- Ni fyddai'n cynyddu capasiti arweinyddiaeth nac yn darparu'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir i gryfhau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, arwain y cwricwlwm a gwella ysgolion yn barhaus.
- Byddai technoleg yn welliant i'r ddarpariaeth bresennol yn bennaf, yn hytrach na bod yn ateb i'r heriau demograffig, ariannol a threfniadaethol a ysgogodd yr adolygiad.
- O ganlyniad, er gallai'r opsiwn hwn ddarparu rhai buddion drwy gyfleoedd dysgu digidol gwell, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar hyfywedd hirdymor yr ysgol, a chredir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr heddiw a dysgwyr y dyfodol.

Opsiwn Amgen 9 – Ffedereiddio Ysgol Gynradd Pontiets ag ysgol gyfagos	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n cadw'r ddarpariaeth addysg yn ardal Pontiets.	Proses gyfreithiol yn ofynnol i sefydlu ffederasiwn ffurfiol.
Gallai gryfhau sefyllfa'r ysgol drwy alluogi'r posibilrwydd o rannu arweinyddiaeth, adnoddau a chreu effeithlonrwydd costau.	Angen ysgol / corff llywodraethu sy'n fodlon gwneud hyn
Gallai ddarparu ystod ehangach o brofiadau addysgol i ddisgyblion ac ehangu profiadau cymdeithasol disgyblion.	Nid yw'n sicr y bydd yn mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
	Gallai gymryd sawl blwyddyn i weld yr effaith sy'n golygu bod heriau'r ysgol yn parhau yn y tymor byr i ganolig.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Tâl atodol ffederasiwn yn cael ei ddarparu i ysgolion mewn ffederasiwn.	Methu â chael cymeradwyaeth i weithredu'r ffederasiwn.
	Efallai y bydd gwrthwynebiad gan rieni i arweinyddiaeth a rennir.
	Mwy o lwyth gwaith i lywodraethwyr yn ystod y cyfnod cychwynnol a'r flwyddyn gyntaf.
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg	

Gallai ffedereiddio ag ysgol gyfagos ddarparu ystod o fanteision addysgol trwy fwy o gapasiti arweinyddiaeth, rhannu arbenigedd, dysgu proffesiynol ar y cyd a gwell gwydnwch trefniadaethol. Mae model ffederal yn gallu cryfhau hunanwerthuso, cynllunio gwella ysgolion, arwain y cwricwlwm a datblygu'r gweithlu, gan roi ar yr un pryd gyfleoedd i staff gydweithio, rhannu arfer effeithiol a chymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar draws rhwydwaith ysgolion ehangach. Yn ogystal, gallai dysgwyr elwa ar gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol drwy gydweithio agosach rhwng ysgolion.

Gallai ffederasiwn llwyddiannus fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd o ran ei harweinyddiaeth. Ar hyn o bryd nid oes gan Ysgol Gynradd Pontiets bennaeth parhaol ac mae'n gweithredu dan strwythur staffio cyfyngedig. Gallai ffederasiwn ddarparu mynediad at fodel arweinyddiaeth mwy cynaliadwy, cynyddu capasiti arweinyddiaeth a chryfhau gwydnwch trefniadaethol. Gallai hyn wella cynllunio strategol, monitro safonau, datblygu'r cwricwlwm, datblygu'r gweithlu, a chapasiti'r ysgol i sicrhau gwelliant parhaus dros amser.

Gallai ffedereiddio hefyd gryfhau gallu'r ysgol i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru drwy gynllunio'r cwricwlwm ar y cyd, cymedroli, deialog broffesiynol a rhannu arbenigedd. Byddai staff yn cael mwy o gyfleoedd i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr o ysgolion partner, gan gefnogi gwaith dylunio'r cwricwlwm, cynllunio cynnydd a datblygu profiadau dysgu o safon. Gallai dysgwyr hefyd elwa ar ragor o gyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol, rhyngweithio â chyfoedion a phrofiadau addysgol ehangach drwy weithgareddau a mentrau ar y cyd.

Fodd bynnag, er y gallai ffedereiddio gryfhau'r trefniadau arweinyddiaeth a'r prosesau gwella ysgol, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol a ysgogodd yr adolygiad. Byddai Ysgol Gynradd Pontiets yn parhau i weithredu â niferoedd isel o ddisgyblion, llawer o leoedd gwag a chost anghymesur o uchel fesul disgybl. Dengys amcanestyniadau disgyblion fod yr heriau hyn yn debygol o barhau am y dyfodol rhagweladwy, ac felly fyddai'r pryderon ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd hirdymor y ddarpariaeth yn parhau.

Byddai'r ysgol hefyd yn parhau i weithredu â dosbarthiadau oedran cymysg fyddai'n rhychwantu ystod eang o grwpiau blwyddyn. Er y gallai ffedereiddio ddarparu cyfleoedd i rannu arbenigedd a chryfhau'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm, byddai'r heriau trefniadaethol ac addysgol sy'n gysylltiedig ag addysgu nifer fach iawn o ddisgyblion ar draws ystodau oedran eang yn parhau. Byddai cyfleoedd i grwpio mewn modd priodol i oedran, cydweithio â chyfoedion, rhyngweithio yn gymdeithasol yn ehangach, a gwneud defnydd effeithlon o staff ac adnoddau yn dal i fod yn brinnach na'r rheiny fyddai ar gael drwy'r opsiwn a ffefrir.

Hefyd, gallai'r patrwm presennol o drefniadaeth ysgolion yn yr ardal leol gyfyngu ar gyfleoedd i sefydlu ffederasiwn. Mae nifer o ysgolion cyfagos eisoes yn gweithredu'n llwyddiannus o fewn ffederasiwn sefydledig o dan un strwythur arweinyddiaeth. Byddai unrhyw gynnig i gynnwys Ysgol Gynradd Pontiets o fewn ffederasiwn presennol yn cynyddu nifer yr ysgolion sy'n gweithredu o dan fodel arweinyddiaeth a rennir, a gallai osod gofynion ychwanegol ar gapasiti arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu a chyfrifoldebau gwella'r ysgol. Fel arall,

byddai ffedereiddio ag ysgol gyfagos arall y tu allan i strwythur y ffederasiwn presennol yn dibynnu ar ganfod ysgol bartner addas a pharod, a sicrhau cytundeb i drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth newydd. O ganlyniad, mae ansicrwydd ynghylch sut y gellid cyflawni'r opsiwn hwn ac i ba raddau y gellid gwireddu ei fanteision disgwyliedig.

Er y gallai ffederasiwn gryfhau capasiti arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a gweithgarwch gwella ysgolion, byddai llawer o'r manteision hyn yn cymryd amser i'w gwireddu ac ni fyddent yn darparu ateb uniongyrchol i'r niferoedd disgyblion gostyngol, y lefelau uchel o leoedd gwag, a'r pryderon am gynaliadwyedd hirdymor. O ganlyniad, byddai llawer o'r ffactorau sydd wedi arwain at yr adolygiad heb eu hunioni o hyd.

Yn gyffredinol, gallai ffederasiwn gryfhau trefniadau arweinyddiaeth, gwella gwydnwch trefniadaethol a darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cydweithio, dysgu proffesiynol a gwella'r ysgol. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sylfaenol o ran materion demograffig, ariannol, a chynaliadwyedd sy'n wynebu'r ysgol. Ni fyddai ychwaith yn darparu'r un gradd o sicrwydd â'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau model darpariaeth addysgol cynaliadwy a gwydn ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, er y gellid cynnal safonau addysgol, a gwella arnynt mewn rhai meysydd, credir bod yr opsiwn yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel, gwella'r defnydd effeithlon o adnoddau, a chyflawni manteision addysgol tymor hir i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Pontiets a'r ardal gyfagos.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r status quo yn parhau.

Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn

- Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol, y rhagwelir y byddant yn parhau'n isel yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r lefel sylweddol o leoedd gwag yn yr ysgol ac ni fyddai'n arwain at welliant yn y defnydd effeithlon o adnoddau addysgol ac o adeiladau.
- Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol yr ysgol yn y tymor hir, ac ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n gysylltiedig ag ysgol fach iawn.
- Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost anghymesur o uchel fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd y sir.
- Er y gallai ffedereiddio gryfhau capasiti arweinyddiaeth, cyfleoedd dysgu proffesiynol a gwydnwch trefniadaethol, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau demograffig sylfaenol sy'n effeithio ar hyfywedd yr ysgol yn y tymor hir.

- Byddai'r ysgol yn gweithredu â dosbarthiadau oedran cymysg a phoblogaeth fach iawn o ddisgyblion o hyd, sy'n golygu y byddai llawer o'r heriau presennol o ran y cwricwlwm, trefniadaeth ac adnoddau yn parhau.
- Byddai llwyddiant yr opsiwn yn dibynnu ar ganfod ysgol bartner addas a pharod, a sicrhau cytundeb i drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth newydd, sy'n creu ansicrwydd ynghylch effeithiolrwydd yr opsiwn a'i gyflawni.
- Mae nifer o ysgolion cyfagos eisoes yn gweithredu o fewn ffederasiwn sefydledig o dan un strwythur arweinyddiaeth. Gallai ehangu trefniadau presennol osod gofynion ychwanegol ar gapasiti arweinyddiaeth a lleihau rhai o fanteision arfaethedig y ffederasiwn.
- Er y gallai ffedereiddio gryfhau hunanwerthuso, cynllunio gwella'r ysgol, ac arweinyddiaeth o'r cwricwlwm, ni fyddai'n rhoi'r un cyfleoedd â'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau model addysgol mwy cynaliadwy a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau.
- O ganlyniad, ni fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r ffactorau allweddol a ysgogodd yr adolygiad, a chredir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran sicrhau darpariaeth addysgol gynaliadwy o ansawdd uchel, arweinyddiaeth effeithiol a gwella'r ysgol yn y tymor hir i ddysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Opsiwn Amgen 10 - Cau Ysgol Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i'r ysgol amgen agosaf	
Cryfderau	**Gwendidau**
Byddai'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n effeithio ar yr ysgol ar hyn o bryd e.e. nifer isel o ddisgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.	Byddai angen Proses Statudol a fyddai'n creu ansicrwydd i staff a disgyblion ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Pontiets wrth i'r broses trefniadaeth ysgolion fynd rhagddi.
Byddai'n lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ardal.	Newid sylweddol i'r disgyblion.
Byddai'n cynyddu nifer y disgyblion mewn ysgolion amgen.	Goblygiadau staffio i staff a gyflogir yn Ysgol Gynradd Pontiets.
	Colli darpariaeth addysg ar ochr Llanelli o bentref Pontiets – effaith ar y gymuned.
	Gall teuluoedd ddewis i'w plant drosglwyddo i nifer o wahanol ysgolion, gan wneud y cyfnod pontio'n anoddach i rai disgyblion.
	Amser teithio hwy i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd fel yr ysgol agosaf.
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir.	Methu â chael cymeradwyaeth y Cyngor Sir i weithredu'r cynnig.
Potensial i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r adeilad ysgol presennol.	Gallai teuluoedd ddewis trosglwyddo i ysgol o gategori iaith wahanol.

Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Gallai'r opsiwn hwn ddarparu amryw fanteision addysgol. Byddai'r disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a byddent yn cael eu haddysgu mewn ysgolion â threfniadau arweinyddiaeth sefydledig, strwythurau staffio ehangach a gwell gwydnwch trefniadaethol. Yn dibynnu ar yr ysgol sy'n derbyn a ddewiswyd gan rieni, gallai dysgwyr elwa ar ystod ehangach o gyfleoedd cwricwlaidd, diwylliannol, chwaraeon ac allgyrsiol, ynghyd â chyfleoedd gwell ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, dysgu cydweithredol ac ymgysylltu â grŵp cyfoedion ehangach. Mae gan y ffactorau hyn y potensial i gyfoethogi profiadau addysgol dysgwyr a chefnogi eu llesiant, eu hyder a'u datblygiad ehangach. Byddai'r opsiwn hefyd yn mynd i'r afael â nifer o'r heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Poniets ar hyn o bryd. Byddai dysgwyr yn trosglwyddo o ysgol sydd â nifer fach o ddisgyblion, llawer iawn o leoedd gwag a strwythur staffio cyfyngedig, i ysgolion sydd â mwy o gapasiti trefniadaethol a threfniadau arweinyddiaeth mwy cynaliadwy. Yn gyffredinol, byddai'r ysgolion sy'n derbyn mewn sefyllfa well i gefnogi datblygiad y cwricwlwm, dysgu proffesiynol, arweinyddiaeth wasgaredig a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol dros y tymor hwy. Gallai disgyblion hefyd gael budd o gael mynediad at strwythurau dosbarth mwy cytbwys a rhagor o gyfleoedd i ddysgu ochr yn ochr â disgyblion o oedran a cham datblygu tebyg. Gallai hyn wella cyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol, trafod, cymorth gan gyfoedion a chynnydd. Gallai dysgwyr hefyd gael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd arweinyddiaeth disgyblion, ymweliadau addysgol, profiadau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a darpariaeth allgyrsiol a all gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant, ymgysylltu a dyheadau. Yn ogystal, mae llawer o ddarpar ysgolion derbyn yn elwa ar gael mwy o gapasiti arweinyddiaeth a strwythurau arweinyddiaeth mwy sefydledig na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Pontiets. Gall hyn gryfhau prosesau hunanwerthuso, arweinyddiaeth o'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a gwella ysgolion, gan ddarparu mwy o wydnwch trefniadaethol a gallu i gynnal gwelliannau dros amser. Fodd bynnag, yn wahanol i'r opsiwn a ffefrir, nid yw'r opsiwn hwn yn nodi ysgol dderbyn benodol, ac felly gall disgyblion drosglwyddo i nifer o wahanol ysgolion. O ganlyniad, gallai grwpiau ffrindiau, rhwydweithiau cymorth a pherthnasoedd chwalu. Er bod safonau addysgol yn debygol o gael eu cynnal, mae mwy o botensial i darfu ar brofiadau addysgol a llesiant dysgwyr nag o dan yr opsiwn a ffefrir. Byddai'r opsiwn a ffefrir yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gefnogi proses bontio fwy cydlynol a strwythuredig, wedi'i seilio ar ysgol dderbyn a enwid. Byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i ddisgyblion, teuluoedd a staff, tra'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddysgwyr drosglwyddo ochr yn ochr â'u cyfoedion a chynnal cyfeillgarwch, rhwydweithiau cymorth ac ymdeimlad o berthyn. Mewn cyferbyniad, efallai y bydd yr opsiwn hwn yn gofyn am gydlynu trefniadau pontio ar draws sawl ysgol, gan	

leihau parhad a chynyddu cymhlethdod i ddysgwyr a theuluoedd o bosibl.

Er y byddai disgwyl i ysgolion sy'n derbyn ddarparu addysg o safon gyfatebol o leiaf, gallai'r profiadau addysgol sydd ar gael i ddisgyblion amrywio yn dibynnu ar yr ysgol a fynychwyd. O ganlyniad, byddai'r manteision o dan yr opsiwn hwn yn llai sicr na'r rhai sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffefrir, lle mae mwy o sicrwydd ynghylch capasiti arweinyddiaeth, darpariaeth y cwricwlwm, cymorth llesiant a threfniadau pontio.

Byddai'r opsiwn hefyd yn darparu llai o gyfleoedd i gynnal y gymuned ysgol bresennol. Gallai gwasgariad disgyblion ar draws sawl ysgol leihau cyfleoedd i gadw perthnasoedd rhwng cyfoedion, cysylltiadau cymunedol a'r hunaniaeth gyfunol sydd wedi datblygu trwy brofiadau addysgol a rennir yn Ysgol Gynradd Pontiets.

Ar y cyfan, mae safonau addysgol yn debygol o gael eu cynnal neu eu gwella o dan yr opsiwn hwn a byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Byddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â llawer o'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd, gan gynnwys niferoedd disgyblion isel, nifer fawr o leoedd gwag, pryderon am gynaliadwyedd ariannol, gwydnwch arweinyddiaeth a'r gost uchel fesul disgybl. Fodd bynnag, oherwydd y gallai disgyblion drosglwyddo i ystod o ysgolion gwahanol, byddai'r opsiwn yn cynnig llai o sicrwydd, parhad a chydlyniant na'r opsiwn a ffefrir. Gallai hefyd arwain at fwy o darfu ar y berthynas rhwng ffrindiau, rhwydweithiau cymorth a threfniadau pontio. O ganlyniad, er y gallai'r opsiwn ddarparu darpariaeth addysgol gynaliadwy, credir ei fod yn llai effeithiol na'r opsiwn a ffefrir o ran cefnogi llesiant dysgwyr, cynnal parhad addysgol a sicrhau pontio hwylus, cydlynol a chefnogol ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Ni fyddai cau'r ysgol yn debygol o effeithio ar y gymuned o ran y defnydd o adeilad yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Ni wneir defnydd ar hyn o bryd o adeilad yr ysgol y tu allan i oriau ysgol.

Fodd bynnag, gellid ystyried y cau arfaethedig fel colli treftadaeth leol o ystyried bod yr ysgol wedi dathlu 150 o flynyddoedd yn 2025.

Er nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned y tu allan i oriau, mae'r ysgol dal yn bwysig yng nghymuned Pontiets gan fod cenedlaethau o rai teuluoedd lleol wedi cael eu haddysgu yn yr ysgol yn y 150 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

Os yw disgyblion yn mynychu ysgol sydd y tu allan i'r gymuned leol, gall hynny hefyd greu anawsterau i rieni/gofalwyr o ran mynd i ddigwyddiadau'r ysgol a chymdeithasu â'i gilydd.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Bydd effaith debygol ar drefniadau teithio. Bydd rhai disgyblion yn wynebu teithiau

hirach i'r ysgol ac efallai na fydd rhai disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd yn gallu gwneud hynny mwyach. Darperir cludiant am ddim yn unol â pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sy'n gorfod teithio ymhellach i fynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol.

Y rheswm dros ffafrio'r opsiwn hwn

- Mae'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol ac yn dileu'r pryderon ynghylch hyfywedd hirdymor darpariaeth sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach iawn.
- Mae'n mynd i'r afael â'r lefel sylweddol o leoedd gwag ac yn helpu i ddefnyddio adeiladau addysgol ac adnoddau yn fwy effeithlon. [
- Mae'n gwella cynaliadwyedd ariannol y ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir ac yn mynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol fach iawn.
- Mae'n mynd i'r afael â'r gost anghymesur o uchel fesul disgybl ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o gyllid cyhoeddus.
- Mae'n darparu mynediad i ysgolion â threfniadau arweinyddiaeth sefydledig, parhaol, cynnydd mewn capasiti arweinyddiaeth a mwy o wydnwch trefniadaethol.
- Mae'n darparu mynediad i ddisgyblion i ysgolion sydd mewn sefyllfa well i gynnal datblygiad y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a gwelliant ysgol parhaus dros y tymor hwy.
- Mae'n cynnal mynediad at adeilad o addasrwydd cyfatebol, wrth i ddisgyblion drosglwyddo i ysgolion sydd â'r un dosbarthiad Gradd B o ran Addasrwydd Adeilad â'u hysgol bresennol.
- Mae'n galluogi disgyblion i drosglwyddo ochr yn ochr â rhai o'u cyfoedion presennol, gan helpu i gynnal cyfeillgarwch, rhwydweithiau cymorth a pharhad yn ystod y broses bontio.
- Mae'n cefnogi llesiant dysgwyr drwy leihau rhywfaint ar y tarfu sy'n gysylltiedig fel arfer â chynigion i gau ysgol, ac yn helpu disgyblion i setlo'n llwyddiannus yn eu hamgylchedd ysgol newydd.
- Mae'n darparu mynediad i ysgolion sydd â mwy o gapasiti trefniadaethol, cyfleoedd addysgol ehangach, a threfniadau mwy cynaliadwy ar gyfer dysgwyr y dyfodol.

Opsiynau amgen yn lle cau'r ysgol, megis sefydlu ysgolion â mwy nag un safle

Mae gwahanol gynigion wedi cael eu harchwilio ynglŷn â dyfodol Ysgol Gynradd Pontiets. Mae pob opsiwn wedi'i werthuso, gyda chrynodeb o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a'r rhesymau dros gefnogi neu wrthod pob opsiwn wedi'u cynnwys. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets yn isel ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y nifer yn aros yn isel yn y blynyddoedd i ddod. Ni fyddai sefydlu ysgol â mwy nag un safle yn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol hwn, nac yn datrys heriau eraill y mae'r ysgol yn eu hwynebu, megis cyfyngiadau ariannol a diffyg yn y gyllideb.

Opsiynau amgen yn lle cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill

Mae amrywiaeth o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Gynradd Pontiets wedi'u hystyried yn ofalus, gan gynnwys y posibilrwydd o ffedereiddio ag ysgolion eraill. Mae'r opsiwn hwn wedi'i werthuso, ac mae crynodeb o'r dadansoddiad SWOT, ynghyd â'r rhesymau dros beidio â ffafrio'r opsiwn hwn, wedi'u cynnwys yn yr opsiynau amgen uchod. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets yn isel a rhagwelir y bydd y nifer yn aros yn isel yn y blynyddoedd i ddod. Ni fyddai ffurfio ffederasiwn neu ystyried clystyru yn mynd i'r afael yn llawn â'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu.

Opsiynau amgen yn lle cau'r ysgol megis y posibiliad o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol

Ystyriwyd a ellid gwneud defnydd llawnach o adeiladau'r ysgol fel adnodd cymunedol, addysgol neu aml-ddefnydd. Fodd bynnag, er y gallai defnydd ychwanegol o'r safle fod o fudd ehangach i'r gymuned, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau craidd sy'n wynebu'r ysgol.

Mae'r heriau sy'n effeithio ar hyfywedd hirdymor yr ysgol yn gysylltiedig yn bennaf â niferoedd isel o ddisgyblion, amcanestyniadau disgyblion sy'n gyson isel, yr angen i drefnu disgyblion mewn dosbarthiadau oedran cymysg, a chyllideb warged yr ysgol, sy'n prysur ostwng. Mae'r ffactorau hyn yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth addysgol a'r cynaliadwyedd ariannol. Ni fyddai disgwyl i fwy o ddefnydd cymunedol neu allanol o'r adeiladau greu cynnydd digonol yn nifer y disgyblion, gwella amcanestyniadau'r dyfodol, lleihau'r angen am drefniadau addysgu oedran cymysg, neu ddileu'r pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r ysgol.

Er bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gyfleoedd i fwyhau'r defnydd o'r safle, nid oes unrhyw gynnig realistig wedi'i nodi a fyddai'n newid, yn ei hanfod, yr amgylchiadau sylfaenol sydd wedi arwain at ystyried cau'r ysgol. Felly er y gallai fod yn fuddiol mewn agweddau eraill, ni fyddai defnydd llawnach o'r adeiladau yn rhoi ateb cynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ar hyn o bryd.

Hefyd, mae gan bentref Pontiets neuadd gymunedol eisoes sy'n gwasanaethu'r ardal ac sy'n darparu cyfleusterau cymunedol.

Casgliad yr Arfarniad Opsiynau Amgen

Ar ôl ystyried yn ofalus yr amryw opsiynau uchod yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2026), mae'r Awdurdod Lleol wedi dod i'r casgliad nad oes yr un o'r opsiynau amgen hyn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd.

Er bod rhai manteision yn perthyn i rai o'r opsiynau amgen, ni fyddai'r un yn darparu ateb i'r holl broblemau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets.

4. Y Cynnig – Cau Ysgol Gynradd Pontiets

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets ar 31 Rhagfyr 2027, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri o 1 Ionawr 2028.

Nid yw'r dyddiad gweithredu arfaethedig yn benderfyniad terfynol ac mae yn fater i'w ymgynghori arno. Wrth i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ystyried y cynnig, gofynnodd aelodau am ystyriaeth a fyddai, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yn cael ei weithredu ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28 gan y gallai hyn fod yn fwy priodol.

Felly, mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r gweithrediad ddigwydd ar 31 Rhagfyr 2027, ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2027/28, neu ar ddyddiad priodol arall. Wrth ddod i unrhyw benderfyniad terfynol, bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys buddiannau dysgwyr, parhad addysgol a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol, yn cael eu hystyried.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud naill ai ar y cynnig i roi'r gorau i'r ysgol nac, os yw'r cynnig yn mynd rhagddo, ar y dyddiad gweithredu priodol.

Mae Ysgol Gynradd Ponthenri hefyd yn Ysgol Gynradd Gymunedol 4-11 oed categori iaith 3 (cyfrwng Cymraeg) yn Heol y Pentre, Ponthenri, Llanelli, SA15 5NS. Bydd disgyblion sydd am fynychu'r ysgol hon yn cael eu trosglwyddo i ysgol o'r un categori iaith, sef 3 (cyfrwng Cymraeg).

Er bod Ysgol Gynradd Ponthenri wedi'i nodi fel yr ysgol sy'n derbyn a ffefrir yn y cynnig hwn, mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgolion yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis y rhieni, yn amodol ar fod lleoedd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol arall.

4.1 Rhesymau dros y Cynnig

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig cau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri. Dyma'r rhesymau dros y cynnig:

Manteision Addysgol i'r Disgyblion

- Byddai disgyblion yn elwa ar fwy o fynediad i ddysgu gyda charfan fwy o ddisgyblion, sy'n caniatáu cynnydd cliriach o fewn grwpiau blwyddyn.

- Byddai disgyblion ar eu hennill o gael grŵp cyfoedion ehangach, gan gefnogi datblygiad cyfeillgarwch a hyder cymdeithasol.
- Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgol sydd â'r un gradd addasrwydd adeilad yn union â'u hysgol bresennol, sef gradd B.
- Os bydd disgyblion yn trosglwyddo i ysgol amgen, gallent benderfynu symud i ysgol fwy sydd â'r capasiti i ddarparu'r cwricwlwm newydd, neu i ysgol wledig lai sydd ag ethos tebyg i'w lleoliad presennol.

Buddion Strategol a Gweithredol

- Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets e.e. nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag a chyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.
- Byddai'r cynnig yn lleihau nifer y lleoedd gwag yn ysgolion yr ardal.
- Byddai'r cynnig, o bosib, yn cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Ponthenri pe bai disgyblion yn dewis mynychu'r ysgol hon.

Manteision Ariannol

- Byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn arwain at arbedion refeniw blynyddol parhaus.
- Mae'r cynnig yn gyfle posibl i greu refeniw drwy werthu'r safle.

4.2 Manteision ac Anfanteision y cynnig

Manteision disgwyliedig y cynnig a'r anfanteision o'u cymharu â'r sefyllfa bresennol:

Manteision	Anfanteision
Byddai'n mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets e.e. nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag, cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl.	Byddai angen cynnal Proses Statudol a fyddai'n creu ansicrwydd i staff a disgyblion ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Pontiets tra bod y broses Trefniadaeth Ysgolion yn mynd rhagddi.
Byddai'n lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ardal.	Newid sylweddol i'r disgyblion.
Byddai o bosib yn cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Ponthenri pe bai disgyblion yn dewis mynychu'r ysgol.	Goblygiadau staffio i staff a gyflogir yn Ysgol Gynradd Pontiets.
Byddai'n cynyddu mynediad at gyfleoedd dysgu a chyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion pe byddent yn dewis mynychu'r ysgol amgen (Ysgol Gynradd Ponthenri), gyda charfan fwy o ddisgyblion.	Colli darpariaeth addysg ym mhentref Pontiets – effaith bosibl ar y gymuned.
Byddai'r Awdurdod Lleol yn rhoi'r gorau i gynnal Ysgol Gynradd Pontiets gan arwain at ddosbarthu'r cyllid i	Amser teithio hwy i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd fel yr ysgol agosaf.

ysgolion eraill.	
Potensial i gael incwm drwy werthu'r adeilad a fyddai'n cael ei ailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.	
Byddai'r cynnig yn cynnal y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, a fyddai'n cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.	

4.3 Rheoli Risg

Risg		Rheoli Risg
1.	Ansicrwydd i staff a disgyblion ar ddyfodol Ysgol Gynradd Pontiets tra bod y broses Trefniadaeth Ysgolion yn mynd rhagddi.	Sicrhau bod staff a rhieni yn cael eu hysbysu am benderfyniadau allweddol yn ystod y broses.
2.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig.	Dilyn y canllawiau a bennwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).
3.	Tarfu ar rai disgyblion a phosibilrwydd o effaith emosiynol arnynt.	Ystyried yr angen am gynlluniau pontio ar gyfer y disgyblion yr effeithir arnynt. Sicrhau cydweithrediad agos rhwng staff a theuluoedd yr ysgol sy'n derbyn i roi cefnogaeth yn ystod y broses drosglwyddo. Darparu cymorth ychwanegol pan fo angen.
4.	Gwasgfa ychwanegol ar Ysgol Gynradd Ponthenri o ran maint dosbarthiadau, adnoddau, neu ansawdd yr addysg.	Sicrhau ar ddechrau'r broses fod gan yr ysgol y capasiti ar gyfer y disgyblon ychwanegol. Cynllunio ar gyfer mân addasiadau neu adnoddau ychwanegol i gefnogi integreiddio heb effeithio ar safonau.
5.	Effaith negyddol bosibl ar y gymuned oherwydd y cynnig i gau'r ysgol.	Edrych ar gyfleoedd i gadw defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol lle bo hynny'n bosibl.
6.	Pwysau ar gapasiti'r ysgol sy'n derbyn.	Byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn yn ystod y cyfnod pontio i helpu i flaen-gynllunio.

4.4 Asesiad o'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri.

Cau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri	
Cryfderau	**Gwendidau**
Effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, a fyddai'n cael eu trosglwyddo i ysgol sydd â chyfleusterau gwell.	Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd.
Byddai materion megis lefelau uchel o leoedd gwag a nifer isel o ddisgyblion yn cael eu datrys.	Colli'r ddarpariaeth addysg yn y gymuned.
Byddai materion o ran y gyllideb yn cael sylw.	Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi.
Byddai disgyblion yn elwa ar fynychu ysgol fwy gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg. Mae hyn yn darparu'r cyfle a'r manteision o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o oedrannau tebyg.	Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol.
Bydd gan y disgyblion fynediad at amgylchedd addysgol ehangach, mwy sefydlog a chynaliadwy mewn ysgolion cyfagos sy'n hygyrch yn ddaearyddol, sydd wedi'u hen sefydlu, ac sy'n gallu bodloni gofynion addysgol presennol ac yn y dyfodol.	Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion cymwys, a allai gynyddu costau cludiant.
Strwythurau dosbarth mwy cytbwys sy'n galluogi gwahaniaethu a chynnydd effeithiol.	Gallai pellteroedd teithio gynyddu i rai disgyblion a chael effaith negyddol ar yr amgylchedd.
Profiadau cymdeithasol ac addysgol gwell i'r disgyblion. Mae niferoedd uwch o ddisgyblion yn rhoi rhagor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gwaith tîm a chyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi. Mae disgyblion yn elwa ar grŵp cyfoedion ehangach, mwy o gyfleoedd allgyrsiol a phrofiad ysgol ehangach.	
Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i	

leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno.	
Byddai'r disgyblion yn symud gyda'i gilydd i'r ysgol newydd a ffefrir ganddynt.	
Mynediad at arbenigedd, adnoddau a chydweithio proffesiynol ar draws y ffederasiwn.	
Arweinyddiaeth a rheolaeth sefydlog a pharhaol.	
Parhad a gwydnwch gwell os bydd staff yn absennol neu os bydd staff yn newid.	
Goruchwyliaeth strategol cryfach a'r gallu i wella'r ysgol.	
Cyfleoedd	**Bygythiadau**
Bydd gan ddisgyblion (gan gynnwys y rhai ag ADY) fynediad at grŵp cyfoedion mwy, dosbarthiadau un oedran, a chwricwlwm ehangach, a all wella profiadau dysgu a deilliannau.	Gwrthwynebiad gan rieni ac aelodau o'r gymuned i'r cynnig.
Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir.	Gallai pellteroedd teithio hwy i ddisgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd leihau cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a chynyddu'r ddibyniaeth ar gludiant.
Potensial i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r adeilad ysgol presennol.	
Gwelliant o ran Capasiti a Sefydlogrwydd yr Arweinyddiaeth – mae'r ysgolion sy'n derbyn yn elwa ar gael arweinyddiaeth barhaol, nad yw'n addysgu gan bennaeth o fewn ffederasiwn sefydledig.	
Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg Byddai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd, a fyddai'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri, yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau â charfanau cyfoedion mwy o faint. Mae hyn yn debygol o wella mynediad at ystod ehangach o adnoddau ac o gefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol, gan fod ysgolion mwy o faint fel arfer yn elwa ar gapasiti staffio mwy a rhagor o arbenigedd proffesiynol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod ansawdd yr addysg yn Ysgol Gynradd Ponthenri o leiaf gystal, ac, o bosibl, yn gryfach na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Pontiets. O ganlyniad, ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar	

safonau na chynnydd y disgyblion. I'r gwrthwyneb, disgwylir i'r trefniant arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar safonau addysgol, yn bennaf oherwydd presenoldeb pennaeth parhaol, nad yw'n addysgu. Mae hyn yn galluogi goruchwyliaeth strategol gryfach, atebolrwydd cliriach, a gwell parhad mewn arweinyddiaeth.

Er y gallai pontio i amgylchedd ysgol mwy darfu ar rai disgyblion yn y tymor byr, disgwylir mai rhywbeth dros dro yn unig fydd hyn. Yn y tymor hwy, mae'r disgyblion yn debygol o elwa ar gyfleoedd gwell i ryngweithio yn gymdeithasol ac i ddatblygu grwpiau ffrindiau ehangach, a fydd yn dda i'w llesiant cyffredinol. Bydd y ffaith bod yr ysgolion sy'n derbyn yn ddaearyddol agos hefyd yn help i darfu cyn lleied ag sy'n bosib ar ddisgyblion a theuluoedd.

Mae Ysgol Gynradd Ponthenri yn rhan o ffederasiwn sydd wedi'i hen sefydlu ag Ysgol Gynradd Gwynfryn ac Ysgol Gynradd Carwe. Mae'r model arweinyddiaeth ar draws y ffederasiwn yn ddiogel ac yn effeithiol, gyda phennaeth nad yw'n addysgu yn darparu goruchwyliaeth strategol a gweithredol, dan gefnogaeth tîm ehangach o uwch-arweinwyr sy'n cynnwys penaethiaid cynorthwyol ym mhob lleoliad a Chydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau goruchwyliaeth gadarn o safonau, cysondeb mewn hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, a ffocws cryf ar fonitro perfformiad a chydymffurfiaeth statudol.

Tynnodd Estyn (2024) sylw at effeithiolrwydd y dull hwn, gan nodi bod arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i athrawon gydweithio ar draws y ffederasiwn a chraffu ar waith disgyblion ar y cyd. O ganlyniad, mae'r ysgolion yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol, gydag arweinwyr yn nodi'n fanwl gywir gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r model ffederasiwn yn cryfhau cyfleoedd ar gyfer cydweithio pellach, gan alluogi staff i rannu arbenigedd, cymryd rhan mewn deialog broffesiynol ystyrlon, a myfyrio ar ymarfer ar y cyd. Disgwylir i'r dull cydweithredol hwn gefnogi gwelliant parhaus a chyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd yr addysgu a deilliannau'r disgyblion.

Yr effaith debygol ar y gymuned

Ni fyddai cau'r ysgol yn debygol o effeithio ar y gymuned o ran y defnydd o adeilad yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Ni wneir defnydd ar hyn o bryd o adeilad yr ysgol y tu allan i oriau ysgol.

Fodd bynnag, gellid ystyried y cau arfaethedig fel colli treftadaeth leol o ystyried bod yr ysgol wedi dathlu 150 o flynyddoedd yn 2025.

Er nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned y tu allan i oriau, mae'r ysgol dal yn bwysig yng nghymuned Pontiets gan fod cenedlaethau o rai teuluoedd lleol wedi cael eu haddysgu yn yr ysgol yn y 150 o flynyddoedd ers ei sefydlu.

Os yw disgyblion yn mynychu ysgol sydd y tu allan i'r gymuned leol, gall hynny

hefyd greu anawsterau i rieni/gofalwyr o ran mynd i ddigwyddiadau'r ysgol a chymdeithasu â'i gilydd.

Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Bydd effaith debygol ar drefniadau teithio. Bydd rhai disgyblion yn wynebu teithiau hirach i'r ysgol ac efallai na fydd rhai disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd yn gallu gwneud hynny mwyach. Darperir cludiant am ddim yn unol â pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sy'n gorfod teithio ymhellach i fynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol.

Y rheswm dros ffafrio'r opsiwn hwn

- Mae'n mynd i'r afael â'r niferoedd disgyblion sy'n gyson isel a'r diffyg hyfywedd yn y tymor hir o ganlyniad i hynny.
- Mae'n lleihau'r lefel uchel o leoedd gwag, gan wella'r defnydd effeithlon o adeiladau.
- Mae'n codi'r pwysau parhaus ar y gyllideb sy'n gysylltiedig â gweithredu ar raddfa fach.
- Mae'n lleihau'r gost anghymesur o uchel fesul disgybl sy'n gysylltiedig â nifer fach ar y gofrestr.
- Mae'n darparu mynediad i ddisgyblion i ysgolion sydd â strwythurau arweinyddiaeth sefydlog, parhaol.
- Mae'n gwaredu'r ddibyniaeth ar bennaeth dros dro yn ymgymryd â nifer o rolau statudol, gan gynnwys addysgu a chyfrifoldebau Cydlynydd ADY.
- Mae'n trosglwyddo disgyblion i ysgolion sydd mewn ffederasiwn sefydledig, sy'n golygu eu bod yn elwa ar gapasiti arweinyddiaeth cryf, arbenigedd a rennir a goruchwyliaeth strategol.
- Mae'n gwella addysgu a dysgu trwy ddosbarthiadau sydd ag ystodau oedran cymysg llai cymhleth, gan alluogi gwahaniaethu a chynnydd wedi'u targedu'n well.
- Mae'n cryfhau'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy rolau Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol penodol sydd ar wahân i'r brifathrawiaeth.
- Mae'n cynnal addasrwydd adeiladau, gan fod gan y ddwy ysgol sy'n derbyn yr un sgôr gradd B â'r ysgol bresennol.
- Mae'n cynnig parhad a chymorth llesiant, gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo ochr yn ochr â chyfoedion, gan helpu i liniaru effeithiau negyddol posibl y pontio.
- Mae'n rhoi mynediad at grŵp cyfoedion ehangach a gwell cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol.
- Mae'n cefnogi model addysgol mwy gwydn a chynaliadwy ar gyfer yr ardal leol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets yn cael sylw pe bai'r opsiwn a ffefrir yn mynd rhagddo:

Yr Her Allweddol	Sut fyddai'r opsiwn a ffefrir yn mynd i'r afael â'r her allweddol
Nifer Isel o Ddisgyblion Mae ffigyrau CYBLD 2026 yn dangos bod 21 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.	Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets wedi bod yn gostwng yn gyson ers sawl blwyddyn, ac nid oes disgwyl cynnydd sylweddol yn y pum mlynedd nesaf o leiaf yn ôl amcanestyniadau a data genedigaethau. Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater drwy drosglwyddo'r disgyblion sydd ar ôl i Ysgol Ponthenri.
Nifer uchel o leoedd gwag Ar hyn o bryd mae 57 o leoedd gwag yn yr ysgol sy'n cyfateb i 73% o'r capasiti dros ben.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo'r disgyblion sydd ar ôl i Ysgol Ponthenri. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol ac o leiaf 30 o leoedd gwag. Mae'r ddarpariaeth dros ben yn Ysgol Gynradd Pontiets yn llawer uwch na hyn, sef 73%. O'r herwydd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ei ddarpariaeth.
Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol Rhagwelir bydd gan yr ysgol diffyg o £80,469 erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2026/27.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai cau'r ysgol yn atal y gyllideb diffyg rhag dyfu. Rhagwelir y bydd gan Ysgol Gynradd Ponthenri warged o £20,322 ar ddiwedd mis Mawrth 2026.
Cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl Cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2025/26 oedd £8,180. Roedd hyn £2,701 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin. Ar gyfer 2026/27, cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yw £9,017 sydd £3,048 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri sydd â chost is fesul disgybl o £5,573, sydd yn is hefyd na'r cyfartaledd yn y sir ar gyfer ysgol gynradd o £5,969 ar gyfer 2026/27.
Arweinyddiaeth a rheolaeth Ar hyn o bryd nid oes gan Ysgol	Byddai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd

Gynradd Pontiets arweinyddiaeth barhaol. Mae'r ysgol yn cael ei harwain gan bennaeth dros dro sydd â chyfrifoldeb addysgu o 0.4 ochr yn ochr â chyfrifoldeb statudol ychwanegol bod yn Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr Ysgol (CADY). Mae hyn yn arwain at rôl ddeuol sylweddol sy'n rhoi cryn bwysau gweithredol a strategol ar un deiliad swydd. Oherwydd maint yr ysgol a'i strwythur staffio cyfyngedig, mae'r capasiti arweinyddiaeth yn fach. Mae'n rhaid i'r pennaeth dros dro gyfuno cyfrifoldebau addysgu, arweinyddiaeth, rheoli a CADY, sy'n cyfyngu ar yr amser sydd ar gael ar gyfer datblygu strategol, hunanwerthuso parhaus, arweinyddiaeth o'r cwricwlwm a sicrhau ansawdd. Mae absenoldeb pennaeth nad yw'n addysgu yn cyfyngu ar gyfleoedd i oruchwylio addysgu a dysgu mewn modd cadarn, i ddatblygu'r staff, ac i gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn y tymor hir.	Pontiets yn galluogi disgyblion i drosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri, sydd ar ei hennill o gael trefniadau arweinyddiaeth sefydlog, parhaol a strwythurau arweinyddiaeth wasgaredig sefydledig. Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn ffederasiwn o dair ysgol gynradd, lle ceir cydweithio cryf, arbenigedd a rennir, a gwydnwch mewn arweinyddiaeth a llywodraethu. O fewn y ffederasiwn, nid yw'r pennaeth yn addysgu, sy'n caniatáu goruchwyliaeth effeithiol o faterion gweithredol a chyfeiriad strategol ar draws yr ysgolion. Mae pob ysgol yn y ffederasiwn yn cael ei chefnogi gan bennaeth cynorthwyol sy'n cyfrannu at gapasiti arweinyddiaeth, yn cefnogi datblygiad staff ac yn cynnal parhad. Yn ogystal mae rôl y CADY ar wahân i rôl y pennaeth, ac felly mae modd arwain y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol mewn ffordd sydd â mwy o ffocws ac effeithiolrwydd yn perthyn iddi. Ar y cyfan, byddai'r trefniadau arfaethedig yn cynnig mwy o sefydlogrwydd i ddisgyblion, capasiti arweinyddiaeth cryfach, a strwythur rheoli mwy cynaliadwy nag sy'n bosibl ar hyn o bryd yn Ysgol Gynradd Pontiets.
Amcanestyniadau nifer isel o ddisgyblion Mae'r amcanestyniad disgyblion, ynghyd â'r data genedigaethau sydd ar gael, yn rhagweld y bydd y niferoedd yn aros yn debyg i'r niferoedd presennol rhwng 2027 a 2031 a bydd y lleoedd gwag yn parhau i fod yn uchel iawn.	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri, ac o bosibl gwella amcanestyniadau disgyblion yn yr ysgol pe bai disgyblion yn dewis trosglwyddo i'r ysgol honno.
Heriau o ran y ddarpariaeth addysgol oherwydd nifer isel y disgyblion Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd Pontiets ddau ddosbarth oedran cymysg, ac mae pob un yn cynnwys pedwar grŵp blwyddyn. Er bod staff yn gweithio'n ddiwyd i ddiwallu anghenion dysgwyr, mae'r ystod oedran eang iawn	Mae'r ysgol dderbyn arfaethedig yn gweithredu â strwythurau dosbarth mwy cytbwys ac ystodau grŵp blwyddyn culach. Mae hyn yn cefnogi addysgu sy'n fwy effeithiol ac sydd â mwy o ffocws, cynllunio cynnydd cliriach, a

ym mhob dosbarth yn gosod gofynion sylweddol ar gynllunio, gwahaniaethu ac asesu. Gall y cymhlethdod hwn gyfyngu ar y gallu i ddarparu profiadau addysgu a dysgu wedi'u targedu yn gyson i bob disgybl. Mae niferoedd bach o ddisgyblion yn cyfyngu ar gyfleoedd i gydweithio â chyfoedion a grwpio priodol i oedran, a gall effeithio ar brofiadau cymdeithasol ac academaidd disgyblion. Mae heriau ychwanegol yn perthyn i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru mewn dosbarthiadau cymysg mor eang, yn enwedig o ran sicrhau cynnydd a pharhad ar draws camau dysgu. Yn Ysgol Gynradd Pontiets, y pennaeth dros dro sy'n cyflawni rôl y CADY ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau addysgu. Er bod dyletswyddau statudol yn dal i gael eu cyflawni, mae'r rôl gyfunol hon yn cyfyngu ar y gallu i gyflawni'r goruchwyliaeth strategol, yr ymyrraeth ragweithiol a'r gwaith partneriaeth sy'n ofynnol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.	rhagor o gyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol rhwng disgyblion o oedrannau tebyg. Mae'r staff mewn sefyllfa well i dargedu cymorth, i herio'r disgyblion yn briodol, ac i ymateb i anghenion dysgu unigol yn amserol. Mae bod yn aelod o ffederasiwn hefyd yn cryfhau datblygiad y cwricwlwm trwy gynllunio a rennir, cymedroli a dysgu proffesiynol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn gwella cysondeb, ansawdd ac arloesedd mewn addysgu a dysgu ar draws yr ysgolion. Mae gan Ysgol Gynradd Ponthenri Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol penodol, ar wahân i rôl y pennaeth. Mae hyn yn sicrhau arweinyddiaeth gryfach o ddarpariaeth ADY, gwell cydlynu ag asiantaethau allanol, a monitro cadarnach o gynnydd y dysgwyr. Mae mynediad at arbenigedd ledled y ffederasiwn yn atgyfnerthu ymhellach y cysondeb ac ansawdd y cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

4.5 Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Pe bai'r Cyngor Sir yn penderfynu bwrw ymlaen â'r broses statudol ac yna'n gweithredu'r opsiwn a ffefrir, bydd cymorth priodol yn cael ei gynnig i ddisgyblion a'u rhieni drwy gydol y cyfnod pontio.

Rhoddir rhaglen bontio gynhwysfawr yn ei lle er mwyn cefnogi disgyblion a'u teuluoedd wrth iddynt symud i'w hysgol newydd. Bydd yn cynnwys cyfleoedd i ymweld â'r ysgolion sy'n derbyn, cwrdd â staff addysgu a chymorth, a chyfarwyddo ag amgylchedd, arferion a chyfleusterau'r ysgol. Hefyd gellir trefnu gweithgareddau ar y cyd a digwyddiadau pontio i helpu disgyblion i feithrin perthynas â'u cyfoedion newydd ac i fagu hyder cyn symud. Bydd yr ysgolion sy'n derbyn hefyd yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch am y cwricwlwm, gwasanaethau cymorth, cyfleoedd allgyrsiol a chyfleusterau ysgol ehangach sydd ar gael.

Bydd cyfathrebu rheolaidd â rhieni a gofalwyr yn rhan allweddol o'r broses bontio. Lle bo angen, darperir cymorth ychwanegol i deuluoedd y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i ymgysylltu â'r gymuned ysgol newydd.

Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, drwy drefniadau pontio wedi'u personoli a gwell cymorth bugeiliol. Bydd ysgolion yn dal i weithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau perthnasol i sicrhau parhad y ddarpariaeth ac i helpu dysgwyr i gymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Bydd cyfle gan rieni sy'n dymuno i'w plant fynychu ysgol heblaw'r rhai a nodwyd yn y cynnig i fynegi eu dewis yn unol â pholisi derbyn yr Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi arweiniad a chymorth drwy gydol y broses hon, gan sicrhau bod gwybodaeth lawn gan rieni am yr opsiynau sydd ar gael ac unrhyw oblygiadau cysylltiedig.

5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

5.1 A fydd gan ddarpariaeth yr ysgol amgen ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir?

Yr opsiwn a ffefrir, os caiff ei gymeradwyo, yw i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Ponthenri o 1 Ionawr 2028.

Cyfanswm capasiti Ysgol Gynradd Ponthenri ar gyfer y flwyddyn academaidd 26/27 yw 85 gyda nifer derbyn o 10.

Mae'r tabl canlynol yn dangos effaith y cynnig ar grwpiau blwyddyn yn yr ysgol sy'n derbyn pe bai pob disgybl sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Ponthenri yn seiliedig ar ffigurau CYBLD 2026.

CYBLD 2026	Meithrin	Derbyn	Bl1	Bl2	Bl3	Bl4	Bl5	Bl6	Cyfanswm
Ysgol Gynradd Pontiets	2	1	3	2	2	6	2	3	21
Ysgol Gynradd Ponthenri	0	7	8	7	10	6	11	11	60
CYFANSWM	**2**	**8**	**11**	**9**	**12**	**12**	**13**	**14**	**81**

Mae'r wybodaeth yn dangos, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod pob disgybl presennol yn dewis trosglwyddo o Ysgol Gynradd Pontiets i Ysgol Gynradd

Ponthenri, y byddai nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer derbyn yn y rhan fwyaf o grwpiau blwyddyn.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y byddai angen i'r ysgol amgen a enwid adolygu strwythur ei dosbarthiadau i ddarparu ar gyfer rhai neu bob un o ddisgyblion Ysgol Gynradd Pontiets.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd cyfunol y disgyblion yn seiliedig ar amcanestyniadau pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu a bod yr holl ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri.

	CYBLD 2026	**Amcanestyniad 2027***	**Amcanestyniad 2028***	**Amcanestyniad 2029***	**Amcanestyniad 2030***	**Amcanestyniad 2031***
Ysgol Gynradd Pontiets	21	21	22	19	20	21
Ysgol Gynradd Ponthenri	60	57	54	56	54	55
CYFANSWM	**81**	**78**	**76**	**75**	**74**	**76**

*(*gan gynnwys disgyblion meithrin)*

Mae'r tabl yn awgrymu y byddai gan Ysgol Ponthenri ddigon o gapasiti ar gyfer y niferoedd disgyblion cyfunol a ragwelir.

Mae hyn wedi'i ddadansoddi ymhellach yn ôl grŵp blwyddyn:

Amcanestyniadau CYBLD 2026	**Meithrin**	**Derbyn**	**Bl1**	**Bl2**	**Bl3**	**Bl4**	**Bl5**	**Bl6**	**Cyfanswm**
Ionawr 2027									
Ysgol Gynradd Pontiets	2	1	3	3	2	2	6	2	21
Ysgol Gynradd Ponthenri	0	7	8	8	7	10	6	11	57
CYFANSWM	**2**	**8**	**11**	**11**	**9**	**12**	**12**	**13**	**78**
Ionawr 2028									
Ysgol Gynradd Pontiets	2	1	3	3	3	2	2	6	22
Ysgol Gynradd Ponthenri	0	7	8	8	8	7	10	6	54
CYFANSWM	**2**	**8**	**11**	**11**	**11**	**9**	**12**	**12**	**76**

Wrth ystyried y niferoedd disgyblion cyfunol a ragwelir wedi'u rhannu yn ôl grŵp blwyddyn, cydnabyddir y gall nifer y disgyblion dros dro fod yn fwy na nifer derbyn yr ysgol dros dro. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn prosesu unrhyw geisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn Ysgolion a Chod Derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Er bod ysgol amgen benodol yn cael ei chynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae teuluoedd yn cadw'r hawl i fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn ei ddewis

Tai Cymdeithasol – Nifer y Disgyblion

Yn seiliedig ar y data tai sydd ar gael, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddatblygiadau tai cymdeithasol wedi'u cynllunio yng nghymunedau Pontiets a Phonthenri a fyddai'n creu galw am leoedd ysgol gynradd dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad, nid yw datblygiadau tai cymdeithasol wedi'i nodi fel ffactor a fyddai'n cael effaith ar yr amcanestyniadau disgyblion a nodir yn y ddogfen hon.

Datblygu Tai – Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (Ebrill 2026)

Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu'r wybodaeth a ddarparwyd gan Adran Gynllunio'r Cyngor mewn perthynas â safleoedd datblygiadau preswyl yn ardal Pontiets a Phonthenri. Mae'r set ddata'n cynnwys dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, dyraniadau arfaethedig yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, a safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn adlewyrchu safleoedd oedd dal heb eu datblygu ym mis Ebrill 2026.

Ar hyn o bryd mae gan chwe safle yn ardal Pontiets ganiatâd cynllunio ar gyfer anheddau unigol, ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar ddau ohonynt. Yn ogystal, mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer dau ddatblygiad preswyl: tir ger Rhes Tabernacl (11 annedd) a thir yn Heol Llanelli, Heol Danybanc (10 annedd). Disgwylir i'r datblygiadau hyn gael eu cwblhau rhwng 2028 a 2032. Mae dau safle arall wedi'u nodi yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, er nad oes gan yr un ohonynt ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd: Cae Canfas (8 annedd) ac 8 Heol Llanelli (6 annedd). Mae'n bosibl bod dau safle arall wedi'u nodi ar gyfer datblygiadau preswyl yn nyraniadau blaenorol y cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

Yn ardal Ponthenri, ar hyn o bryd mae gan bedwar safle ganiatâd cynllunio ar gyfer anheddau unigol, ond nid yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar yr un ohonynt. Nid oes unrhyw ddatblygiadau preswyl mwy yn yr arfaeth ar hyn o bryd yn yr ardal. Unwaith eto, er bod dyraniadau cynllun datblygu blaenorol wedi nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl o bosibl, nid yw'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Er bod potensial gan y datblygiadau hyn i gyfrannu at dwf y boblogaeth ar draws ardal ehangach yn y dyfodol, nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd y byddant yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontiets. Yn ogystal mae cyflymder y gwaith datblygu, y lefelau deiliadaeth

a chyfansoddiad aelwydydd preswylwyr y dyfodol yn parhau i fod yn ansicr, a bydd amodau'r farchnad a'r galw am dai ar y pryd yn dylanwadu ar y pethau hyn.

O ganlyniad, er bod twf tai a gynlluniwyd wedi cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad o alw yn y dyfodol am leoedd ysgol, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod datblygiadau preswyl arfaethedig yn debygol o newid, yn ei hanfod, y tueddiadau poblogaeth disgyblion amcanol sy'n cael eu hamlinellu mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon. Felly, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn nad yw'r twf tai sydd wedi'i gynllunio yn darparu digon o dystiolaeth i gefnogi disgwyl cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets yn y dyfodol.

5.2 A fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried yn ofalus ei ddyletswyddau i sicrhau nad yw disgyblion anabl dan anfantais a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i alluogi mynediad i addysg i bawb yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Y bwriad yw trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gynradd Pontiets i Ysgol Gynradd Ponthenri, sydd â chynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer disgybl, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

5.3 A yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un iaith ac (os yn berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig

Mae gan Ysgol Gynradd Ponthenri, sy'n ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3, ddigon o gapasiti cyffredinol i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Gynradd Pontiets, o ran niferoedd presennol a'r niferoedd a ragwelir. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhywfaint o ailstrwythuro i ddarparu ar gyfer y disgyblion ychwanegol mewn rhai grwpiau blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.

5.4 Cynigion eraill ynghylch ad-drefnu ysgolion

Mae'r Cyngor yn cynnal proses statudol ar wahân ar hyn o bryd mewn perthynas â chynnig i gau Ysgol Carwe. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnig hwnnw'n cael ei weithredu o 1 Ionawr 2028. Mae'r Cyngor wedi ystyried a yw cynnig Ysgol

Carwe a'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Pontiets yn gynigion cysylltiedig o dan God Trefniadaeth Ysgolion 2026.

Barn y Cyngor yw na fyddai gweithredu neu beidio â gweithredu cynnig Ysgol Carwe yn atal nac yn tanseilio'r broses o weithredu'r cynnig sy'n ymwneud ag Ysgol Pontiets yn effeithiol. Yn unol â hynny, nid yw'r cynigion yn cael eu hystyried yn gynigion cysylltiedig at ddibenion y Cod.

6. Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni/arnynt

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) nodir isod yr ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y gallai disgyblion fod yn dymuno trosglwyddo iddynt.

Enw'r Ysgol		**Ysgol Gynradd Gwynfryn**	**Ysgol Gynradd Ponthenri**	**Ysgol Gynradd Carwe**	**Ysgol Pum Heol**	**Ysgol Gynradd Mynyddygarreg**
Lleoliad yr Ysgol		Heol y Meinciau, Pontiets, Llanelli, SA15 5SN	Heol y Pentre, Ponthenri, Llanelli, SA15 5NS	Carwe, Cydweli, SA17 4HE	Heol Hen, Pump-hewl, Llanelli, SA15 5EZ	Mynyddygarreg, Cydweli, SA17 4RL
Ystod Oedran		4-11	4-11	4-11	4-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
Categori laith		3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg	3 – Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2026)	**Meithrin**	4	0	4	1	1
	Derbyn – Blwyddyn 6	56	60	54	62	26
	Cyfanswm	**60**	**60**	**58**	**63**	**27**

Enw'r Ysgol		Ysgol Gynradd Gwynfryn	Ysgol Gynradd Ponthenri	Ysgol Gynradd Carwe	Ysgol Pum Heol	Ysgol Gynradd Mynyddygarreg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)	**Ionawr 2025**	56	64	59	77	27
	Ionawr 2024	59	67	59	87	33
	Ionawr 2023	62	68	68	97	35
	Chwefror 2022	57	70	63	99	35
Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion 2026 (ac eithrio Meithrin)	**Ionawr 2027**	57	57	59	68	26
	Ionawr 2028	61	54	58	70	27
	Ionawr 2029	62	56	63	66	26
	Ionawr 2030	58	54	60	64	27
	Ionawr 2031	58	55	60	65	25
Capasiti Meithrin 2025/26		10	11	14	15	7
Capasiti Derbyn – B6 2025/26		85	83	104	105	54
Cyfanswm Capasiti 2025/26		**95**	**94**	**118**	**120**	**61**
Capasiti Meithrin 2026/27		10	10	14	15	7
Capasiti Derbyn – B6 2026/27		85	75	104	105	54

Enw'r Ysgol	Ysgol Gynradd Gwynfryn	Ysgol Gynradd Ponthenri	Ysgol Gynradd Carwe	Ysgol Pum Heol	Ysgol Gynradd Mynyddygarreg
Cyfanswm Capasiti 2026/27	**95**	**85**	**118**	**120**	**61**
Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2026/27)	£5,518	£5,573	£5,978	£5,855	£6,298
Cyllideb Ysgol (2026/27)	£331,105	£334,409	£346,743	£368,869	£170,055
Canlyniad Arolygiad Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Gynradd Gwynfryn - Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Gynradd Ponthenri - Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Gynradd Gymunedol Carwe - Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Gynradd Pum Heol - Estyn	Nid mewn categori gweithgarwch dilynol Ysgol Mynyddygarreg - Estyn
Categori Cyflwr Adeilad (2024)	C	B	B	A	C
Addasrwydd yr Adeilad	B	B	B	A	A

Mae Ysgol Gynradd Gwynfryn, Ysgol Gynradd Ponthenri ac Ysgol Gynradd Carwe mewn Ffederasiwn. Mae hyn yn golygu bod yr ysgolion yn rhannu'r un Corff Llywodraethu a bod y Pennaeth yn rhannu ei amser ar draws y tri safle.

6.1 Effaith y cynnig ar ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yr effaith fwyaf a ragwelir yw ar Ysgol Gynradd Ponthenri fel yr ysgol amgen a enwir i Ysgol Gynradd Pontiets. Byddai'r effaith hon yn golygu bod mwy o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol y gellir ei ystyried yn effaith gadarnhaol gan y bydd yn cefnogi cynaliadwyedd y ddarpariaeth yn yr ysgol sydd ar hyn o bryd â niferoedd o dan y capasiti.

Fodd bynnag, golyga dewis rhieni fod yr hawl gan rieni i fynegi pa ysgol yr hoffent i'w plentyn fynd iddi. Nid yw mynegi ysgol a ffefrir yn rhoi sicrwydd y caiff plentyn le yn yr ysgol honno. Efallai y bydd rhai rhieni disgyblion Ysgol Gynradd Pontiets yn dymuno dewis ysgol arall yn lle'r rhai a enwir uchod. Felly, mae'n bosibl y gellid effeithio ar ysgolion eraill cyfagos i Ysgol Gynradd Pontiets e.e. Ysgol Gynradd Gwynfryn, Ysgol Gynradd Carwe neu Ysgol Pum Heol, a hyd yn oed ymhellach i ffwrdd yn dibynnu ar amgylchiadau unigryw rhieni/disgyblion.

Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion y mae hyn yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yn cael ei ystyried yn negyddol, gan fod gan yr holl ysgolion cyfagos y gallai fod yn rhesymol ystyried y byddai disgyblion am drosglwyddo iddynt leoedd gwag ar hyn o bryd.

Er bod Ysgol Gynradd Ponthenri wedi'i nodi fel yr ysgol sy'n derbyn a ffefrir yn y cynnig hwn, mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn fynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos megis Ysgol Gynradd Gwynfryn, Ysgol Gynradd Carwe, ac Ysgol Pum Heol. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgolion yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis y rhieni, yn amodol ar fod lleoedd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol arall.

6.2 Effaith y cynnig ar y Staff

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai Ysgol Gynradd Pontiets yn cau.

Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath ei chael ar y staff sy'n gweithio yno.

Ein blaenoriaeth bob amser yw lleihau tarfu a chefnogi ein staff drwy unrhyw gyfnod o newid. Yn unol â'n Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i osgoi dileu swyddi yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni allwn ddiystyru'n llwyr y posibilrwydd o ddileu swyddi. Pan nad yw adleoli yn ymarferol, byddwn yn dilyn proses deg a thryloyw ac yn cefnogi'r rheiny yr effeithir arnynt.
Rydym yn deall yr ansicrwydd mae hyn yn ei greu i staff a'u teuluoedd, ac rydym wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd ein tîm Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

6.3 Effaith y cynnig ar y gymuned leol

Cydnabyddir pe bai'r cynnig i roi'r gorau i Ysgol Pontiets yn mynd rhagddo, y byddai cymuned Pontiets yn colli ysgol yn y pentref, a allai gael effaith negyddol ar y gymuned.

Mae'r ysgol wedi dathlu ei phen-blwydd yn 150 oed yn ddiweddar, sy'n tynnu sylw at ei safle amlwg fel canolbwynt o fewn y gymuned leol. Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned fod yr ysgol yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd cymunedol drwy ei chysylltiadau â sefydliadau lleol, gweithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau sy'n dod â phobl ynghyd, gan helpu i feithrin ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth gymunedol. Fodd bynnag, nid yw grwpiau cymunedol allanol yn gwneud defnydd rheolaidd o adeiladau'r ysgol y tu allan i oriau ysgol ar hyn o bryd.

Cyflwynir Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned drafft yn Atodiad A. Bydd hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth a dderbynnir.

Canfu'r asesiad hefyd fod cyfran sylweddol o blant sy'n byw o fewn dalgylch Pontiets eisoes yn mynychu ysgolion heblaw am Ysgol Pontiets a bod darpariaeth amgen addas ar gael yn Ysgol Ponthenri. Mae'r ysgol dderbyn yn darparu ystod o gyfleoedd addysgol, diwylliannol ac allgyrsiol ac yn cynnal cysylltiadau cryf â sefydliadau lleol a gweithgareddau cymunedol.

Oherwydd agosrwydd Ysgol Ponthenri, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith sylweddol ar amseroedd teithio nac ar allu disgyblion i gerdded neu feicio i'r ysgol. Byddai trefniadau trosglwyddo a chymorth priodol yn cael eu darparu i ddisgyblion a theuluoedd pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Er y byddai'r cynnig yn arwain at golli adeilad ysgol sy'n rhan o hanes, hunaniaeth a bywyd cymunedol Pontiets, daeth yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i'r casgliad na fyddai cysylltiadau cymunedol na chyfranogiad mewn gweithgareddau lleol o reidrwydd yn dod i ben o ganlyniad i'r cynnig. Cydnabu'r asesiad hefyd, er y gallai colli ysgol bentref leihau atyniad yr ardal i rai teuluoedd sy'n ystyried symud i'r gymuned ac y gallai gael effaith andwyol gyfyngedig ar fywiogrwydd y gymuned a gwariant lleol, nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai nifer sylweddol o deuluoedd yn gadael yr ardal nac y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr economi leol ehangach. Mae tystiolaeth ddemograffig yn dangos bod Pontiets yn parhau'n gymuned sefydlog a sefydledig, a byddai darpariaeth addysg amgen addas yn parhau i fod ar gael yn lleol. Gan ystyried y cyfleoedd sydd ar gael yn yr ysgol dderbyn, argaeledd parhaus cyfleusterau cymunedol yn y pentref, y potensial i safle'r

ysgol ddarparu budd cymunedol yn y dyfodol, a'r mesurau lliniaru a gynigir, ystyrir bod yr effaith gyffredinol ar y gymuned leol yn debygol o fod yn gyfyngedig ac y gellir ei rheoli'n briodol. O ganlyniad, ni ystyrir bod yr effeithiau cymunedol yn ddigon sylweddol i orbwyso manteision addysgol a strategol y cynnig..

7. Yr effaith ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Mae'r canlynol yn ystyried yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg pe bai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion amgen.

Pe bai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai Ysgol Gynradd Ponthenri yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf neu'n well na'r hyn a ddarperir yn Ysgol Gynradd Pontiets, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:

Cafodd Ysgol Pontiets ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2017 ac fe'i nodwyd fel ysgol sydd angen gwelliant sylweddol. Cafodd ei thynnu o'r categori hwnnw yn 2019 ac ar hyn o bryd nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol wedi bodloni'r safonau gofynnol yn ystod yr arolygiad ac nid oes angen unrhyw waith monitro neu ymyrraeth ychwanegol gan Estyn.

Argymhellion Estyn o 2017:

- Gwella medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 2.
- Sicrhau cyfleodd cyson i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws yr ardaloedd dysgu a'r cwricwlwm.
- Sicrhau bod yr addysgu'n cynnig y lefel briodol o her, ac yn meithrin medrau dysgu annibynnol disgyblion er mwyn iddynt gymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu.
- Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â'r materion diogelu.
- Gwella strwythur arweinyddiaeth yr ysgol er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir ac atebolrwydd ar bob lefel.
- Cryfhau'r broses hunanarfarnu er mwyn adnabod yn glir flaenoriaethau ar gyfer gwelliant a sicrhau cynnydd yn eu herbyn.

Cafodd Ysgol Gynradd Ponthenri ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2024 ac ar hyn o bryd nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol wedi bodloni'r safonau gofynnol yn ystod yr arolygiad ac nid oes angen unrhyw waith monitro neu ymyrraeth ychwanegol gan Estyn.

Argymhellion Estyn o 2024:

- Sicrhau ystod lawn o weithgareddau rhifedd i'r disgyblion hynaf sy'n cynnig her briodol iddynt wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu.
- Sicrhau bod adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith.

- Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant.

7.1 Effaith debygol ar addysgu a dysgu

- Ni ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n negyddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Er bod adroddiad Estyn yn nodi bod llawer o ddisgyblion yn Ysgol Pontiets yn gwneud cynnydd addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol, a bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau, mae'n anochel fod maint yr ysgol a phrinder y disgyblion yn cyfyngu ar gyfleoedd dysgu cydweithredol ac yn gallu cyfyngu ar hyd a lled y profiadau addysgol sydd ar gael i ddysgwyr.

- Mae trefniant presennol y dosbarthiadau yn Ysgol Pontiets yn golygu bod yn rhaid addysgu'r disgyblion mewn dosbarthiadau oedran cymysg ar draws ystod oedran eang. I'r gwrthwyneb, byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Ponthenri yn elwa ar gael dysgu ochr yn ochr â nifer uwch o gyfoedion sydd o oedran a cham datblygu tebyg. Mae hyn yn debygol o gynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cydweithredol, trafodaeth, cymorth gan gyfoedion a gweithgareddau grŵp, gan gefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu, cymdeithasol a meddwl yn feirniadol ar yr un pryd.

- Byddai'r cynnig yn rhoi mynediad i'r disgyblion at gwricwlwm ehangach a mwy cynaliadwy. Mae strwythur staffio mwy Ysgol Ponthenri a'r ffaith ei bod mewn ffederasiwn sefydledig yn darparu mwy o gapasiti o ran y cwricwlwm, mynediad at ystod ehangach o arbenigedd a chyfleoedd cryfach ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ac arloesedd.

- Mae'r trefniadau cydweithredol sydd ar waith ers tro ar draws y ffederasiwn yn cefnogi addysgu a dysgu o safon drwy gyd-gynllunio'r cwricwlwm, dysgu proffesiynol a rhannu arferion effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ym mhrofiadau dysgu disgyblion ac yn cefnogi gwelliant parhaus mewn addysgu ar draws y ffederasiwn.

- Byddai'r disgyblion yn elwa ar gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cyfoethogi, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol, ymweliadau addysgol, perfformiadau, gweithgareddau chwaraeon a chyfleoedd arweinyddiaeth disgyblion. Gall profiadau o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at hyder, uchelgais a datblygiad sgiliau ehangach dysgwyr.

- Mae Estyn yn nodi bod yr athrawon yn Ysgol Ponthenri yn darparu profiadau dysgu sy'n ysgogi'r disgyblion yn effeithiol ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae adroddiad yr arolygiad hefyd yn tynnu sylw at lwyddiant yr ysgol wrth hyrwyddo annibyniaeth disgyblion a darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain. Mae'r cryfderau hyn yn awgrymu

bod yr ysgol mewn sefyllfa dda i gefnogi disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Pontiets ac i gynnal profiadau dysgu o safon.

- Byddai'r cynnig yn gosod disgyblion mewn ysgol sy'n gweithredu o dan y capasiti ac sy'n rhan o ffederasiwn lle mae systemau cydweithredol cryf a mwy o wydnwch trefniadaethol. Mae hyn yn darparu model mwy cynaliadwy ar gyfer cynnal a datblygu ymhellach addysgu a dysgu o ansawdd uchel dros y tymor hwy.

- Ar y cyfan, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. Disgwylir i'r cwricwlwm ehangach, y cynnydd mewn cyfleoedd i gydweithio â chyfoedion, yr ystod ehangach o brofiadau cyfoethogi, a'r arferion cydweithredol cryf sydd ar draws y ffederasiwn wella profiadau dysgu disgyblion a chefnogi cynnydd parhaus, cyrhaeddiad a datblygiad sgiliau ehangach.

7.2 Yr effaith debygol ar ofal, cymorth ac arweiniad

- Er y byddai'r cynnig yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion drosglwyddo o Ysgol Pontiets i Ysgol Ponthenri, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion a theuluoedd drwy gydol y broses. Byddai'r trefniadau hyn yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymweld â'r ysgol, cwrdd â staff a chyfoedion, cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio a derbyn cymorth ychwanegol lle bo angen i sicrhau proses bontio hwylus a llwyddiannus.

- Mae gan Ysgol Pontiets drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi llesiant disgyblion ac i roi darpariaeth ac ymyriadau priodol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddai cynllunio manwl o ran pontio yn sicrhau bod gwybodaeth am lesiant, cynnydd ac anghenion unigol yn cael ei rhannu'n effeithiol er mwyn galluogi parhad yn y cymorth a'r ddarpariaeth yn dilyn y trosglwyddo.

- Byddai'r cynnig yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fod yn rhan o gymuned ysgol fwy a meithrin cyfeillgarwch â grŵp ehangach o gyfoedion sydd o oedran a cham datblygu tebyg. Mae'r cynnydd mewn cyfleoedd i gydweithio, cyfranogi a pherthyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad cymdeithasol a llesiant disgyblion.

- Byddai disgyblion yn elwa ar gael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, chwaraeon, diwylliannol ac arweinyddiaeth. Gall cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gyfrannu'n gadarnhaol at hyder, gwydnwch, a llesiant y disgyblion, ynghyd â'u hymgysylltiad â bywyd ysgol.

- Mae Estyn yn nodi bod ffocws Ponthenri ar gefnogi llesiant disgyblion yn gryfder amlwg ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth drwyadl o'u hemosiynau a'u perthnasoedd. Mae adroddiad yr arolygiad hefyd yn nodi bod bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda, yn arddel agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu, ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi hyder bod gan yr ysgol yr amgylchedd cefnogol, yr arbenigedd a'r ethos cynhwysol sydd eu hangen i gefnogi disgyblion yn effeithiol drwy'r broses bontio a thu hwnt.

- Fel rhan o ffederasiwn caled, mae Ysgol Ponthenri yn elwa ar systemau cymorth cydweithredol ac ar fynediad at arbenigedd ehangach ymysg staff. Mae hyn yn rhoi gallu ychwanegol i adnabod a chefnogi disgyblion sy'n profi anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol, ac yn cryfhau gallu'r ysgol i weithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd, asiantaethau partner a gwasanaethau cymorth lle bo angen.

- Mae'r strwythur staffio ehangach, y systemau llesiant a'r trefniadau cydweithio sydd ar waith ar draws y ffederasiwn yn rhoi mwy o gapasiti i adnabod y dysgwyr sydd angen cymorth yn gynnar, ac i weithredu ymyriadau amserol ac effeithiol. Mae'r ffactorau hyn yn cryfhau gallu'r ysgol i ddiwallu anghenion llesiant pob dysgwr, yn enwedig y rhai sydd efallai yn agored i niwed neu sydd angen cymorth bugeiliol ychwanegol.

- Gan fod y strwythur staffio a'r capasiti trefniadaethol sydd ar gael yn Ysgol Ponthenri yn fwy, mae hynny hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth llesiant ac yn lleihau rhai o'r gwendidau sy'n gysylltiedig â darparu cymorth bugeiliol mewn ysgol fach iawn.

- Yn gyffredinol, er y gallai gymryd peth amser i rai disgyblion addasu yn dilyn y trosglwyddo, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith niweidiol sylweddol ar ofal, cymorth ac arweiniad. Trwy'r trefniadau pontio effeithiol, y diwylliant llesiant cryf a nodwyd gan Estyn, y capasiti cymorth cynyddol sydd ar gael yn y gymuned ysgol ffederal, a'r strwythurau cydweithio sydd ar waith ar draws y ffederasiwn, darperir sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn parhau i dderbyn cefnogaeth effeithiol drwy gydol y broses bontio a thu hwnt.

- Yn y tymor hwy, mae'r disgyblion yn debygol o elwa ar grwpiau cyfeillgarwch ehangach, rhagor o gyfleoedd i gyfranogi, a mynediad at amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymorth a llesiant.

7.3 Yr effaith debygol ar arwain a gwella

- Mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gapasiti arweinyddiaeth a gallu'r ysgol i sicrhau gwelliant parhaus. Mae Ysgol Pontiets wedi bod drwy gyfnod ansefydlog o ran ei harweinyddiaeth ac nid oes ganddi bennaeth parhaol ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn gweithredu o dan drefniadau arweinyddiaeth dros dro, drwy gefnogaeth ysgol gyfagos. Er bod y trefniadau hyn wedi sicrhau parhad o ran yr arweinyddiaeth ac wedi cefnogi gweithrediad effeithiol yr ysgol o ddydd i ddydd, mae'n anorfod eu bod yn gwneud yr arweinyddiaeth yn fwy bregus ac yn cyfyngu ar y capasiti i gynllunio'n strategol yn y tymor hwy, i ddatblygu'r cwricwlwm ac i wella'r ysgol.

- Ar hyn o bryd strwythur staffio bach iawn sydd yn Ysgol Pontiets, lle mae dau ddosbarth oedran cymysg, a lle mae'r pennaeth dros dro hefyd yn cyflawni cyfrifoldebau addysgu a rôl Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Er bod y trefniadau hyn yn galluogi'r ysgol i barhau i ddiwallu anghenion dysgwyr yn effeithiol, maent yn gofyn llawer o nifer fach o staff a gallant leihau'r amser sydd

ar gael ar gyfer gweithgareddau arweinyddiaeth fel hunanwerthuso, datblygu'r cwricwlwm, datblygu'r gweithlu a chynllunio gwella strategol.

- Byddai'r cynnig yn gosod disgyblion mewn ysgol sydd â strwythur arweinyddiaeth sefydlog a pharhaol, gan gryfhau'r arweinyddiaeth a chynyddu'r capasiti i ganolbwyntio ar wella'r ysgol, datblygu'r cwricwlwm a chyflawni blaenoriaethau cenedlaethol.

- Mae Ysgol Ponthenri yn rhan o ffederasiwn caled sydd wedi hen ennill ei blwyf gydag Ysgol Carwe ac Ysgol Gwynfryn. Mae'r ffederasiwn yn elwa ar gael pennaeth parhaol, trefniadau llywodraethu sefydledig a strwythur arweinyddiaeth datblygedig, gan ddarparu mwy o wydnwch trefniadaethol, sefydlogrwydd a chapasiti arweinyddiaeth.

- Mae'r cyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi'u rhannu'n effeithiol ar draws y ffederasiwn, gan alluogi rhannu arbenigedd ar draws tîm ehangach a sicrhau bod agweddau allweddol ar wella ysgolion yn cael eu harwain gan staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol. Mae'r model arweinyddiaeth wasgaredig hwn yn cryfhau atebolrwydd, yn cefnogi cynllunio olyniaeth, ac yn gwella gallu'r ffederasiwn i wella'n barhaus dros amser.

- Mae Estyn yn nodi bod gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgolion yn y ffederasiwn, sy'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau cyson i ddisgyblion mewn cymuned ofalgar a chefnogol. Mae'r pennaeth yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan dîm uwch-arweinwyr sy'n cynnwys pennaeth cynorthwyol ar safle pob ysgol, gan sicrhau bod capasiti arweinyddiaeth yn rhan annatod o'r ffederasiwn yn ei gyfanrwydd.

- Mae'r trefniadau cydweithredol sydd ar waith ers tro ar draws y ffederasiwn yn cefnogi hunanwerthuso, cynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn cryfhau gallu'r ffederasiwn i ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol a chefnogi gwelliannau parhaus mewn addysgu, dysgu a deilliannau disgyblion.

- Mae'r strwythur staffio ac arweinyddiaeth mwy o fewn y ffederasiwn yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer dysgu proffesiynol, hyfforddiant, mentora a datblygu'r arweinyddiaeth. Mae hyn yn helpu i gynyddu capasiti'r arweinyddiaeth ar bob lefel ac yn cryfhau gwydnwch trefniadaethol.

- Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon drwy gynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Ponthenri a manteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd, y capasiti arweinyddiaeth a'r systemau cymorth sydd eisoes ar waith ar draws y ffederasiwn.

- Ar y cyfan, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth a gwella ysgolion. Mae sefydlogrwydd y strwythur arweinyddiaeth parhaol, manteision arweinyddiaeth wasgaredig, capasiti cynyddol y ffederasiwn, a'r systemau cydweithredol sydd ar waith ar draws y tair ysgol yn sylfaen gadarn ar gyfer cynnal darpariaeth o ansawdd uchel a sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr yn y tymor hwy.

7.4 Effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Er y gall unrhyw achos o newid ysgol greu cyfnod o addasu i rai dysgwyr, byddai trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu nodi a'u bodloni drwy gydol y broses bontio. Byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu'n agos â rhieni a gofalwyr, cyfleoedd i ymweld i ymgyfarwyddo, cyfarfodydd pontio, a chynnwys asiantaethau perthnasol lle bo'n briodol.

- Ar hyn o bryd mae gan bedwar o ddysgwyr yn Ysgol Pontiets Gynllun Datblygu Unigol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r holl ddysgwyr sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol yn parhau i dderbyn darpariaeth yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Byddai cynllunio manwl yn digwydd o ran pontio ar y cyd â rhieni a gofalwyr, staff ysgol ac asiantaethau perthnasol, i sicrhau bod parhad yn y cymorth, bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol, a bod y ddarpariaeth yn cael ei throsglwyddo'n hwylus.

- Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y rhai sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol, neu'r rhai o gefndiroedd dan anfantais economaidd. Disgwylir i drefniadau ar gyfer nodi rhwystrau i ddysgu a llesiant, ynghyd â mynediad at ystod ehangach o wasanaethau cymorth, gefnogi mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu ac ymyriadau priodol i bob disgybl.

- Dywed Estyn fod Ysgol Ponthenri yn rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn gweithio'n effeithiol i nodi anghenion disgyblion yn gynnar a threfnu'r cymorth priodol. Mae cynlluniau dysgu unigol yn nodi anghenion disgyblion yn glir, gan alluogi athrawon i gynllunio darpariaeth bwrpasol, gwahaniaethu'n effeithiol a chefnogi dysgwyr i wneud cynnydd. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion bron yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

- Fel rhan o ffederasiwn caled, mae Ysgol Ponthenri yn elwa ar gael mynediad at rwydwaith ehangach o arbenigedd staff a systemau cymorth cydweithredol ar draws tair ysgol. Mae hyn yn cynyddu'r capasiti i nodi anghenion wrth iddynt ddod i'r amlwg, rhannu ymarfer effeithiol, cydlynu cymorth i ddysgwyr agored i niwed, a sicrhau ymyrraeth gynnar lle bo angen. Mae'r model ffederal hefyd yn cryfhau gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd, gwasanaethau'r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol.

- Mae'r strwythur staffio mwy a'r systemau cymorth sydd ar gael yn Ysgol Ponthenri yn golygu bod mwy o gapasiti i ddarparu cymorth bugeiliol, ymyriadau llesiant, a darpariaeth dysgu ychwanegol. Gall yr ystod ehangach hon o arbenigedd ac adnoddau gynnig mynediad i ddysgwyr agored i niwed at gymorth a all fod yn fwy heriol i'w gynnal mewn ysgol fach iawn.

- Mae'r cynnig hefyd yn debygol o roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr agored i niwed ryngweithio'n gymdeithasol, cael cymorth gan gyfoedion a chyfrannu at agweddau ehangach ar fywyd ysgol trwy fynediad at garfan fwy o ddisgyblion sydd o oedran a cham datblygu tebyg. Gall y cyfleoedd hyn gyfrannu'n gadarnhaol at hyder, llesiant a chynhwysiant y dysgwyr, ynghyd â'u synnwyr o berthyn.

- Ar y cyfan, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau pontio cynhwysfawr, parhad y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr â Chynllun Datblygu Unigol, y cymorth ADY effeithiol a nodwyd gan Estyn, a'r capasiti ychwanegol sydd ar gael drwy'r model ffederal yn sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael cefnogaeth briodol. Mae'r strwythur staffio mwy, yr ystod ehangach o arbenigedd, a'r cynnydd yn y cyfleoedd i gyfranogi a rhyngweithio'n gymdeithasol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gynhwysiant, llesiant a deilliannau'r dysgwyr yn y tymor hwy.

Yn dilyn CYBLD 2026, roedd 12 (57%) o ddisgyblion Ysgol Gynradd Pontiets yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Yn ogystal, yn ôl CYBLD 2026 roedd Anghenion Dysgu Ychwanegol gan 5 (23.8%) o'r disgyblion oedd ar y gofrestr.

Roedd 13 (21.6%) o ddisgyblion Ysgol Gynradd Ponthenri yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Yn ogystal, yn ôl CYBLD 2026 roedd Anghenion Dysgu Ychwanegol gan 2 (3.3%) o'r disgyblion oedd ar y gofrestr.

(Mae cyflwyno Prydau Ysgol Am Ddim i Bob Disgybl Ysgol (UPFSM) wedi lleihau'r angen canfyddedig i rai teuluoedd cymwys wneud cais am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n gysylltiedig â budd-daliadau (eFSM). Gan fod gan bob disgybl oedran cynradd bellach yr hawl i gael pryd ysgol am ddim beth bynnag yw incwm yr aelwyd, efallai na fydd rhai rhieni a gofalwyr yn cydnabod y manteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â chofrestru ar gyfer prydau ysgol am ddim, megis bod yn gymwys ar gyfer y Grant Hanfodion Ysgol a dyrannu cyllid sy'n gysylltiedig ag amddifadedd i ysgolion. O ganlyniad, efallai na fydd y ffigurau ar gyfer cofrestru am brydau ysgol am ddim yn adlewyrchu'n llawn nifer y disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol.)

7.5 Effaith y cynnig ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd sydd wedi'u hamddifadu'n economaidd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Mae data o'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Pontiets yn dangos bod 57% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Pontiets yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim (eFSM), sy'n dangos bod cyfran o ddysgwyr yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi ystyried dangosyddion amddifadedd ar sail ardal gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod dalgylch Pontiets yn profi lefelau isel i gymedrol o amddifadedd yn gyffredinol ac nad yw ymhlith y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r prif ardal amddifadedd cymharol yn ymwneud â mynediad at wasanaethau, gan

adlewyrchu natur wledig yr ardal a'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â chael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol.

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar gyrhaeddiad addysgol dysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Byddai trosglwyddo disgyblion i Ysgol Ponthenri yn darparu mynediad at amgylchedd addysgol mwy cynaliadwy, cyfleoedd cwricwlwm ehangach, dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran, gwell darpariaeth allgyrsiol a mwy o wydnwch sefydliadol. Mae gan y ffactorau hyn y potensial i gefnogi canlyniadau addysgol gwell a lles ac ymgysylltiad dysgwyr.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gall dysgwyr a theuluoedd sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn fwy agored i newidiadau mewn hygyrchedd a threfniadau teithio. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau posibl, darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys yn unol â pholisi'r Cyngor. Yn ogystal, bydd dangosyddion amddifadedd, gan gynnwys data cymhwysedd, presenoldeb a lles eFSM, yn llywio cynllunio pontio, a bydd cymorth wedi'i dargedu ar gael lle nodir bod dysgwyr unigol neu deuluoedd angen cymorth ychwanegol.

Ar ôl ystyried mesurau amddifadedd unigol ac ardal, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn arwain at effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig. Disgwylir i ddarparu cymorth trafnidiaeth, trefniadau pontio wedi'u targedu a mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd addysgol yn Ysgol Ponthenri liniaru anfanteision posibl a chefnogi canlyniadau addysgol cadarnhaol i bob dysgwr.

7.6 Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig i ystyried effeithiau posibl y cynnig ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nododd yr asesiad y byddai'r cynnig yn effeithio ar ddisgyblion, staff, rhieni a'r gymuned ysgol ehangach sy'n gysylltiedig ag Ysgol Pontiets ac ystyriodd yr effeithiau posibl ar unigolion â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anabledd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, a phriodas a phartneriaeth sifil.

Daeth yr asesiad i'r casgliad nad oes unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon nac effaith andwyol anghymesur wedi'i nodi mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchodedig. Er y byddai'r cynnig yn arwain at newid ysgol i ddisgyblion a gallai effeithio ar staff trwy newidiadau i drefniadau cyflogaeth, byddai mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt trwy gydol y broses bontio.

Rhoddwyd ystyriaeth arbennig i ddisgyblion ag anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae gan Ysgol Ponthenri bolisïau, gweithdrefnau a threfniadau cymorth arbenigol ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol ac ystyrir ei bod yn gallu diwallu anghenion y disgyblion sy'n trosglwyddo trwy ymyriadau priodol, addasiadau rhesymol a mynediad at wasanaethau arbenigol lle bo angen. Roedd yr asesiad yn cydnabod y gallai rhai dysgwyr elwa o fynediad at grŵp cyfoedion mwy, profiadau dysgu ehangach a rhwydweithiau cymorth ehangach.

Mae'r asesiad hefyd yn ystyried amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai teuluoedd ac effaith bosibl newidiadau i drefniadau teithio. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod dysgwyr cymwys yn parhau i dderbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi trafnidiaeth y Cyngor a bydd yn darparu cymorth priodol i ddisgyblion a theuluoedd yn ystod y cyfnod pontio.

Yn gyffredinol, daeth yr Asesiad Effaith Integredig i'r casgliad, gyda mesurau cymorth a lliniaru priodol ar waith, na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar unrhyw grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig ac mae'n gydnaws â dyletswyddau'r Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

7.7 Gallu pennaeth/corff llywodraethu yr ysgol i fodloni eu gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf 2021 ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr ym mhob rhan o'r continwwm addysg 3-16.

- Ni ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n negyddol ar allu'r ysgol i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol o dan y Cwricwlwm i Gymru. At ei gilydd, mae'r cynnig yn debygol o gryfhau dylunio, cyflwyno a gwerthuso'r cwricwlwm trwy gynnydd yn y capasiti staffio, trefniadau arweinyddiaeth gwell ac arferion cydweithredol sefydledig ar draws y ffederasiwn.

- Mae strwythur staffio Ysgol Pontiets ar hyn o bryd yn fach iawn, sef dau athro amser llawn yn dysgu dosbarthiadau oedran cymysg a gallu cymysg. Hefyd mae'r pennaeth cynorthwyol yn cyflawni cyfrifoldebau addysgu a rôl y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY). Er bod yr ysgol yn parhau i ddarparu profiadau dysgu priodol i ddisgyblion, gall nifer fach y staff gyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig, arbenigedd cwricwlwm, datblygu'r cwricwlwm ar y cyd, a'r angen parhaus i fireinio darpariaeth y cwricwlwm er mwyn cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.

- Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Ponthenri yn elwa ar strwythur staffio mwy ac yn rhan o ffederasiwn o ysgolion sydd wedi hen sefydlu. Mae hyn yn rhoi rhagor o gapasiti i gefnogi'r gwaith o gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r cwricwlwm, tra'n galluogi staff i gydweithio ar gynnydd, asesu, a mireinio profiadau dysgu yn barhaus.

- Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi pwyslais sylweddol ar gydweithio, cynnydd a gwelliant parhaus. Mae'r trefniadau sydd ar waith ers tro ar draws y ffederasiwn yn galluogi ymarferwyr i weithio gyda'i gilydd i ddylunio, adolygu a gwella'r cwricwlwm, gan fanteisio ar ystod ehangach o arbenigedd a phrofiad nag sy'n bosibl mewn ysgol fach iawn.

- Fel rhan o ffederasiwn, mae staff yn elwa ar gael cyfleoedd rheolaidd ar gyfer cynllunio ar y cyd, dysgu proffesiynol, deialog broffesiynol a rhannu ymarfer effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i hyrwyddo cysondeb o ran dylunio'r cwricwlwm, cynnydd dysgwyr a dulliau asesu ar draws yr ysgolion.

- Gan fod y tîm staff yn fwy, mae hynny hefyd yn darparu cyfleoedd gwell ar gyfer arweinyddiaeth cwricwlwm ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad, gan

gryfhau gallu'r ysgol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, gweithredu datblygiadau'r cwricwlwm yn effeithiol, a sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni'n gyson.

- Dywed Estyn fod staff Ysgol Ponthenri yn darparu cwricwlwm pwrpasol sy'n cwmpasu Meysydd Dysgu a Phrofiad yn briodol, a bod disgyblion yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith a'u themâu dosbarth. Mae arolygwyr hefyd yn nodi bod athrawon yn cyfoethogi'r dysgu yn effeithiol drwy ymweliadau addysgol, ymwelwyr a phrofiadau sy'n hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a hunaniaeth Cymru.

- Mae'r strwythur arweinyddiaeth ffederal yn darparu capasiti ychwanegol i fonitro gweithrediad y cwricwlwm, gwerthuso effaith, a chefnogi gwelliant parhaus. Mae'r systemau cydweithredol sydd ar waith ar draws y ffederasiwn yn cyfrannu at drefniadau sicrhau ansawdd cadarn ac yn cefnogi datblygiad parhaus addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

- Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon am ansawdd yr addysg yn Ysgol Ponthenri, ac nid yw'n disgwyl y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith andwyol ar ansawdd yr addysgu, y dysgu neu ddarpariaeth y cwricwlwm i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Pontiets ar hyn o bryd.

- Ar y cyfan, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar allu'r pennaeth a'r corff llywodraethu i gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan y Cwricwlwm i Gymru. Disgwylir y bydd y capasiti staffio mwy, yr arweinyddiaeth gryfach o'r cwricwlwm, y trefniadau ffedereiddio a'r cyfleoedd gwell ar gyfer cydweithio proffesiynol yn cryfhau gallu'r ysgol i ddylunio, cyflwyno a gwella'n barhaus gwricwlwm eang, cytbwys o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

8. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gan fod yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cynnig neu yr effeithir arnynt yn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac mae'r asesiad hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad C. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth penodol sy'n dod i law.

8.1 Sut mae'r cynnig yn ffurfio rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd

Mae Ysgol Pontiets ac Ysgol Ponthenri yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nid yw'r cynnig wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â thargedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol, er ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n nodi gweledigaeth deng mlynedd (2022-2032) ar gyfer cynyddu a gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr

Cymraeg erbyn 2050, sef Cymraeg 2050. Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r cynnig yn golygu trosglwyddo dysgwyr o un ysgol cyfrwng Cymraeg i ysgol gyfrwng Cymraeg arall, a fyddai'n diogelu cyfleoedd addysgol cyfrwng Cymraeg ac, os caiff ei reoli'n effeithiol, gallai gryfhau cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Drwy gyfuno disgyblion mewn ysgol cyfrwng Cymraeg fwy, mae'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y disgyblion a gwella gwydnwch.

8.2 Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau

Byddai'r cynnig yn cynnal argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Ysgol Pontiets ac Ysgol Ponthenri ill dwy yn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai hyn yn sicrhau bod mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gadw. Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg cychwynnol ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Bydd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Pontiets ar hyn o bryd yn parhau i gael y cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo i Ysgol Ponthenri, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnal parhad addysg cyfrwng Cymraeg, ac y gall dysgwyr barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol.

Bydd y cynnig yn cyfuno darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol sydd â mwy o gapasiti, staffio ac adnoddau. Mae hyn yn debygol o gryfhau ansawdd a chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg, gan roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn ystod ehangach o gyd-destunau, o fewn yr ystafell ddosbarth ac drwy weithgareddau allgyrsiol.

I grynhoi, er y byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Pontiets yn dod i ben, mae'r cynnig yn cynnal ac yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg o fewn yr ardal ehangach. Mae'n sicrhau mynediad parhaus, yn hyrwyddo dilyniant mewn dysgu Cymraeg, ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd a thwf hirdymor darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol ag amcanion y CSCA.

9. Cyllid

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith ariannol debygol y cynigion os cânt eu gweithredu.

9.1 Costau rheolaidd/refeniw y cynigion dros gyfnod o 3 blynedd o leiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd/refeniw angenrheidiol ar gael (gan gynnwys costau staffio, cynnal a chadw adeiladau a chludiant ychwanegol)

Y costau refeniw rheolaidd y dylid eu hystyried fel arfer dros gyfnod o dair blynedd o leiaf yw'r costau blynyddol parhaus sy'n parhau ar ôl gweithredu'r cynnig, yn hytrach na chostau ymgynghori, cyfreithiol neu gyfalaf untro.

Ar gyfer cynnig i gau ysgol gynradd a throsglwyddo'r disgyblion i ysgol dderbyn gyfagos, byddai'r prif gostau refeniw rheolaidd fel arfer yn cynnwys:

1. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Fel arfer hon fyddai'r gost barhaus fwyaf sylweddol.

- Gwasanaethau cludiant dyddiol dan gontract.
- Costau hebrwng lle bo angen.
- Cludiant ychwanegol ar gyfer dysgwyr ADY os ydynt yn gymwys.
- Rhagdybiaethau o ran tanwydd, cerbydau newydd a chwyddiant contractau.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn seiliedig ar brisiau cyfredol a lleoliad presennol y disgyblion ac wrth dybio y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri.

2. Costau Staffio Ychwanegol yn yr Ysgol sy'n Derbyn

Pan fo nifer y disgyblion yn cynyddu'n ddigonol fel bod angen:

- Staff addysgu ychwanegol.
- Cynorthwywyr addysgu.

Byddai'r costau hyn yn cael eu cynnwys dim ond os bydd twf disgyblion yn sbarduno gofynion staffio ychwanegol yn uniongyrchol. Fodd bynnag, byddai'r costau hyn yn cael eu cydbwyso gan gyllid ychwanegol fesul disgybl y mae'r ysgol yn ei dderbyn ar gyfer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

3. Cymorth ADY ychwanegol

Pan fo angen y canlynol ar ddisgyblion sy'n trosglwyddo:

- Cymorth dysgu arbenigol.
- Cymorth ymddygiad.
- Cludiant arbenigol neu therapïau a ariennir gan yr awdurdod.

Dim ond ar ôl cael gwybod pa ysgol(ion) y mae disgyblion unigol yn debygol o drosglwyddo iddi/iddynt y gellid cyfrifo'r costau hyn. Gallai'r rhain arwain at arbedion

hefyd, os oes cymorth ychwanegol eisoes ar gael yn yr ysgol sy'n derbyn ac nad oes angen ei gynyddu.

4. Costau Cynnal Safle Cynyddol yn yr Ysgol sy'n Derbyn

Mae'n anodd meintioli'r rhain fel costau ychwanegol ac maent yn tueddu i fod yn weddol fach o gymharu â'r arbedion sy'n deillio o gau ysgol oherwydd bod yr ysgol sy'n derbyn eisoes yn wynebu'r costau sefydlog hyn, megis:

- Cyfleustodau (trydan, nwy, dŵr).
- Costau glanhau.
- Costau arlwyo.
- Trwyddedau a chymorth TGCh.

5. Parhau i gynnal a chadw adeiladau ar y safle sydd wedi cau (os caiff ei gadw)

Os nad yw'r hen adeilad ysgol yn cael ei waredu ar unwaith, gallai'r costau refeniw parhaus gynnwys:

- Diogelwch.
- Yswiriant.
- Gwaith Cynnal a Chadw Sylfaenol.
- Cyfleustodau sydd eu hangen i gynnal a chadw'r adeilad.
- Cynnal a chadw tiroedd.

Mae'r costau hyn yn parhau nes bod yr adeilad yn cael ei waredu, ei drosglwyddo i'r gymuned, neu nes bod defnydd amgen yn cael ei wneud ohono.

6. Cymorth o ran Asedau Cymunedol neu Gyfleusterau a Rennir

Os bydd y Cyngor yn cadw rhan o'r safle at ddefnydd cymunedol:

- Rheoli'r adeilad.
- Cyfraniadau cyfleustodau.
- Cytundebau lefel gwasanaeth.
- Trefniadau cymorth prydlesu cymunedol.

7. Cynnydd o ran chwyddiant

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn disgwyl i gynigion ystyried costau yn y dyfodol yn hytrach na gwerthoedd y flwyddyn bresennol yn unig. Felly, dylai rhagolygon fel arfer ganiatáu ar gyfer:

- Chwyddiant cludiant.
- Dyfarniadau cyflog.
- Chwyddiant ynni.
- Cynnydd o ran contractau.

Ar gyfer y cynnig hwn, gellir amcangyfrif costau rheolaidd a refeniw parhaus fel a ganlyn:

Cost Refeniw Rheolaidd	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Cyfanswm
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	£57,000	£57,000	£57,000	£57,000
Staff Ychwanegol*- Amcangyfrifir bod dau athro ychwanegol @ £67567 yr un	£135,134	£139,188	£143,363	£417,685
Costau cynnal safle sydd wedi cau	£4,000	£4,120	£4,244	£12,364
Cyfanswm costau rheolaidd	£196,134	£200,308	£104,607	£487,049

*Yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol unigol a symudiadau posibl disgyblion / dewis rhieni

Yn achos cau ysgol gynradd fach, cludiant yw'r unig gost reolaidd newydd sylweddol yn aml, ac mae'r cynnig cyffredinol yn dal i greu arbediad refeniw blynyddol net.

9.2 A yw'r cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac yn cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar ystad yr ysgolion?

Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri yn rhan o raglen buddsoddi strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr 21ain ganrif. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'n arwain at ostyngiad yn

ystad yr ysgolion ac yn gwella ei rheolaeth strategol. Mae adolygu maint a hyfywedd ystad yr ysgolion wedi'i nodi fel blaenoriaeth gorfforaethol i'r Awdurdod Lleol fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024.

9.3 Costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig ar hyn o bryd.

9.4 Maint unrhyw arbedion net arfaethedig pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion) ac a gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion yr awdurdod lleol?

Dylid nodi, pan fydd ysgol yn cael ei chau, ei bod yn annhebygol iawn na fydd costau cludiant ychwanegol. Mae hyn oherwydd, drwy ddiffiniad, bod cau ysgol yn debygol o olygu y bydd plant yn byw ymhellach i ffwrdd o'u hysgol ddalgylch ac felly'n gymwys i gael cludiant o dan Bolisi'r Cyngor ynghylch Cludiant i'r Ysgol. Hefyd, dylid nodi bod cyllideb y Cyngor ar gyfer cludiant ysgol ar wahân ac yn wahanol i'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion.

Bydd arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol fel arfer yn cael eu hailddosbarthu yn ôl i'r gyllideb ysgolion gyffredinol ond gallant hefyd fod yn arbedion uniongyrchol i gyllideb gyffredinol y Cyngor.

Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig i raddau helaeth ar niferoedd disgyblion. Mewn ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn isel, nid yw'r **cyllid fesul disgybl** yn ddigonol fel arfer i'r ysgol barhau i fod yn hyfyw o safbwynt gweithredol. Lle mae nifer y disgyblion yn isel, mae costau sefydlog, a chostau (megis staffio) nad ydynt yn cynyddu neu'n lleihau yn unol â nifer y disgyblion, yn ffurfio cyfran lawer uwch o gostau cynnal yr ysgol. Mae'r fformiwla gyllido felly yn cynnwys taliadau atodol megis taliadau ysgol fach a thaliadau atodol lleoedd gwag. Mae'r fformiwla felly yn cydnabod yr hyn sydd ei angen ar ysgol fach i weithredu gyda'r lleiafswm staffio sy'n briodol ac i dalu costau gweithredol. Mae'r taliadau atodol yn golygu bod y gost gyfartalog fesul disgybl wrth redeg ysgol lai yn fwy o gymharu ag ysgolion mwy.

Mae'r arbedion refeniw sy'n deillio o gau'r ysgol yn ymwneud â'r taliadau atodol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb yr ysgol yn unig. Mae hyn oherwydd bod y cyllid fesul disgybl yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol newydd. Mae hyn yn helpu'r ysgol sy'n derbyn i ddod yn fwy sefydlog a chynaliadwy yn ariannol.

Fodd bynnag, mae'r arbedion refeniw fel arfer yn cael eu dychwelyd i gyllideb gyffredinol yr ysgolion a'u hailddosbarthu ar draws y rhwydwaith ar ffurf cyllid i bob ysgol. Mae cyllideb ddirprwyedig yr ysgolion yn cynnwys cyllid fesul disgybl a thaliadau atodol i gefnogi lle na fyddai cyllid fesul disgybl yn ddigonol i ddiwallu anghenion sylfaenol yr ysgol. Felly mae taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl

sydd ar gael i bob ysgol arall, sy'n golygu bod y cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer ysgolion llai yn effeithio ar holl ysgolion yr Awdurdod.

Yn seiliedig ar y dyraniadau cyllid gwreiddiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, mae'r arbedion refeniw blwyddyn lawn yn sgil cau Ysgol Pontiets fel a ganlyn:

Tâl atodol	**Swm**
Tâl Atodol Ysgol Fach	£45,000
Tâl Atodol Lleoedd Gwag	£20,000
Tâl Atodol Ffederasiwn	Ddim yn berthnasol
Ardrethi Annomestig	£1,807
Cyfanswm	£66,807

Bydd y cyllid ar sail niferoedd disgyblion yn cael ei drosglwyddo gyda disgyblion i'w hysgol dderbyn.

Os nad yw ysgol yn cau ar 31 Mawrth, bydd dyraniad y flwyddyn gyntaf ar sail pro rata.

Mae enghraifft yn seiliedig ar gyllid blwyddyn lawn Ysgol Pontiets yn seiliedig ar niferoedd disgyblion ar gyfer blwyddyn ariannol 26/27 fel a ganlyn:

Cyllido	
Cyllid fesul disgybl ar gyfer 21 disgybl	£103,965
Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (Amddifadedd, Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Datblygu Unigol)	£18,584
Cyfanswm	£122,549

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf yn cael ei darparu pan fydd ar gael.

Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod modd talu unrhyw gostau refeniw ychwanegol a ddaw i ran yr ysgol sy'n derbyn, megis ar gyfer staff ychwanegol, a allai fod yn gysylltiedig â niferoedd disgyblion. Mae hefyd yn cefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd cyllideb yr ysgol sy'n derbyn os na fydd costau ychwanegol.

Os bydd Ysgol Pontiets yn cau, bydd y balans, boed yn warged neu'n ddiffyg, yn trosglwyddo'n ôl i'r Adran Addysg.

Mae arbedion eraill yn deillio o gau'r ysgol ar wahân i gyllideb yr ysgolion, ac maent yn cynnwys arbedion corfforaethol yn sgil gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog i ysgolion o achos ôl troed ysgolion llai. Er bod rhai o'r rhain, megis Cymorth Adnoddau Dynol, Addysg a Gwasanaethau Cymorth ADY, Gwasanaeth Cerdd, Glanhau a Chynnal a Chadw Tiroedd yn anodd eu meintioli, gellir cyfrifo eraill.

Roedd Arolwg Cyflwr Adeiladau 2023 ar gyfer Ysgol Gynradd Pontiets yn rhagweld gwariant cynnal a chadw wedi'i gyfalafu o £202,808 dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn arwain at arbediad i'r Cyngor pe bai'r ysgol yn cau.

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast i ddisgyblion £6,060 a gwasanaeth cinio £30,004 am gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £36,064. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £4,923 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly i'r Cyngor o £31,141. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £4,923 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol o ran darparu'r prydau bwyd yn yr ysgol hynny, felly bydd cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion.

9.5 A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

Balans diwedd blwyddyn	
2021/22	Gwarged o £101,364
2022/23	Gwarged o £121,403
2023/24	Gwarged o £95,382
2024/25	Gwarged o £39,859
2025/26	Gwarged o £5,330

2026/27

Swm cyllid yr ysgol	£189,356
Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr **2026**)	21
Cyllid fesul disgybl	£9,017
Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl	£5,969
Gwarged/diffyg yn y gyllideb ym Mawrth 2027 fel y rhagwelwyd ym Mehefin 2026	Diffyg o £80,469

Mae'r wybodaeth uchod yn dangos, er bod yr ysgol mewn gwarged o ran ei chyllideb ers 2020/2021, fod y gwarged wedi bod yn gostwng yn sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn, o £121,403 ddiwedd mis Mawrth 2023 i £5,330 ddiwedd mis Mawrth 2026. Mae'r amcanestyniadau presennol yn rhagweld diffyg o £80,469 ar diwedd 2026/27. Byddai hyn yn awgrymu bod y sefyllfa'n anghynaladwy, ac o ystyried nifer presennol y disgyblion a'r nifer a ragwelir, mae'r ysgol yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i ddychwelyd i gyllideb warged o fewn amserlen resymol.

Roedd gan Ysgol Gynradd Ponthenri gyllideb warged o £68,427 ar ddiwedd 2025/26, a rhagwelir bydd ganddi warged o £20,322 ar ddiwedd blwyddyn 2026/27.

Byddai hyn yn cynyddu gyda chyllid ychwanegol ar sail nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

Dylid cydnabod bod taliadau atodol yn lleihau'r cyllid fesul disgybl sy'n cael effaith anfanteisiol ar bob ysgol fwy, ac felly yn effeithio ar fwy o ddisgyblion. Mae taliadau atodol uwch i ysgolion bach yn eu galluogi i bennu cyllideb gytbwys, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu balansau. Mae cyfaddawd amlwg rhwng balans yr ysgol h.y. gwarged/diffyg a lefel y tâl atodol a roddir.

9.6 A fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu'n cyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

Fel rheol, o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac yn dilyn proses statudol ofynnol gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys yr holl asesiadau effaith priodol: cymuned, cludiant, y Gymraeg ac ati), bydd safleoedd ysgolion y nodwyd nad oes eu hangen mwyach at ddibenion addysg yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored, oni bai bod angen yr adeilad / safle diangen a'i fod yn cael ei gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned.

Os gwneir y penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Pontiets, gwneir asesiad i nodi unrhyw angen corfforaethol posibl am y safle. Os nodir angen o'r fath yna bydd yr ysgol yn cael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol drwy broses feddiannu. Pan nad yw'n ofynnol cadw'r safle yn gorfforaethol, mewn rhai amgylchiadau efallai y byddai'n briodol ystyried defnydd cymunedol parhaus i gynnwys grwpiau gwirfoddol, elusennol a mentrau cymdeithasol.

Byddai defnydd o'r fath yn cael ei gymeradwyo os oes angen clir am y defnydd arfaethedig yn yr ardal a lle bo hynny'n briodol dylid paratoi cynllun busnes i ddangos hyfywedd y defnydd amgen a fyddai'n cefnogi adferiad economaidd yr ardal.

Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn sgil gwerthu safle diangen fel arfer yn cael eu clustnodi i'w defnyddio yn y dyfodol yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn y sir.

10. Tir ac Adeiladau

10.1 Manylion am unrhyw waith trosglwyddo neu waredu tir neu adeiladau a allai fod ei angen o ganlyniad i'r cynnig

Mae Ysgol Gynradd Pontiets ac Ysgol Gynradd Ponthenri yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni fyddai angen Ysgol Gynradd Pontiets mwyach. Fel rheol, bydd ysgolion y nodwyd nad ydynt bellach yn ofynnol at ddibenion addysgol yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored oni bai bod angen yr adeilad/safle a'i fod yn cael ei gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned os yw'n briodol.

10.2 A yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynnig effeithio arnynt?

Mae Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol wedi adolygu dogfennau'r Gofrestrfa Tir a'r gweithredoedd swyddogol ac, o'r dogfennau sydd wedi'u hadolygu ar hyn o bryd, nid ydynt yn credu y bydd y cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets yn effeithio ar unrhyw ymddiriedolaethau neu fuddiannau elusennol.

10.3. Ansawdd yr adeiladau yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni

Mae ansawdd yr adeilad a'r cyfleusterau yn Ysgol Gynradd Ponthenri o'r un safon â'r rhai yn Ysgol Gynradd Pontiets o ran addasrwydd yr adeilad a'r cyfleusterau sydd ar gael. Dangosir y manylion yn y tabl canlynol.

	Ysgol Gynradd Pontiets	**Ysgol Gynradd Ponthenri**
Cyflwr yr Adeilad	Gradd B – Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig	Gradd B – Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig
Addasrwydd yr Adeilad	Gradd B – Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd	Gradd B – Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd

10.4 Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu lle i'r plant sy'n cael eu trosglwyddo yn y ddarpariaeth amgen


Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'u Cyrff Llywodraethu i sicrhau eu bod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo.

11. Teithio a Thrafnidiaeth

Yn ôl data CYBLD 2026 mae 21 o ddisgyblion ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Pontiets. Mae gwybodaeth gan yr ysgol yn nodi bod tua 44% o'r dysgwyr yn cerdded i'r ysgol a tua 56% yn teithio mewn car.

Byddai'r cynnig yn arwain at gau Ysgol Gynradd Pontiets ar 31 Rhagfyr 2027, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri o 1 Ionawr 2028. Mae Ysgol Gynradd Ponthenri wedi'i lleoli tua 0.9 milltir o Ysgol Gynradd Pontiets, gydag amser taith amcangyfrifedig o oddeutu dwy funud yn y car. Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 ac wedi'u lleoli yn yr un ardal i bob pwrpas.

Mae'r cynllun canlynol yn dangos lleoliad y ddwy ysgol.



Newidiadau i Drefniadau Teithio Dysgwyr a Hygyrchedd y Ddarpariaeth

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'n rhaid i rai disgyblion newid eu trefniadau teithio presennol. Er y byddai llawer o ddysgwyr yn parhau i gael mynediad at addysg yn gymharol agos i gartref, efallai y bydd yn rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r disgyblion hynny sy'n cerdded i Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd, ac a allai fod angen mynychu Ysgol Gynradd Ponthenri neu ysgol arall a ddewiswyd trwy ddewis rhieni.

Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y bydd hygyrchedd i'r ddarpariaeth addysgol yn cael ei chynnal. Byddai lleoedd cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn lleol drwy Ysgol Gynradd Ponthenri ac ysgolion cyfrwng Cymraeg Categori 3 eraill sydd gerllaw. Mae'r ysgol sy'n derbyn yn agos yn ddaearyddol i Bontiets, a byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth addysgol addas o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartrefi.

Yn gyffredinol, er y bydd patrymau teithio yn newid yn achos rhai dysgwyr, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol sylweddol ar fynediad at addysg.

Yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol (dwy filltir ar hyn o bryd) o'u hysgol gynradd ddalgylch ddynodedig. O ganlyniad, byddai cludiant am ddim ar gael i unrhyw ddysgwyr cymwys sy'n trosglwyddo i'w hysgol ddalgylch newydd ac sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim. Byddai disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os yw hyn wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Byddai rhieni disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn gyfrifol am drefnu trafnidiaeth i'r ysgol ac o'r ysgol.

11.1 Llwybrau Cerdded, Olwyno a Beicio

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried argaeledd llwybrau teithio llesol rhwng Pontiets a Phonthenri.

Mae Ysgol Gynradd Ponthenri tua 0.9 milltir o Ysgol Gynradd Pontiets ar hyd y B4317 cyn troi i'r chwith i Heol y Pentre. Mae llwybr cerdded di-dor sy'n ddiogel ac sy'n cael ei gynnal a'i gadw rhwng y ddwy ysgol sy'n addas i blant ysgol. Fodd bynnag, er mwyn bod mor ddiogel ag sy'n bosibl a defnyddio'r llwybr cerdded arfaethedig cymaint ag y bo modd, argymhellir asesiad pellach o'r gyffordd lle mae'r B4317 yn cwrdd â'r B4309. Efallai y bydd angen mesurau peirianneg ychwanegol i leihau cyflymder cerbydau a gwella blaenoriaeth cerddwyr, yn enwedig i ddisgyblion sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno. Byddai mynd i'r afael â'r materion hyn yn gwneud y llwybr yn fwy addas fel cyswllt allweddol rhwng y ddwy gymuned ac yn cefnogi amcanion teithio llesol.

O ganlyniad, byddai cyfleoedd i gerdded, olwyno a beicio yn parhau i fod ar gael i lawer o ddysgwyr.

Gallai disgyblion hefyd ddefnyddio'r llwybr cyhoeddus sy'n dilyn yr hen reilffordd. Fodd bynnag, ni fyddai'r llwybr hwn wedi'i oleuo ac efallai na fyddai'r arwyneb yn wastad. Ni fyddai ychwaith yn gwbl hygyrch yn ystod tywydd gwlyb.

Mae cerdded yn ddymunol a byddai'n cynnig manteision iechyd i ddisgyblion sy'n cerdded i'r naill ysgol neu'r llall yn rheolaidd.

I rai disgyblion sy'n byw ym mhentref Pontiets, efallai y bydd y cynnig yn parhau i gefnogi teithio llesol gan fod y pellter i'r ysgol dderbyn arfaethedig dal yn gymharol fyr. Fodd bynnag, gallai rhai teuluoedd ystyried y llwybr yn llai cyfleus na'u trefniadau presennol, ac felly mae'n bosib byddant yn dewis teithio mewn cerbyd.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i adolygu diogelwch ac addasrwydd llwybrau cerdded a beicio fel rhan o'r broses weithredu. Bydd unrhyw asesiadau o lwybrau yn ystyried ffactorau fel croesfannau, traffig, palmentydd, goleuadau a hygyrchedd. Lle bo angen, byddai gwelliannau priodol yn cael sylw mewn ymgynghoriad ag adrannau ac asiantaethau perthnasol.

11.2 Yr Effaith ar Deithiau ac Amseroedd Teithio

Byddai'r cynnig yn cynyddu pellteroedd teithio rhai dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Gynradd Pontiets. Fodd bynnag, disgwylir i'r cynnydd fod yn gymharol fach gan fod Ysgol Gynradd Ponthenri mor agos. Amcangyfrifir mai tua dwy funud yw'r amser teithio mewn cerbyd rhwng y ddwy ysgol.

Er y gallai teithiau rhai dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd fod yn hirach, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y newidiadau hyn yn ormodol. Mae'r ysgol dderbyn arfaethedig dal o fewn pellter teithio rhesymol ac mae'n hygyrch trwy'r rhwydwaith priffyrdd lleol.

Gallai'r gofynion teithio ar rieni a gofalwyr hefyd fod ychydig yn fwy wrth fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd yn yr ysgol, a gweithgareddau allgyrsiol. Fodd bynnag, o ystyried y pellter byr rhwng yr ysgolion, bernir y bydd yr effeithiau hyn yn gymesur ac yn hylaw.

Yn gyffredinol, nid yw'r Awdurdod Lleol yn rhagweld y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar bresenoldeb, prydlondeb, llesiant neu allu dysgwyr i gael mynediad at addysg.

11.3 Newidiadau mewn Trefniadau Teithio ar gyfer Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yn ôl data CYBLD 2026, ar hyn o bryd mae Anghenion Dysgu Ychwanegol gan 2 o'r disgyblion (10.5%) sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Pontiets. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried effaith bosibl y trefniadau teithio ar yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheiny ag ADY), fel rhan o'r cynnig hwn.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai amgylchiadau dysgwyr unigol yn cael eu hasesu i sicrhau bod trefniadau cludiant priodol ar gael. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Pan fo gofynion cludiant wedi'u nodi yng Nghynllun Datblygu Unigol y dysgwr, byddai'r gofynion hyn yn parhau i gael eu hystyried fel rhan o'r broses bontio. Byddai unrhyw gludiant arbenigol angenrheidiol neu gymorth teithio yn cael ei ddarparu i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at addysg yn ddiogel a heb fod dan anfantais.

O ystyried y pellter byr rhwng Pontiets a Phonthenri, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r amseroedd teithio i ddysgwyr ag ADY yn ormodol. Byddai cymorth priodol yn cael ei ddarparu lle bo'r angen i hwyluso pontio.

11.4 Ystyriaethau o ran Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys yr angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasoedd da. Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu ar y sail bod yn rhaid i bob dysgwr barhau i gael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysgol.

Mae gan Ysgol Gynradd Ponthenri Gynllun Hygyrchedd a byddai addasiadau rhesymol yn parhau i gael eu gwneud lle bo angen i gefnogi dysgwyr anabl a dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Pe bai angen addasiadau hygyrchedd unigol, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod trefniadau addas ar waith.

Ni ddisgwylir i'r cynnig leihau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, gan y byddai mynediad gan y dysgwyr o hyd i ddarpariaeth o fewn yr un categori iaith. Hefyd, byddai trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr cymwys yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw ddisgybl dan anfantais oherwydd anallu i gael mynediad i'r ysgol.

Er y gallai rhai disgyblion weld newidiadau i arferion a phatrymau teithio, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn cynnal mynediad priodol at ddarpariaeth addysgol i bob grŵp o ddysgwyr.

11.5 Costau Cludiant a Goblygiadau Teithio Ehangach

Disgwylir y bydd gweithredu'r cynnig yn arwain at gynnydd yng nghostau cludiant o'r cartref i'r ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddysgwyr yn derbyn cludiant ysgol i Ysgol Pontiets. Mae'r amcangyfrifon presennol yn dangos y byddai cost darparu cludiant i ddysgwyr cymwys o ddalgylch presennol Pontiets i Ysgolion Ponthenri a Gwynfryn tua £57,000 y flwyddyn, er y bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar ddewis rhieni, nifer terfynol y disgyblion a'r trefniadau caffael cludiant. Gallai costau cludiant ychwanegol godi lle mae dysgwyr sy'n mynychu Ysgol Pontiets ar hyn o bryd o'r tu allan i'r dalgylch yn trosglwyddo i ysgolion y byddent yn gymwys i gael cludiant iddynt.

Yn ogystal, bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Ponthenri (neu frodyr a chwiorydd y gwyddys eu bod wedi gwneud cais am le yn Ysgol Pontiets erbyn dyddiad cau'r ysgol) nad ydynt yn byw o fewn dalgylch newydd Ponthenri yn derbyn cludiant i Ysgol Ponthenri o un man casglu ger Ysgol Pontiets, os nad oes llwybr cerdded diogel ar gael. Byddai'r trefniant hwn yn cael ei wneud y tu allan i'r Polisi Cludiant Ysgol er mwyn hwyluso'r broses bontio.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y posibilrwydd y bydd rhai dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd yn dibynnu mwy ar gludiant mewn cerbydau. Gan y bydd y defnydd o gerbydau'n fwy a'r cyfleoedd teithio llesol yn llai, mae goblygiadau posibl i'r amgylchedd. Fodd bynnag, disgwylir y bydd yr effeithiau hyn yn llai gan fod yr ysgol dderbyn arfaethedig mor agos.

Lle bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth a rennir. Mae'n bosibl y gellid trefnu mannau casglu penodol hefyd i gefnogi teithio llesol i ddysgwyr cymwys.

Gallai'r cynnig hefyd arwain at newidiadau i drefniadau teithio ar gyfer staff, rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr eraill. Gallai fod yn ofynnol i staff deithio i weithleoedd gwahanol yn dibynnu ar ganlyniadau cyflogaeth yn y dyfodol, tra efallai y bydd angen i rieni a gofalwyr deithio i ysgol arall ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau ysgol a gweithgareddau eraill cysylltiedig â'r ysgol.

Er y byddai'r cynnig yn creu rhai gofynion ychwanegol o ran cludiant, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn fod yr effeithiau hyn yn gymesur pan fyddant yn cael eu cydbwyso â'r manteision addysgol, trefniadaethol ac ariannol sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

12. Trefniadau Derbyn

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu'r broses dderbyn i Ysgol Gynradd Ponthenri neu unrhyw ysgol arall a

gynhelir gan Sir Gaerfyrddin yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Yr Adran Addysg a Hamdden,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n ofynnol i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gyflwyno cais am le ysgol yn Ysgol Gynradd Ponthenri, neu ysgol arall o'u dewis yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â threfniadau derbyn ysgolion presennol y Cyngor. Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn dileu'r gofyniad i wneud cais drwy'r broses dderbyn arferol.

12.1 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd


Yn 11 oed, mae plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhaid cyflwyno cais ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffefrir, gan nad oes trosglwyddiad awtomatig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ystod tymor yr hydref o flwyddyn olaf yr ysgol gynradd, bydd teuluoedd yn derbyn hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bob ysgol uwchradd yn y sir a manylion ar sut i wneud cais.

Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw ysgol uwchradd yn y sir. Mae'r cais yn seiliedig ar gartref y plentyn ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.

12.2 Y Dalgylch


Y Dalgylch Presennol

Mae'r cynllun isod yn dangos dalgylch presennol Ysgol Pontiets.




Y Dalgylch (yn dilyn newidiadau 2027)

Mae'r cynllun isod yn dangos sut y bydd y dalgylch yn cael ei ddiwygio ym mis Medi 2027 yn seiliedig ar adolygiad diweddar dalgylch eang yr Awdurdod Lleol



Y Dalgylch Arfaethedig
Os cymeradwyir y cynnig, bydd dalgylch Ysgol Pontiets yn cael ei ailddynodi rhwng dalgylchoedd Ysgol Ponthenri ac Ysgol Gwynfryn fel y dangosir isod.



12.3 Trefniadau Pontio

Os gweithredir y cynnig, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Pontiets ac Ysgol Gynradd Ponthenri i gefnogi cyfnod pontio hwylus sydd wedi'i drefnu'n dda i'r holl ddisgyblion yr effeithir arnynt. Byddai rhaglen bontio gynhwysfawr yn cael ei sefydlu, gan gynnwys cyfleoedd i'r disgyblion ymweld â'u hysgol newydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyfarwyddo, a chwrdd â staff a chyfoedion cyn i'r trosglwyddo ddigwydd. Byddai cyfleoedd i fynychu sesiynau gwybodaeth a digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnig i rieni a gofalwyr, er mwyn trafod y trefniadau a chael eglurhad ar unrhyw agwedd ar y broses bontio.

Byddai ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr eraill sy'n agored i niwed, drwy ddatblygu trefniadau pontio wedi'u personoli lle bo'n briodol er mwyn sicrhau parhad y cymorth. Byddai cymorth llesiant a bugeiliol ar gael drwy gydol y cyfnod pontio i helpu dysgwyr i setlo'n hyderus i'w hamgylchedd ysgol newydd.

Byddai'r ysgolion yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod gwybodaeth am addysg, llesiant a chymorth yn cael ei throsglwyddo'n amserol, gan alluogi parhad mewn dysgu, cynllunio effeithiol ar gyfer anghenion unigol a chymorth parhaus o'r pwynt derbyn ymlaen.

13. Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).

Â phwy yr ymgynghorir?

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026)):

- rhieni (a lle bo'n bosibl darpar rieni), gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion sy'n destun y cynigion ar hyn o bryd, ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn fod y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid dysgwyr sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno;
- aelodau staff ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- yr awdurdod cynnal, neu'r awdurdod y bwriedir iddo gynnal, ar gyfer yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni (gan gynnwys y timau trafnidiaeth a phriffyrdd perthnasol);
- unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdodau lleol yn Lloegr) y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arno, gan gynnwys, yn achos Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod dysgwyr ag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arnynt;
- unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigydd o'r farn y bydd y cynigion yn debygol o effeithio arni;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;
- Estyn;

- undebau’r athrawon ac undebau staff sy’n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;
- y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;
- unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy’n destun y cynigion;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo’r rhain yn bodoli;
- gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae'n debygol yr effeithir arnynt a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol y mae'r cynigydd o'r farn bod ganddynt fuddiant;
- yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol sy'n destun y cynigion;
- 'Medr' yn achos cynigion sy’n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion; a
- Comisiynydd y Gymraeg a'r Mentrau Iaith yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg.

Ymgynghori â Disgyblion

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Swyddog Awdurdod Lleol neu drwy arolwg ar-lein pwrpasol.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

<u>Cam 1. Cyfnod Ymgynghori</u>

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 10 Tachwedd 2026 ac yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2026.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig neu ddarparu awgrymiadau eraill. Gallwch hefyd:

- Gwneud sylwadau ynglŷn â'r opsiynau eraill yn lle cau'r ysgol sydd wedi'u nodi yn ogystal â'r prif gynnig, ac
- Awgrymu dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros ei chau (h.y. yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu).

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 22 Rhagfyr 2026 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:Arolwg Snap

- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad A) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP neu anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy un dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen ymateb yn Atodiad A.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol

Os bydd Cabinet y Cyngor Sir yn penderfynu parhau â'r cynnig, rhaid cyhoeddi "Hysbysiad Statudol".

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad hefyd ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy anfon e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

Cam 3. Penderfyniad

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

Amserlen a ragwelir ar gyfer Gweithdrefnau Statudol

Pe bai Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Ponthenri, byddai'r amserlen a ragwelir fel a ganlyn:

Disgrifiad	Hyd
Ymgynghoriad Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.	O leiaf 42 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol) **10 Tachwedd 2026 hyd at 22 Rhagfyr 2026**
Adroddiad Ymgynghori Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.	**Mehefin 2027** Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol
Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig:	
Hysbysiad Statudol Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol.	**Mehefin i Orffennaf 2027** O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi)
Adroddiad Gwrthwynebu Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.	**Hydref 2027** Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad.
Penderfynu Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig.	**Hydref 2027** Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu
Os bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Ysgol Gynradd Pontiets yn cau.	**31 Rhagfyr 2027**

Cynnig i Gau
Ysgol Gynradd Pontiets

Atodiadau

Dylid eu darllen ar y cyd â'r Ddogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Asesiadau Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar gymuned Pontiets. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad A. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol sy'n dod i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol sy'n dod i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad Effaith Integredig cychwynnol wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad C.

Rhaid darllen yr holl asesiadau effaith sydd yn yr Atodiadau ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiadau i gyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae asesiad cychwynnol o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill a pha ysgolion y maent yn eu mynychu.

Cyfanswm Nifer y Disgyblion (CYBLD 2026)	**Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon**	**Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon**	**Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill**
21	12	9	38*
*Bryn, Carwe, Glanyfferi, Gwynfryn, Llannon, Pen-bre, Ponthenri, Pontyberem, Pum Heol, Santes Fair (Llanelli), Trimsaran			

Clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol:

Mae'r ysgol yn darparu clwb ar ôl ysgol, sy'n cael ei fynychu'n gyson gan ddisgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgol yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys gwersi ukulele wythnosol a gyflwynir gan aelod o'r Corff Llywodraethu. Rydym hefyd yn cydweithio â Music Factory Wales i ddarparu gweithdai cerddoriaeth, sy'n cyfoethogi profiadau cerddorol disgyblion.

Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol neu wasanaethau y mae'r ysgol yn eu darparu:

Nid oes unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol neu wasanaethau y mae'r ysgol yn eu darparu.

Defnydd arall gan y gymuned o adeilad yr ysgol

Mae'r ysgol yn agor ei drysau i'r gymuned ehangach yn rheolaidd. Fel rhan o'r dathliadau i nodi pen-blwydd yr ysgol yn 150 oed, rhoddodd y gymuned leol gasgliad sylweddol o ddeunyddiau hanesyddol, a gafodd eu dangos mewn arddangosfa a fynychwyd gan dros 300 o bobl. Yn ystod y digwyddiad hwn, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori hefyd i archwilio opsiynau ar gyfer defnydd cymunedol o adeiladau'r ysgol yn y dyfodol. Bydd posibiliadau amrywiol, gan gynnwys sesiynau rhagflas cymunedol, yn cael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu.

Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau cryf gyda sefydliadau ac unigolion cymunedol amrywiol. Mae haneswyr, artistiaid, ffotograffwyr a cherddorion lleol yn cyfrannu at gyfoethogi'r cwricwlwm, gan helpu disgyblion i ddatblygu ymdeimlad dyfnach o le a chymuned. Trefnir teithiau cerdded natur rheolaidd i erddi lleol hefyd, lle mae disgyblion yn dysgu am dyfu planhigion ac yn cael eu cyflwyno i effeithiau lleol newid yn yr hinsawdd.

Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau agos â Chôr Merched Glannau'r Gwendraeth, gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr yn gwasanaethu fel arweinydd y côr. Ar ben hynny, mae ein Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau gweithgar wedi'i hintegreiddio'n llawn â'r gymuned leol. Yn ddiweddar, cymerodd y Gymdeithas Rheini, Athrawon a Ffrindiau ran yn yr ŵyl "Party on the Pitch" a gynhaliwyd ym Mharc Pontiets, lle buont yn cynnal stondin ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r gymuned.

Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble fydden nhw'n cael eu darparu pe bai'r ysgol yn cau?

Ar hyn o bryd nid yw Ysgol Gynradd Pontiets yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan grwpiau cymunedol allanol y tu allan i oriau ysgol.

P'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai'r ysgol ei chau (e.e. gwella

neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau);

Nid oes unrhyw gynlluniau i wella cyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu'n ehangach fel rhan o'r cynnig presennol.

Fodd bynnag, gallai gwelliannau posibl gynnwys buddsoddiad mewn cyfleusterau cymunedol presennol, gwelliannau i ardaloedd chwarae a hamdden a datblygu gweithgareddau ychwanegol a darpariaeth i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol.

Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen;

Mae Ysgol Ponthenri yn ysgol gynradd ar gyfer disgyblion 4-11 oed.

Mae Clwb Brecwast am ddim yn yr ysgol bob bore yn neuadd yr ysgol rhwng 8.00am a 8.35am.

Roedd darpariaeth ar ôl ysgol yn Ysgol Gwynfryn hyd at Pasg 2026, ac mae posibilrwydd y gallai hyn ailddechrau ym Medi 2026 os bydd digon o ddiddordeb. Cludwyd disgyblion o Ysgol Ponthenri i Ysgol Gwynfryn i gael mynediad i'r ddarpariaeth hon.

Anogir disgyblion i ymuno â'r Urdd ac mae staff yn rhedeg Clwb yr Urdd bob nos Iau am awr ar ôl ysgol, lle mae staff yn paratoi disgyblion i gystadlu yn yr Eisteddfod a digwyddiadau chwaraeon amrywiol – yn wir, enillodd tîm pêl-droed yr ysgol gystadleuaeth rhanbarth Gorllewin Myrddin a byddant yn mynd i'r rowndiau terfynol yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Rhoddir cyfle i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 fynd i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog bob blwyddyn.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos â chapeli lleol – cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch bob blwyddyn, ac eleni, cynhaliwyd priodasau yn y capeli (fel rhan o waith thematig).

Mae cysylltiadau agos hefyd rhwng yr ysgol a chlybiau chwaraeon lleol, yn enwedig Clwb Rygbi Pontiets.

A fyddai cau'r ysgol yn peri i deuluoedd â phlant o oedran ysgol adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned:

Ar hyn o bryd, mae tuedd barhaus yn y gostyngiad o nifer y plant oedran cynradd yn Sir Gaerfyrddin.

Mae data sy'n deillio o'r cyfrifiad a'r SYC yn dangos bod gan Bontiets boblogaeth sefydlog gyda thua 20% o drigolion o dan 18 oed a lefel gymharol uchel o feddiannaeth perchnogol, sy'n awgrymu cymuned sefydlog. Nid oes unrhyw dystiolaeth ddemograffig i ddangos y byddai cau Ysgol Gynradd Pontiets yn arwain at nifer sylweddol o deuluoedd yn gadael yr ardal. Er y gall colli ysgol bentref leihau

atyniad y gymuned i rai darpar deuluoedd ifanc, disgwylir i'r effaith hon fod yn gyfyngedig o ystyried argaeledd darpariaeth addysg amgen o fewn pellter teithio rhesymol a'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar benderfyniadau preswyl.

Er ei bod yn amlwg mai dim ond nifer fach o'r boblogaeth sy'n mynychu ysgol y pentref, derbynnir y gallai cau'r ysgol wneud yr ardal yn llai deniadol i deuluoedd sy'n dymuno symud i'r ardal.

A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned

Gall cau Ysgol Gynradd Pontiets gael effaith andwyol gyfyngedig ar yr economi leol trwy leihau cyfleuster cymunedol gwerthfawr ac o bosibl gwneud y pentref ychydig yn llai deniadol i rai teuluoedd â phlant ifanc. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ddemograffig yn dangos bod gan Pontiets boblogaeth sefydlog, marchnad dai gymharol sefydlog a mynediad at wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal ehangach, sy'n awgrymu bod nifer sylweddol o deuluoedd yn annhebygol o adael y gymuned o ganlyniad i'r cynnig. Er y gallai rhai effeithiau bach ar fywiogrwydd cymunedol a gwariant lleol ddigwydd dros amser, nid oes digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad y byddai'r cau yn cael effaith niweidiol sylweddol ar economi ehangach y gymuned.

Pellter ac amser teithio wrth fynychu ysgol amgen yn yr un categori iaith;

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri sydd tua 0.9 milltir neu 2 funud o amser teithio mewn car a 0.9 milltir neu 21 munud o amser teithio ar droed o Ysgol Gynradd Pontiets.

Lle bo'n bosibl, bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth a rennir.

Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig;

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol a gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn y pen draw, byddai cymorth yn cael ei ddarparu i ddisgyblion a'u rhieni fel rhan o'r broses bontio.

Os bydd rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Gynradd Ponthenri, bydd angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion, sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Yr effaith ar iechyd a llesiant, e.e. pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol;

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai disgyblion sy'n byw ym mhentref Pontiets dal yn gallu cerdded neu feicio i Ysgol Gynradd Ponthenri gan fod llwybr cerdded i'r ysgol, a hwnnw'n un sy'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ni fyddai hyn

yn lleihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol dyddiol, a allai gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant rhai disgyblion.

Ar gyfer disgyblion sy'n byw tu allan i'r pentref ac ymhellach i ffwrdd o'r ysgol sy'n derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried lle bo'n bosibl a ellid cytuno ar bwynt casglu dynodedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael cludiant, er mwyn galluogi disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd i barhau i gerdded rhan o'u taith ysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

Unrhyw oblygiadau ehangach e.e. effaith ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus, materion ehangach yn ymwneud â diogelwch cymunedol

Nid oes unrhyw effeithiau disgwyliedig ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.

Gall cau adeilad yr ysgol fod â goblygiadau ehangach i'r gymuned leol, yn enwedig os yw'r adeilad wedi cael ei ddefnyddio'n anffurfiol neu ar sail ad hoc o'r blaen fel man lloches, man cyfarfod, neu leoliad cymorth cymunedol yn ystod argyfyngau. Fodd bynnag, gan nad yw'r ysgol wedi'i chynnwys ar restr llochesi dynodedig yr Awdurdod Lleol, ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol ar drefniadau lloches brys sefydledig. Felly, os caiff ei gymeradwyo, ni ragwelir y bydd y cau yn cael effaith sylweddol ar drefniadau ymateb i argyfwng lleol neu ddiogelwch cymunedol ehangach yn hyn o beth.

• Casgliad – Effaith gyffredinol ar y gymuned

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi nodi bod Ysgol Pontiets yn chwarae rôl gadarnhaol yn y gymuned leol drwy ei chysylltiadau â sefydliadau cymunedol, gweithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau sy'n dod â phobl ynghyd. Mae'r ysgol yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth gymunedol, ac mae ei phartneriaethau â haneswyr, artistiaid, cerddorion a grwpiau cymunedol lleol, ynghyd â gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion (CRhACh), yn dangos ei chyfraniad ehangach y tu hwnt i addysg.

Fodd bynnag, mae'r asesiad hefyd yn dangos bod nifer sylweddol o blant sy'n byw o fewn dalgylch Pontiets eisoes yn mynychu ysgolion eraill a bod darpariaeth addas ar gael yn Ysgol Ponthenri. Mae'r ysgol dderbyn yn cynnig ystod o gyfleoedd addysgol, diwylliannol ac allgyrsiol, gan gynnwys clwb brecwast am ddim, gweithgareddau'r Urdd, cysylltiadau cryf â sefydliadau lleol a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chymunedol.

Gan fod Ysgol Ponthenri wedi'i lleoli'n agos at Ysgol Pontiets, ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar amseroedd teithio nac ar allu disgyblion i gerdded neu feicio i'r ysgol. Byddai cymorth priodol hefyd yn cael ei ddarparu i ddisgyblion a theuluoedd drwy gydol unrhyw gyfnod trosglwyddo er mwyn helpu i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r ysgol dderbyn.

Er y byddai rhoi'r gorau i'r ysgol yn arwain at golli adeilad ysgol o fewn y gymuned, canfu'r asesiad nad yw'r safle'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar hyn o bryd gan grwpiau cymunedol allanol a bod ystod o gyfleusterau, gweithgareddau a

sefydliadau cymunedol yn parhau i fod ar gael yn y pentref. Yn ogystal, ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol mewn perthynas â darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, diogelwch cymunedol nac ymateb lleol i argyfyngau. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai unrhyw ddefnydd o'r safle yn y dyfodol yn cael ei ystyried ar wahân, a gallai fod cyfleoedd i'r safle barhau i ddarparu budd i'r gymuned leol.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y byddai'r cynnig yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned leol drwy golli ysgol sy'n rhan o hanes, hunaniaeth a bywyd cymunedol yr ardal. Fodd bynnag, ni fyddai cysylltiadau cymunedol na chyfranogiad mewn gweithgareddau lleol o reidrwydd yn dod i ben o ganlyniad i'r cynnig, ac mae agosrwydd Ysgol Ponthenri, parhad cyfleusterau cymunedol yn y pentref, y potensial i'r safle ddarparu budd cymunedol yn y dyfodol, a'r mesurau cymorth a lliniaru a fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn golygu bod yr effeithiau cymunedol cyffredinol yn cael eu hystyried yn gyfyngedig ac yn rhai y gellir eu rheoli'n briodol. Mae'r asesiad hefyd yn dod i'r casgliad, er y gallai colli ysgol bentref leihau atyniad yr ardal i rai teuluoedd sy'n ystyried symud i'r gymuned ac y gallai gael effaith andwyol gyfyngedig ar fywiogrwydd y gymuned a gwariant lleol, nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai nifer sylweddol o deuluoedd yn gadael yr ardal nac y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr economi leol ehangach. Mae tystiolaeth ddemograffig yn dangos bod Pontiets yn parhau'n gymuned sefydlog a sefydledig, ac mae argaeledd darpariaeth addysg amgen gerllaw yn golygu y disgwylir i unrhyw effeithiau o'r fath fod yn gyfyngedig. O'r herwydd, ni ystyrir bod yr effeithiau cymunedol cyffredinol yn ddigon sylweddol i orbwyso manteision addysgol a strategol y cynnig.

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Asesiad Effaith ar y Gymraeg

Paratowyd gan: Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Cyflwyniad a Phwrpas

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn ystyried effeithiau tebygol y cynnig canlynol:
I drosglwyddo dysgwyr o Ysgol Gynradd Pontiets i Ysgol Gynradd Ponthenri.
Mae'r Asesiad yn cael ei baratoi i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg. Paratowyd yr asesiad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru 2026 (001/2026), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

2. Methodoleg a Sylfaen Dystiolaeth

Mae'r Asesiad yn cael ei baratoi i edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar yr egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg. Paratowyd yr asesiad yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) Llywodraeth Cymru 2026 (001/2026), Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Fframwaith Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin, a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
Prif ddiben yr asesiad yw nodi, profi a rheoli'r effeithiau ar:

- gyfleoedd dysgwyr, teuluoedd, staff a'r gymuned i ddefnyddio'r Gymraeg;
- parhad, ansawdd a hygyrchedd addysg cyfrwng Cymraeg;
- defnydd cymdeithasol ac anffurfiol o'r Gymraeg;
- cynaliadwyedd rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol Cymraeg lleol;
- yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- targedau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2022–2032.

Mae'r asesiad yn gwahaniaethu rhwng cynnal lle mewn ysgol sy'n cynnig addysg Gymraeg a chynnal yr ecosystem iaith lawn. Mae'r ecosystem honno'n cynnwys patrymau defnydd rhwng cyfoedion, perthynas yr ysgol â rhieni, gweithgareddau'r Urdd, cysylltiadau cymunedol, cyfleoedd teuluol, a hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi.

3. Cyd-destun:

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith debygol y cynnig i drosglwyddo dysgwyr o Ysgol Gynradd Pontiets i Ysgol Gynradd Ponthenri. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Nid yw'r cynnig felly'n dileu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae'n newid lleoliad y ddarpariaeth a'r berthynas rhwng yr ysgol, y teulu a'r gymuned.

Byddai'r cynnig yn cynnal addysg cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo dysgwyr rhwng dwy ysgol Categori 3. Gallai cyfuno dysgwyr mewn ysgol fwy gryfhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Y prif risg yw colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhontiets a lleihau defnydd cymunedol anffurfiol o'r Gymraeg, ochr yn ochr ag unrhyw rwystrau teithio a all effeithio ar gyfranogiad teuluoedd.

Nododd Estyn yn 2018 fod llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 Ysgol Gynradd Pontiets wedi datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn dda, a bod staff yn modelu'r iaith yn effeithiol.

4. Asesiad Effaith y Gymraeg (Tabl 1)

Mae'r adran hon yn asesu'r cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), yn benodol y Safonau Llunio Polisïau (Safonau 88–93), Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), a Safonau Gweithredol (Safonau 127–135).

Dylid nodi y bydd yr Asesiad Effaith y Gymraeg yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn sicrhau ystyriaeth gydwybodol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Byddwn yn cynnwys data, tystiolaeth, mewnwelediad ac adborth o ymchwil ac ymgynghoriadau mewnol a'r ymgynghoriad cyhoeddus wrth ddilyn y broses honno.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ysgol (cyfarchiad, arwyddion, arferion, cyfathrebu cyffredinol)	Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3. Nid yw'r cynnig felly'n dileu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae'n newid lleoliad y ddarpariaeth a'r berthynas rhwng yr ysgol, y teulu a'r gymuned. Mae'r cynnig yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr o un ysgol cyfrwng Cymraeg i'r llall a fyddai'n cadw cyfleoedd addysgol cyfrwng Cymraeg ac, os caiff ei reoli'n effeithiol, gallai gryfhau cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Trwy gydgrynhoi disgyblion mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ehangach, mae'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gynyddu nifer y disgyblion a gwytnwch.	Positif gyda risg negyddol fach	• Hyrwyddo defnydd dyddiol o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. • Datblygu mentrau llais dysgwyr drwy'r Gymraeg. • Cynyddu cyfleoedd rhyngweithio rhwng cyfoedion drwy weithgareddau cyfrwng Cymraeg.	• Cynllun pontio ieithyddol • Paru cyfoedion • Monitro iaith yr iard a chlybiau.	Positif ond gydag angen i fonitro

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Safonau a darpariaeth gyfredol y Gymraeg	Mae tystiolaeth Estyn yn dangos sylfaen gadarn. Rhaid diogelu cynnydd unigol wrth drosglwyddo.	Positif	Cefnogi staff drwy ddysgu proffesiynol parhaus i gryfhau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a darparu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r safonau cyfredol. Monitro ac adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg drwy hunanwerthuso a chynllunio gwella ysgolion, gan sicrhau aliniad â'r disgwyliadau statudol. Sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn parhau i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gyda gwahaniaethu a	Rhannu data asesu Cynllunio dilyniant Cymorth targedig i ddysgwyr ag ADY a dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg.	Positif ond gydag angen i fonitro

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			chefnogaeth briodol lle bo angen.		
Cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi (cyfrwng Cymraeg/ dwyieithog)	Mae Ysgol Pontiets yn darparu clwb ar ôl ysgol, sydd â nifer dda o ddisgyblion yn mynychu. Ceir ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys gwersi iwcele wythnosol a gweithdai gan Ffatri Cerddorddiaeth Cymru. Mae Ysgol Pontiets yn cydweithio gyda Menter Cwm Gwendraeth Elli i ddarparu cyfleoedd meithin ar y safle, sef Mwncis Mentrus. Cefnoga'r ddarpariaeth gyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Nid oes clwb ar ôl ysgol yn Ysgol Ponthenri ar hyn o bryd ac roedd trefniant mewn lle i gludo disgyblion i'r clwb yn Ysgol Gwynfryn yn hanesyddol. Gall ysgol fwy gynnal mwy o	Positif	Defnyddio gweithgareddau ar ôl ysgol a gweithgareddau cyfoethogi i ddarparu cyd-destunau dilys, pleserus ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, gan gefnogi defnydd iaith anffurfiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau fel yr Urdd, Menter Iaith a darparwyr lleol i gyfoethogi'r ddarpariaeth allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Hyrwyddo	Mapio cludiant Edrych ar amseru a chost. Monitro cyfranogiad dysgwyr Ponthenri.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
	glybiau Cymraeg, ond gall teithio gyfyngu ar gyfranogiad.		gweithgareddau cyfoethogi cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddisgyblion a theuluoedd i annog cyfranogiad ac ymgysylltiad parhaus. Sicrhau bod cyfleoedd ar ôl ysgol a chyfoethogi yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy gynllunio a chymorth priodol.		
Cyfleoedd cymunedol (cymorth i rieni/gwarcheidwaid a'r	Mae Ysgol Pontiets yn agor ei drysau i'r gymuned ehangach yn rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau fel dathlu pen-blwydd yr ysgol yn 150, lle cafwyd ymgysylltu o tan defnydd	Niwtral i bositif	Darparu gwybodaeth ddwyieithog, arweiniad a chyfleoedd ymgysylltu i rieni a	Cynllun ymgysylltu gyda Llywodraethwyr Ysgol Pontiets. Digwyddiadau cyfrwng Cymraeg yn y ddwy	Niwtral i bositif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
gymuned ehangach)	cymunedol pellach gan y gymuned. Cyfle i ehangu profiadau ond risg i hunaniaeth a threftadaeth Pontiets. Does dim defnydd o adeilad Ysgol Ponthenri gyda'r nos a does dim Cylch Meithrin yn yr adeilad. Gall colli'r ysgol leihau canolbwynt Cymraeg lleol ym Mhonthenri.		gwarcheidwaid, gan gefnogi hyder wrth ddeall a chefnogi addysg Gymraeg. Cryfhau partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol lleol e.e. Menter Iaith, yr Urdd a gwasanaethau cymorth i ymestyn cyfleoedd Cymraeg y tu hwnt i'r lleoliad ysgol. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau a chyfathrebu sy'n wynebu'r gymuned, gan atgyfnerthu ei gweledegdd fel iaith fyw o fewn y gymuned.	gymuned. Partneriaeth â grwpiau lleol. Sicrhau bod cyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned yn gynhwysol ac yn hygyrch, gan alluogi teuluoedd o bob cefndir i gymryd rhan ac ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Gymraeg. Cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned drwy'r Gymraeg, gan gynnwys sesiynau gwybodaeth, gweithdai neu ddigwyddiadau anffurfiol lle bo	

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
				hynny'n briodol.	
Cefnogaeth i gyfranogiad diwylliannol Cymru (Urdd, Mentrau Iaith, eisteddfodau, treftadaeth)	Mae'r ddwy ysgol yn hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau'r Urdd, eisteddfodau ac ymweliadau addysgol Cymraeg. Mae gan Ysgol Ponthenri gysylltiadau da gyda'r capeli lleol - cwrdd diolchgarwch blynyddol, eleni cynhaliwyd priodasau yn y capeli (fel rhan o waith thema).	Negyddol		Cryfhau a ffurfioli partneriaethau gyda'r Urdd, Menter Iaith lleol a sefydliadau diwylliannol Cymraeg i gynyddu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol cyfrwng Cymraeg. Sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol Cymraeg yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, trwy addasu a chymorth priodol.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
Aliniad â CSCA a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru	Mae'r cynnig yn cefnogi parhad addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cyd-fynd ag amcanion CSCA Sir Gaerfyrddin a Cymraeg 2050 drwy gynnal darpariaeth Gymraeg a hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.	Positif	Datblygu a gweithredu fframwaith trochi Cymraeg strwythuredig ar gyfer Dysgu Sylfaen, gan gynnwys arferion llafaredd, patrymau iaith a dilyniant geirfa gyson. Sicrhau bod trochi a darpariaeth ddwyieithog yn cael ei ddarparu trwy ddulliau cynhwysol, hygyrch, gan gynnwys cymorth gweledol, modelu ac ailadrodd. Darparu cymorth a monitro wedi'i dargedu i ddysgwyr sydd ag ADY i sicrhau bod datblygiad y Gymraeg yn cael ei	Adolygu'r asesiad yn rheolaidd wrth i dystiolaeth newydd ddod i law.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
			gefnogi'n briodol.		
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr holl wasanaethau a chyfathrebiadau sy'n wynebu'r	Bydd yr holl weithgareddau ymgynghori, cyfathrebu a darparu gwasanaethau yn parhau i gael eu cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Safonau'r Gymraeg.	Positif	Sicrhau bod y fersiwn sy'n addas i blant ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal a chefnogi dewisiadau iaith disgyblion. Ymgorffori adborth a gasglwyd gan blant a phobl ifanc yn y broses ymgynghori, gan sicrhau bod eu barn yn cael eu hystyried yn briodol.	Defnyddio iaith syml, delweddau a chyd-destunau cyfarwydd i annog ymgysylltu a galluogi dysgwyr i fynegi eu barn yn hyderus. Hwyluso cyfleoedd i ddisgyblion drafod y cynnig yn Gymraeg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn prosesau cyfranogol a democrataidd.	Positif

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws yr effaith	Mesurau i gynyddu'r effaith gadarnhaol	Mesurau i liniaru effaith negyddol bosibl	Effaith derfynol (ar ôl lliniaru)
cyhoedd ar gael yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal.					

5. Safonau'r Gymraeg (Tabl 2)

Mae'r asesiad hwn yn ystyried effaith y cynnig yn erbyn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1 2015), gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83), a'r Safonau Gweithredol (127–135).

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.**	**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032**, Mae'r dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi'r farn hon yn cynnwys dogfennau polisi strategol cenedlaethol a lleol perthnasol, yn enwedig Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin (CSCA) 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n ymwneud â throchi	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael a defnyddio'r Gymraeg drwy drochi cynnar a llwybrau dilyniant clir, gan gefnogi defnydd mwy cyson o'r Gymraeg ar draws cyd-destunau dysgu, cymdeithasol a chymunedol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw heriau tymor byr posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo yn cael eu lliniaru trwy weithredu fesul cam, cyfathrebu clir â theuluoedd a chefnogaeth barhaus i ddysgwyr a staff.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		cynnar, dilyniant, a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.	
Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r cynnig, a thrwy hynny atgyfnerthu cydraddoldeb ieithyddol a chydymffurfio â gofynion statudol.	Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; dogfennaeth ymgynghori ddwyieithog; a sefydlu trefniadau cydymffurfio â Safonau Cymreig Awdurdod Lleol. *(Safonau Llunio Polisi 88–93)*	**Positif:** Mae'r cynnig yn atgyfnerthu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol drwy sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob gwasanaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, yn unol â Safonau'r Gymraeg. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae'r cynnig yn cynnal ac yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog, gan liniaru unrhyw risg o driniaeth anghyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
Safonau Llunio Polisïau – ystyriaeth gydwybodol 'r Gymraeg	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cael effaith uniongyrchol ar y Safonau Llunio Polisïau drwy ystyried yn benodol yr effaith ar y Gymraeg, asesu cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a nodi mesurau lliniaru i wella canlyniadau cadarnhaol. Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn yn dangos bod ystyriaeth gydwybodol wedi'i roi i'r Gymraeg yn unol â **Safonau Llunio Polisi 88–93**, gan gynnwys ystyriaeth benodol o sut mae'r cynnig yn effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a'r egwyddor o drin y Gymraeg ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg hwn, sydd wedi'i gwblhau wrth ddatblygu'r cynnig er mwyn nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd yr asesiad effaith yn cael ei ddiweddaru wrth i dystiolaeth ychwanegol cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses ymgynghori. Y **ddogfen ymgynghori statudol** sy'n ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg ac sy'n cynnwys trefniadau ymgysylltu dwyieithog. Aliniad â **Chod Trefniadaeth Ysgolion (Cymru) 2026**, sy'n	**Positif:** Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu gan roi sylw penodol i'r Gymraeg, gyda chefnogaeth Asesiad Effaith ar y Gymraeg sy'n nodi effeithiau, mesurau lliniaru a chyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â gofynion statudol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae ystyried effeithiau'r Gymraeg yn gynnar yn lliniaru'r risg o effeithiau andwyol anfwriadol.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		gofyn am ystyriaeth benodol o'r Gymraeg wrth ddatblygu cynigion addysg. **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032**, sy'n darparu'r fframwaith strategol sy'n llywio'r cynnig. **Polisi Llywodraeth Cymru**, gan gynnwys *Cymraeg 2050* a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, sy'n sail i'r disgwyliadau ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.	
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau –	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Safonau	Rheoliadau **Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**, yn enwedig y **Safonau Cyflenwi**	**Positif:** Mae'r cynnig yn cynnal ac yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn Gymraeg	Cyflenwi Gwasanaethau drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan atgyfnerthu cydymffurfiaeth a chynnal cydraddoldeb ieithyddol. Bydd yr holl drefniadau ymgynghori a chyfathrebu yn parhau i gydymffurfio â'r **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1–83),** gan sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu i safon gyfartal ac nad ydynt yn cael eu lleihau o ganlyniad i'r cynnig.	**Gwasanaethau (Safonau 1–83),** sy'n gosod gofynion statudol ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg i safon gyfartal. **Dogfen ymgynghori statudol** sy'n cadarnhau bod yr holl ddeunyddiau ymgynghori, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu darparu yn ddwyieithog. **Trefniadau cydymffurfio Safonau'r Gymraeg**	drwy sicrhau bod yr holl wasanaethau, gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg i safon gyfartal, gan gefnogi cydraddoldeb a hygyrchedd ieithyddol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae trefniadau darparu gwasanaethau dwyieithog yn cael eu gwella, ac ni ragwelir unrhyw ostyngiad yn y ddarpariaeth Gymraeg.

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		sefydledig Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys gohebiaeth ddwyieithog, cyhoeddiadau ac arferion ymgysylltu â'r cyhoedd.	
Safonau Gweithredol – defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff	**Ydy – effaith gadarnhaol.** Mae'r cynnig yn cefnogi'r Safonau Gweithredol drwy gryfhau cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau proffesiynol, yn enwedig drwy fwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dysgu proffesiynol wedi'i dargedu a datblygu capasiti'r gweithlu yn raddol.	Trefniadau datblygu'r gweithlu Cyngor Sir Caerfyrddin, gan gynnwys mynediad at hyfforddiant Cymraeg a dysgu proffesiynol yn unol â'r Safonau Gweithredol (Safonau 127–135). Aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin 2022–2032, yn enwedig canlyniadau sy'n	**Positif:** Mae'r cynnig yn cefnogi mwy o ddefnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff drwy ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog, gyda chefnogaeth gweithredu fesul cam a dysgu proffesiynol wedi'i dargedu, a thrwy hynny gryfhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol. **Negyddol:** Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol sylweddol, yn amodol ar liniaru. Mae unrhyw bwysau posibl sy'n gysylltiedig â mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn cael eu lliniaru drwy weithredu'n raddol, cynllunio'r gweithlu a mynediad at

Gofyniad	A yw'r cynnig yn effeithio ar y Safonau hyn?	Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i gefnogi'r farn hon?	Effeithiau cadarnhaol/negyddol
		ymwneud â chryfhau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg a defnydd mewnol o'r Gymraeg.	ddatblygiad proffesiynol.

6. Cyd-destun Ieithyddol Cymunedol

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws Sir Gaerfyrddin, gyda phwysau nodedig mewn trefi trefol ac ôl-ddiwydiannol. Er bod Sir Gaerfyrddin yn cadw cyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, mae'r gyfran ymhlith grwpiau oedran iau wedi gostwng, gan dynnu sylw at bwysigrwydd trochi cynnar a chryfhau llwybrau iaith Gymraeg mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r cymunedau hyn.

Proffil Ieithyddol yr ardal

Mae Pontiets yn gymuned wledig yn Nghwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol a chymunedol yr ardal, gyda hanes cryf o ddefnydd rhyng-genhedlaeth o'r iaith. Fel llawer o gymunedau gwledig y sir, mae'r gallu i gynnal a chryfhau'r Gymraeg yn dibynnu ar gyfuniad o ffactorau gan gynnwys addysg, tai, demograffeg, cyfleoedd cymdeithasol a chyflogaeth. Mae Cwm Gwendraeth yn un o'r ardaloedd hynny yn Sir Gaerfyrddin lle mae'r Gymraeg yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd cymunedol, diwylliannol ac addysgol yr ardal. O ganlyniad, mae unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus, addysg neu drefniadaeth gymunedol yn debygol o gael goblygiadau ieithyddol sy'n ymestyn y tu hwnt i'r effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targed cenedlaethol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, ac mae cynnal cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol o ddydd i ddydd yn rhan hanfodol o gyflawni'r amcan hwnnw. Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod canran y boblogaeth yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o 19.0% yn 2011 i 17.8% yn 2021, gan bwysleisio'r angen i ddiogelu a chryfhau'r ffactorau sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleol.

Yng Nghwm Gwendraeth, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhan allweddol o'r seilwaith sy'n cynnal yr iaith. Mae'r dystiolaeth leol yn cadarnhau bod Ysgol Ponthenri ac Ysgol Pontiets yn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg Categori 3, gan ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi trosglwyddiad yr iaith i'r genhedlaeth nesaf.
Fodd bynnag, nid darpariaeth addysgol yn unig sy'n bwysig. Mae ymchwil i gynaliadwyedd y Gymraeg yn dangos bod cryfder yr iaith yn gysylltiedig â'r cyfleoedd sydd gan bobl i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol, mewn gweithgareddau cymunedol, mewn teuluoedd, ac mewn rhwydweithiau cymdeithasol lleol. Mae ysgolion, neuaddau cymunedol, clybiau chwaraeon, digwyddiadau lleol a gweithgareddau gwirfoddol oll yn cyfrannu at greu amgylchedd lle gall y Gymraeg gael ei defnyddio'n naturiol ac yn rheolaidd.
O safbwynt strategol, mae nifer o ffactorau sy'n gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau yn Nghwm Gwendraeth:

- Cynnal trosglwyddiad rhyng-genhedlaeth o'r Gymraeg.
- Diogelu a chynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Cryfhau cydlyniant cymunedol a hunaniaeth ddiwylliannol leol.
- Cyfrannu at amcanion Strategaeth Cymraeg 2050.
- Cefnogi amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Sir Gaerfyrddin.
- Sicrhau nad yw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau lleol yn lleihau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae hyn yn golygu y dylid ystyried unrhyw gynigion sy'n effeithio ar ardal Pontiets a Chwm Gwendraeth nid yn unig o safbwynt addysgol neu weithredol, ond hefyd o safbwynt eu heffaith bosibl ar gynaliadwyedd cymunedol y Gymraeg. Dylai'r asesiad gynnwys ystyriaeth o'r effaith ar ddefnydd dyddiol o'r Gymraeg, ar rwydweithiau cymdeithasol Cymraeg eu hiaith, ar ddewis rhieni o ran addysg cyfrwng Cymraeg, ac ar hyfywedd hirdymor yr iaith fel rhan o fywyd cymunedol yr ardal.

7. Risgiau a Lliniaru

Risg	Lliniaru
Colli canolbwynt Cymraeg lleol ym Mhontiets.	Cynllun etifeddiaeth gymunedol; gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal; gweithio gyda sefydliadau lleol.
Llai o gyfranogiad oherwydd teithio.	Mapio anghenion cludiant; amserlen hygyrch; monitro

	cyfranogiad yn ôl ardal.
Newid defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.	Pontio cyfoedion, Siarter Iaith a monitro iaith gymdeithasol.
Diffyg parhad ieithyddol neu gwricwlaidd.	Trosglwyddo data; cymedroli rhwng staff; adolygu cynnydd yn dymhorol.
Effaith anghymesur ar ddysgwyr ag ADY.	Cynlluniau pontio unigol a pharhad cymorth cyfrwng Cymraeg.
Teuluoedd di-Gymraeg yn teimlo'n llai abl i gefnogi dysgu.	Pecyn croeso dwyieithog, sesiynau i deuluoedd ac adnoddau cartref.
Colli hunaniaeth Pontiets.	Prosiect hanes llafar ac archif; cynrychioli'r ddwy gymuned yn ethos a chwricwlwm yr ysgol.
Capasiti staff neu le yn cyfyngu ar y profiad Cymraeg.	Cadarnhau capasiti, sgiliau staff Cymraeg, adnoddau a gofod cyn gweithredu.

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd camau lliniaru a nodir yn yr asesiad hwn yn cael eu monitro drwy brosesau gwella Awdurdod Lleol ac ysgolion sefydledig ac adborth ymgynghori, gydag addasiadau yn cael eu gwneud lle bo angen i wneud y mwyaf o'r effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
Bydd monitro parhaus yn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys y Safonau Llunio Polisïau (88–93), y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (1–83) a'r Safonau Cyflenwi Gweithredol (127-135), gyda chamau cywiro wedi'u cymryd lle bo angen.

9. Mecanweithiau gwella parhaus:

Mae'r cynnig hwn yn dangos ystyriaeth gydwybodol glir i Gôd Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg, a bydd yr awdurdod lleol yn monitro canlyniadau'r Gymraeg drwy gydol dylunio, adeiladu a gweithredu, gan adolygu tystiolaeth yn flynyddol a mireinio camau gweithredu.

10. Casgliad a Chrynodeb

Mae'r cynnig yn cynnal addysg cyfrwng Cymraeg drwy drosglwyddo dysgwyr rhwng dwy ysgol Categori 3, ac mae ganddo botensial i gryfhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 54% o drigolion tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, gan godi i 80% ymhlith plant 3–15 oed. Mae hyn yn cadarnhau bod yr ysgolion yn gwasanaethu ardal lle mae'r Gymraeg yn rhan arwyddocaol o fywyd cymunedol.

Fodd bynnag, gostyngodd y gyfran leol o 59% yn 2011 i 54% yn 2021. Mae colli safle ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mhontiets felly'n creu risg gymunedol na ellir ei lliniaru drwy gynnal statws Categori 3 yr ysgol dderbyn yn unig. Asesir yr effaith gyffredinol fel un gymysg, y gellir ei gwneud yn gadarnhaol os gweithredir y mesurau pontio, cludiant, etifeddiaeth gymunedol, monitro ac ymgysylltu yn llawn.
Bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad statudol ac eto cyn gwneud penderfyniad, gan gynnwys data cyfredol yr ysgolion, profiad rhanddeiliaid ac unrhyw wybodaeth fanylach am ddalgylchoedd a theithio.
Felly, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gofynion **Safonau Llunio Polisïau 88–93** a **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1–83**, yn amodol ar y mesurau lliniaru a'r trefniadau monitro a amlinellir uchod.

Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar gamau allweddol y broses statudol, gan gynnwys ar ôl ymgynghori a chyn penderfynu, i sicrhau bod unrhyw faterion neu adborth sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried yn llawn.

Atodiad C – Asesiad Effaith Integredig

Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Caerfyrddin

<table>
<tr><td colspan="4">MANYLION Y CYNNIG</td></tr>
<tr><td>Gwasanaeth ac Adran:</td><td>Cwblhawyd gan (swyddog arweiniol):</td><td>Dyddiad yr asesiad cychwynnol:</td><td>Hydref 2026</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Addysg a Gwasanaethau Plant</td><td rowspan="2">Tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg</td><td>Fersiwn rhif:</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Adolygu:</td><td>Ar ôl y cyfnod ymgynghori</td></tr>
<tr><td>Beth yw'r cynnig sydd i'w asesu?</td><td colspan="3">Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Pontiets ar 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri o 1 Ionawr 2028</td></tr>
<tr><td>Ar bwy fydd y cynnig hwn yn cael effaith uniongyrchol?</td><td colspan="3">Rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion yn Ysgol Gynradd Pontiets
Staff ysgol a gyflogir yn Ysgol Gynradd Pontiets
Rhieni darpar ddisgyblion Ysgol Gynradd Pontiets
Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Pontiets
Rhieni/gwarcheidwaid a disgyblion Ysgol Gynradd Ponthenri
Staff ysgol a gyflogir yn Ysgol Gynradd Ponthenri
Rhieni darpar ddisgyblion Ysgol Gynradd Ponthenri
Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Ponthenri
Cymunedau Pontiets a Phonthenri
Ysgolion lleol/cyfagos eraill</td></tr>
</table>

Wrth i chi gwblhau'r asesiad, gofynnir i chi nodi'r holl ffynonellau tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at ddata a dogfennau eraill ac ati a'u cwblhau trwy hyperddolenni

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) PUM FFORDD O WEITHIO ***(gelwir hyn yn egwyddor datblygu cynaliadwy hefyd. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu fod y Cyngor yn ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn sylfaen)***		
Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw: '... bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.'		
Ffyrdd o Weithio	**Sut mae'r cynnig yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**
Tymor Hir **Cydbwyso anghenion tymor byr â rhai tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol**	Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r sefyllfa anghynaladwy yn Ysgol Gynradd Pontiets, lle mae nifer y disgyblion yn isel iawn ac yn gostwng (21 o ddisgyblion, 73% o leoedd gwag) a diffyg cyllideb (£80,469) ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2026/27. Fyddai trosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri yn gwella deilliannau addysgol drwy sicrhau mynediad at gwricwlwm ehangach, dosbarthiadau sy'n briodol i'r oedran, a chyfleusterau gwell, gan gefnogi llwyddiant addysgol tymor hir. Mae hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol drwy leihau costau parhaus ac atal yr ysgol rhag mynd i ddiffyg. Byddai hefyd yn galluogi defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ar draws y sir. Hefyd, mae'r cynnig yn diogelu'r ddarpariaeth at y dyfodol drwy alinio â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ar gyfer dysgu yn yr 21ain ganrif.	**Data CYBLD –** Yn dangos niferoedd isel parhaus o ddisgyblion a nifer uchel o leoedd gwag (75% yn 2027, 71% yn 2031 yn ôl yr amcanestyniadau). **Amcanestyniadau o Niferoedd y Disgyblion** - Disgwylir i nifer y disgyblion aros yn isel am y 5 mlynedd nesaf o leiaf. **Data Genedigaethau –** Yn dangos mai go brin y gwelir twf yn nifer y plant fydd yn dechrau addysg statudol yn yr ardal leol. **Adroddiadau Cyllideb –** Yn tynnu sylw at gyllidebau anghynaladwy a chost uchel fesul disgybl (£9,017 yn erbyn cyfartaledd sirol o £5,969).

		Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg – Yn nodi amcanion ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir a safonau addysgol gwell. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) –** Yn gofyn am weithredu lle mae lleoedd dros ben yn fwy na 25% a 30 o leoedd heb eu llenwi, sy'n berthnasol i Ysgol Gynradd Pontiets.
Atal **Atal problemau rhag digwydd neu waethygu**	Byddai'r cynnig yn atal y sefyllfa rhag gwaethygu drwy fynd i'r afael â'r heriau parhaus yn Ysgol Gynradd Pontiets cyn iddynt fynd yn rhai na ellir eu datrys. Mae'r rhain yn cynnwys: • Niferoedd isel o ddisgyblion sy'n gostwng; • Nifer uchel o leoedd gwag; • Cyllideb sy'n lleihau'n gyflym; • Cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl; • Dim arweinyddiaeth barhaol; a • Heriau sy'n gysylltiedig â nifer o grwpiau blwyddyn mewn un dosbarth. Byddai cynnal y status quo yn arwain at ansefydlogrwydd ariannol ac anawsterau parhaus wrth gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys. Trwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri, mae'r cynnig yn lliniaru'r risgiau hyn, gan sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at addysg o ansawdd uchel mewn dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r dull	**Data CYBLD –** Yn dangos niferoedd isel parhaus o ddisgyblion a nifer uchel o leoedd gwag (75% yn 2027, 71% yn 2031 yn ôl yr amcanestyniadau). **Amcanestyniadau o Niferoedd y Disgyblion** - Disgwylir i nifer y disgyblion aros yn isel am y 5 mlynedd nesaf o leiaf. **Data Genedigaethau –**Yn dangos mai go brin y gwelir twf yn nifer y plant fydd yn dechrau addysg statudol yn yr ardal leol. **Adroddiadau Cyllideb –** Yn tynnu sylw at gyllidebau anghynaladwy a chost uchel fesul disgybl (£9,017 yn erbyn cyfartaledd sirol o £5,969).

	rhagweithiol hwn yn cyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio creu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac atal safonau addysgol a hyfywedd ariannol rhag dirywio ymhellach.	**Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg** Yn nodi amcanion ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir a safonau addysgol gwell sy'n berthnasol i Ysgol Gynradd Pontiets. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) –** Yn gofyn am weithredu lle mae lleoedd dros ben yn fwy na 25% a 30 o leoedd heb eu llenwi.
Integreiddio **Cydnabod perthnasoedd a rhyng-ddibyniaeth â nodau llesiant eraill ac amcanion meysydd gwasanaeth a phartneriaid eraill.**	Mae'r cynnig hwn yn cefnogi integreiddio Amcan Llesiant 1 Cyngor Sir Caerfyrddin, "Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd (Dechrau'n Dda)," drwy gyfrannu at: • Cyrhaeddiad addysgol gwell ac ymgysylltiad dysgwyr. • Cefnogi plant agored i niwed neu dan anfantais. • Hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant. • Lleihau effaith tlodi ac anghyfartaledd. • Datblygu sgiliau Cymraeg ac ymdeimlad o berthyn. • Cryfhau dulliau ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r cynnig yn cydnabod y rhyng-ddibyniaeth rhwng addysg, iechyd, llesiant, cefnogaeth teulu a gwasanaethau cymunedol, ac yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau a all effeithio ar ddatblygiad plant a chyfleoedd bywyd.	**Amcanion Llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin – Amcan Llesiant 1** – Dechrau'n Dda **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg –** Yn nodi amcanion ar gyfer rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy a gwella safonau addysgol. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) –** Yn gofyn am ystyried lleoedd gwag a'r effaith ar y gymuned. **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)** – Yn sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg barhaus ac yn cefnogi cynllun Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

	Mae cau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri yn cefnogi nodau Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin drwy helpu i sefydlu darpariaeth addysg sy'n fwy cynaliadwy a gwydn ac sy'n gallu bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cymraeg 2050. Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at amcanion corfforaethol ehangach trwy leihau lleoedd ysgol gwag, gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, a hyrwyddo mynediad cyfartal i addysg o ansawdd uchel i bob dysgwr. Mae'n cyd-fynd â threfniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor drwy ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion cymwys, ac mae wedi'i ddatblygu gan ystyried ei effaith bosibl ar gymunedau a gwasanaethau lleol. Trwy ystyried elfennau addysgol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, mae'r cynnig yn arddel dull integredig o wneud penderfyniadau. Mae'n cydnabod y rhyng-ddibyniaeth rhwng addysg, cludiant, llesiant cymunedol a defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus, gan sicrhau bod buddiannau hirdymor dysgwyr a chymunedau yn flaenllaw o hyd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.	**Data Ariannol** – Yn dangos diffyg anghynaladwy a chost uchel fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Pontiets. **Polisi Cludiant –** Cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys er mwyn cynnal hygyrchedd. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned -** Tynnu sylw at y cysylltiadau â sefydliadau a gwasanaethau lleol.
Cydweithio **Wedi'i gyflawni trwy weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol eraill (sector**	Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu drwy gydweithio parhaus â swyddogion allweddol a meysydd gwasanaeth y Cyngor i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr Awdurdod Lleol, amcanion y Rhaglen Moderneiddio Addysg, a phenderfyniadau perthnasol y Cyngor Sir a'r	**Cofnodion y Drafodaeth Lunio –** Cynhaliwyd yn yr ysgol ar 12 Mawrth 2025. **Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) –**

cyhoeddus, preifat neu wirfoddol) i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir	Cabinet. Cynhaliwyd Trafodaeth Lunio gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu a'r Aelod Lleol i ymchwilio i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol ac i ystyried opsiynau cynaliadwy ar gyfer darparu addysg yn y dyfodol. Drwy'r drafodaeth hon roedd rhanddeiliaid wedi gallu rhannu gwybodaeth leol, nodi effeithiau posibl a chyfrannu at ddatblygu'r cynnig. Mae cydweithio hefyd wedi digwydd ar draws ystod o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys addysg, cludiant ysgol, cymorth i ddysgwyr, cyllid, adnoddau dynol a thimau polisi, i asesu goblygiadau'r cynnig a sicrhau bod trefniadau cymorth priodol ar waith ar gyfer dysgwyr, staff a theuluoedd. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), cynhelir proses ymgynghori ffurfiol i roi cyfle i randdeiliaid fynegi eu barn am y cynnig. Mae'r broses hon yn cynnwys rhieni a gofalwyr, disgyblion, staff, cyrff llywodraethu, undebau llafur, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, ysgolion cyfagos, a chynrychiolwyr cymunedol. Bydd yr adborth a geir drwy'r broses ymgynghori yn cael ei ystyried yn ofalus cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud. Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau bod y cynnig yn cael ei lywio gan ystod eang o safbwyntiau ac arbenigedd, yn hyrwyddo tryloywder wrth wneud penderfyniadau, ac yn cefnogi datblygiad datrysiad sy'n diwallu anghenion dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Trwy weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid trwy gydol y broses, mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni'r	Yn gosod gofynion statudol ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. **Dogfen Ymgynghori** – Bydd yn amlinellu sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig a chyflwyno gwrthwynebiadau. **Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg –** Wedi'i datblygu ar y cyd ar draws meysydd gwasanaeth i sicrhau rhwydweithiau ysgolion cynaliadwy. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned -** Yn cynnwys adborth gan yr ysgol. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** – Amlinellu'r effeithiau posibl ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg.

	deilliannau addysgol gorau posibl tra'n rheoli effeithiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol ehangach y cynnig.	
Cynnwys **Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt**	Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y broses wedi llywio datblygiad y cynnig hwn. Aethpwyd ati'n gynnar i gynnal Trafodaeth Lunio â'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu, a'r Aelod Lleol i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r ysgol ac i edrych ar atebion posibl yn y tymor hir ar gyfer darparu addysg gynaliadwy. Gan gydnabod pwysigrwydd y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan y cynnig, mae disgyblion wedi cael cyfleoedd i rannu eu sylwadau. Bydd gweithgareddau ymgynghori â disgyblion yn cael eu cynnal mewn modd sy'n briodol i'w hoedran, gan alluogi dysgwyr i fynegi eu barn, eu profiadau ac unrhyw bryderon ynghylch dyfodol eu haddysg. Caiff sylwadau'r disgyblion eu hystyried ochr yn ochr â rhai'r rhanddeiliaid eraill fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), bydd ymarfer ymgynghori ffurfiol yn rhoi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid gymryd rhan yn y broses. Mae hyn yn cynnwys disgyblion, rhieni a gofalwyr, staff ysgol, llywodraethwyr, undebau llafur, Estyn, Comisiynydd y Gymraeg, ysgolion cyfagos, cynrychiolwyr cymunedol a phartïon eraill sydd â diddordeb. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu casglu a'u dadansoddi i sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried yn llawn cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.	**Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) –** Yn gosod gofynion statudol ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid. **Dogfen Ymgynghori** – Bydd yn amlinellu sut y gall rhanddeiliaid ymateb i'r cynnig a chyflwyno gwrthwynebiadau. **Dogfen Ymgynghori i Ddisgyblion** – Bydd yn amlinellu mewn modd priodol i'r oedran sut y gall disgyblion ymateb i'r cynnig a chyflwyno gwrthwynebiadau. **Ymgysylltu Ymgynghori a Gynlluniwyd** –Arolwg ar-lein, ymatebion drwy e-bost, ffurflenni papur, a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned –** Yn amlinellu sut mae barn y gymuned wedi llywio'r cynnig. **Ymrwymiad i gyhoeddi Adroddiad Ymgynghori –** Sicrhau bod adborth

	Mae'r cynnig yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i gyfranogiad ystyrlon trwy geisio ac ystyried barn dysgwyr, teuluoedd, staff a chymunedau. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu llywio gan brofiadau a safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt, yn hyrwyddo tryloywder, ac yn cefnogi datblygiad datrysiad sy'n diwallu orau anghenion dysgwyr heddiw a dysgwyr y dyfodol. Trwy ymgysylltu ac ymgynghori parhaus, mae'r cynnig yn arddel egwyddor cyfranogiad trwy sicrhau bod pobl sydd â diddordeb yn y cynnig, neu bobl y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar ei ddatblygiad a'i weithrediad.	yn cael ei ystyried cyn gwneud penderfyniadau.

1. Tymor Hir	Mae cynllunio yn y tymor hir mewn perthynas â'r bwriad i gau Ysgol Gynradd Pontiets yn ceisio lleihau'r tarfu ar ddisgyblion, staff a theuluoedd tra'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth addysgol, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau gwell, adnoddau a chwricwlwm ehangach. Bydd strwythur a chefnogaeth i'r broses bontio er mwyn cynnal parhad y dysgu, llesiant a chymorth bugeiliol drwy gydol y cyfnod trosglwyddo. Lle bo'r angen, buddsoddir yn seilwaith a chyfleusterau yr ysgol sy'n derbyn i sicrhau y gall ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol mewn modd cynaliadwy heb effeithio'n andwyol ar ansawdd yr addysg neu brofiad y dysgwr. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro effeithiau tymor hwy y cynnig ar ddysgwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar gydlyniant cymunedol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r defnydd o safle Ysgol Pontiets yn y dyfodol yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer adeiladau ysgol diangen, gan ymchwilio i gyfleoedd ar

	gyfer budd i'r gymuned lle bo hynny'n bosibl. Os na fydd angen y safle at ddefnydd cymunedol ac os na nodir defnydd corfforaethol addas, bydd y Cyngor yn ceisio gwaredu'r eiddo ar y cyfle priodol cynharaf er mwyn lleihau costau cynnal a chadw parhaus, rhwymedigaethau ariannol a risgiau sy'n gysylltiedig ag adeiladau gwag.
2. Atal	Mae'r cynnig yn ceisio atal yr heriau parhaus sy'n wynebu Ysgol Gynradd Pontiets rhag tyfu'n rhai mwy sylweddol dros amser. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng yn raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y byddant yn aros yn isel, gan arwain at lawer o leoedd gwag, cynnydd mewn pwysau ariannol a phryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y ddarpariaeth. Trwy weithredu'r cynnig, nod y Cyngor yw atal y problemau hyn rhag gwaethygu ac osgoi sefyllfa lle gallai heriau addysgol, arweinyddiaeth ac ariannol effeithio ymhellach ar brofiadau a chyfleoedd dysgu disgyblion. Byddai'r cynnig yn gosod dysgwyr mewn amgylchedd addysgol mwy cynaliadwy sydd ag arweinyddiaeth sefydlog, gwydnwch trefniadaethol cryfach a mynediad at gwricwlwm ehangach. Er mwyn atal effeithiau andwyol yn ystod gweithrediad y cynnig, bydd rhaglen bontio gynhwysfawr yn cael ei llunio a'i chyflwyno mewn partneriaeth ag Ysgol Gynradd Pontiets ac Ysgol Gynradd Ponthenri. Bydd hyn yn cynnwys ymweliadau pontio, cyfleoedd i ddisgyblion gwrdd â staff a chyfoedion, cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr agored i niwed a rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a rhannu gwybodaeth dysgwyr yn effeithiol i sicrhau parhad dysgu a llesiant. Bydd monitro presenoldeb, llesiant a chyrhaeddiad yn barhaus ar ôl trosglwyddo yn golygu y gellir nodi a thaclo unrhyw broblemau yn gynnar. Darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys yn unol â pholisi'r Cyngor, a bydd adnoddau neu adeiladau ychwanegol ar gael lle bo angen i sicrhau bod safonau addysgol a phrofiadau dysgwyr yn cael eu cynnal.
3. Integreiddio	Bydd y cynnig yn cael ei weithredu ochr yn ochr ag ystod o bolisïau a strategaethau cysylltiedig, gan gynnwys y Rhaglen Moderneiddio Addysg, y Cwricwlwm i Gymru, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, y Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, Amcanion Llesiant y Cyngor a Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Bydd effeithiau negyddol posibl ar gydlyniant cymunedol, defnydd o'r Gymraeg a hygyrchedd yn parhau i gael eu monitro drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a phrosesau Asesiad Effaith Integredig. Caiff effeithiau cadarnhaol eu cefnogi drwy sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, gwell capasiti arweinyddiaeth, cyfleoedd cwricwlwm ehangach, a gwell cymorth llesiant mewn amgylchedd ysgol cynaliadwy. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r defnydd cymunedol o safle Ysgol Pontiets yn y dyfodol,

	lle bo'n ymarferol, yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer adeiladau ysgol diangen.
4. Cydweithio	Bydd cydweithrediad agos yn parhau rhwng swyddogion addysg, arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, swyddogion trafnidiaeth, adnoddau dynol, gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac adrannau eraill o'r Cyngor trwy gydol y broses statudol ac unrhyw weithrediad dilynol. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gynradd Ponthenri a'i phartneriaid yn y ffederasiwn i gynllunio ar gyfer integreiddio disgyblion, goblygiadau staffio ac unrhyw ofynion seilwaith. Bydd undebau llafur, rhieni, disgyblion, cynrychiolwyr cymunedol ac ymgyngoreion statudol perthnasol yn rhan o'r broses ymgynghori, gan sicrhau bod pryderon yn cael eu nodi'n gynnar a bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu datblygu. Pan fo pryderon yn y gymuned ynghylch y defnydd o safle'r ysgol yn y dyfodol, bydd cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol neu gorfforaethol yn cael sylw mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol cyn ystyried gwaredu'r safle.
5. Cynnwys	Bydd rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon drwy gydol y broses o ymgynghori a gwneud penderfyniadau. Ymgynghorir â disgyblion drwy Ddogfen Ymgynghori benodol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, a threfnir sesiynau ymgysylltu â disgyblion gan Ymgynghorydd Cymorth Addysg. Bydd rhieni, gofalwyr, staff, llywodraethwyr, cynrychiolwyr cymunedol a thrigolion lleol yn cael cyfleoedd i roi adborth yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r broses hysbysu statudol. Bydd canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio'r penderfyniadau a wneir ac i nodi unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol sy'n angenrheidiol. Bydd cyfathrebu parhaus â theuluoedd a staff yr effeithir arnynt yn helpu i sicrhau bod pryderon yn cael sylw'n brydlon a bod rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses. Bydd Adroddiad Ymgynghori ffurfiol yn cael ei gyhoeddi sy'n crynhoi'r adborth a sut y bydd yn dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

CYDRADDOLDEBAU ***(mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol: dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau)***		
Nodweddion Gwarchodedig	**A ydy'r cynnig yn effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**
Oedran	Bydd y cynnig yn effeithio fwyaf ar y plant oedran ysgol sy'n mynychu Ysgol Gynradd Pontiets ar hyn o bryd, gan gynnwys disgyblion sydd o dan yr oedran ysgol statudol a allai weld newid mewn darpariaeth addysg a threfniadau teithio. Nid yw disgyblion oedran meithrin yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol o dan bolisi cludiant ysgol y Cyngor, a gallai hyn greu ystyriaethau teithio a gofal plant ychwanegol i deuluoedd yr effeithir arnynt. Gallai'r cynnig hefyd effeithio ar rieni a gofalwyr y bydd angen iddynt addasu i drefniadau ysgol newydd, gan gynnwys newidiadau i arferion teithio, presenoldeb mewn digwyddiadau ysgol ac ymgysylltu â chymuned ysgol newydd. Gallai'r cynnig effeithio ar y staff drwy newid trefniadaethol a phrosesau adleoli posibl. Bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i weithwyr 55 oed a	Data CYBLD (2026) Polisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir Caerfyrddin Proffil Staffio

	hŷn a allai fod yn ystyried opsiynau ymddeol neu y gallai newidiadau i'w cyflogaeth effeithio'n anghymesur arnynt. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn bydd gan y Cyngor drefniadau pontio cynhwysfawr ar gyfer disgyblion a theuluoedd, a bydd yn cyfathrebu'n glir trwy gydol y broses ac yn cynnig cymorth i staff yn unol â pholisïau cyflogaeth y Cyngor. Bydd disgyblion cymwys yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn unol â pholisi'r Cyngor, a bydd amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried lle gallai cymorth ychwanegol fod yn ofynnol.	
Anabledd	Efallai y bydd gan rai disgyblion anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol a gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn ystod y broses bontio. Bydd anghenion unigol yn cael eu hystyried a bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo angen, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd yr effaith yn negyddol gan y byddai mwy o staff ac adnoddau i gefnogi dysgwyr mewn ysgol fwy o faint. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd cyfarfodydd pontio a chyfathrebu cryf yn digwydd cyn unrhyw drosglwyddo. Bydd gan unrhyw ddysgwyr agored i niwed sydd angen cymorth ychwanegol fynediad at asiantaethau allanol a chyngor gan swyddog Awdurdod Lleol. Mae gan Ysgol Gynradd Ponthenri gynllun hygyrchedd a bydd trefniadau pontio cynhwysfawr yn cael eu rhoi ar waith. Ystyrir y byddai effaith y cynnig ar gyfer dysgwyr ADY yn	

	gadarnhaol gan fod yr amgylchedd dysgu yn Ysgol Gynradd Ponthenri yn briodol ac yn ffafriol ar gyfer darparu cymorth i ddysgwr ag anghenion.	
Ailbennu rhywedd	Nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Mae'r cynnig yn berthnasol yn yr un modd i bob dysgwr. Fodd bynnag, mae potensial y ceir rhai effeithiau andwyol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon, yn enwedig lle mae'n ofynnol i unigolion addasu i amgylchedd addysgol neu gymdeithasol newydd. Gallai newidiadau mewn lleoliad ysgol, grwpiau cyfoedion a rhwydweithiau cymorth greu ansicrwydd neu bryder i rai disgyblion, yn enwedig os yw'r ymagweddau at gynhwysiant a llesiant yn wahanol i'r rhai presennol. Gellir lliniaru'r effeithiau posibl hyn trwy gynllunio pontio effeithiol a thrwy sicrhau bod gan yr ysgolion sy'n derbyn bolisïau, gweithdrefnau a rhwydweithiau cymorth cadarn ar waith i hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb a diogelwch rhag gwahaniaethu. Gall cyfleoedd i ddisgyblion a theuluoedd ymgysylltu â'r ysgol sy'n derbyn cyn trosglwyddo hefyd helpu i gefnogi pontio cadarnhaol a meithrin ymdeimlad o berthyn. Yn gyffredinol, bwriad y cynnig yw darparu mynediad i ddysgwyr i amgylchedd addysgol cynaliadwy a gwella cyfleoedd addysgol, llesiant a deilliannau i'r holl ddisgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt.	

Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim effaith wedi'i nodi. Nid ystyrir bod y nodwedd hon yn berthnasol i'r cynnig. Serch hynny, er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i ddisgyblion, mae yn bwysig cynnal cydraddoldeb mewn arferion cyflogaeth o ran staffio.	
Hil	Nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Mae'r cynnig yn berthnasol yn yr un modd i bob dysgwr beth bynnag ei hil neu gefndir ethnig. Fodd bynnag, gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, yn enwedig lle bo ganddynt anghenion diwylliannol, ieithyddol neu gymorth penodol y bydd yn rhaid eu deall a darparu ar eu cyfer yn yr ysgol sy'n derbyn. Bydd cynllunio pontio gofalus a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod yr anghenion unigol hyn yn parhau i gael eu cydnabod a'u cefnogi. Mae proffil ethnigrwydd Ysgol Gynradd Pontiets yn debyg ar y cyfan i Ysgol Gynradd Ponthenri, gan mai disgyblion Gwyn Prydeinig sydd gan y ddwy ysgol i raddau helaeth iawn. Yn Ysgol Gynradd Pontiets, mae 18 (85.7%) o'r 21 disgybl ar y gofrestr wedi'u cofnodi fel Gwyn Prydeinig tra bod 1 disgybl (4.8%) wedi'i gofnodi fel Tsieineaidd ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall, 1 disgybl (4.8%) wedi'i gofnodi fel Teithiwr o Dras Gwyddelig ac 1 disgybl (4.8%) wedi'i gofnodi fel Gwyn a Du Caribïaidd.	Bydd yr ysgol yn dilyn arferion a pholisïau cynhwysol.

	Yn Ysgol Gynradd Ponthenri, mae 58 (96.7%) o'r 60 o ddisgyblion ar y gofrestr wedi'u cofnodi fel Gwyn Prydeinig tra bod 1 (1.7%) wedi'i gofnodi fel Gwyn ac Asiaidd ac 1 (1.7%) wedi'i gofnodi fel Gwyn Ewropeaidd Arall. Bydd unrhyw effeithiau posibl yn cael eu lliniaru trwy weithio'n agos gyda disgyblion, teuluoedd a'r ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod cymorth priodol ar waith a bod dysgwyr yn parhau i gael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysgol, bugeiliol a llesiant. Mae'r ddwy ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu cefndiroedd, profiadau a hunaniaethau amrywiol pob disgybl. Bwriad y cynnig yw sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i gael cymorth priodol a mynediad at gyfleoedd addysgol o ansawdd uchel.	

Crefydd/Cred	Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at ddarpariaeth addysg sy'n seiliedig ar ffydd ac nid oes unrhyw effeithiau andwyol wedi'u nodi. Fodd bynnag, gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion a theuluoedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, yn enwedig lle bo ganddynt anghenion diwylliannol, ieithyddol neu gymorth penodol y bydd yn rhaid eu deall a darparu ar eu cyfer yn yr ysgol sy'n derbyn. Bydd cynllunio pontio gofalus a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod yr anghenion unigol hyn yn parhau i gael eu cydnabod a'u cefnogi. Bydd unrhyw effeithiau posibl yn cael eu lliniaru trwy weithio'n agos gyda disgyblion, teuluoedd a'r ysgol sy'n derbyn i sicrhau bod cymorth priodol ar waith a bod dysgwyr yn parhau i gael mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysgol, bugeiliol a llesiant. Mae'r ddwy ysgol wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg mewn amgylchedd sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu cefndiroedd, profiadau a hunaniaethau amrywiol pob disgybl. Bwriad y cynnig yw sicrhau bod pob dysgwr yn parhau i gael cymorth priodol a mynediad at gyfleoedd addysgol o ansawdd uchel.	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Gallai'r cynnig gael rhywfaint o effaith ar rieni neu ofalwyr sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth, yn enwedig pan fo newidiadau i drefniadau ysgol ac arferion teithio yn golygu bod angen addasu a gwneud cynlluniau ychwanegol. Lliniarir yr effeithiau hyn trwy gyfathrebu clir,	Ddim yn berthnasol

	trwy ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth ynghylch trefniadau cludiant yn amserol, a thrwy gynllunio pontio. Bydd staff sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth, neu'n dychwelyd i'r gwaith yn ystod y cyfnod gweithredu yn parhau i gael mynediad at gyngor a chymorth adnoddau dynol priodol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth yn cael eu cymhwyso'n deg ac yn gyson, gan ystyried amgylchiadau unigol ac amddiffyniadau statudol. Bydd cyswllt Adnoddau Dynol dynodedig ar gael i ddarparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth ar unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu famolaeth, gan helpu i sicrhau bod gweithwyr yr effeithir arnynt yn cael gwybodaeth a chefnogaeth lawn trwy gydol y broses. Ar y cyfan, nid oes unrhyw effaith andwyol anghymesur wedi'i nodi mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth, a bydd mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi unigolion y gallai'r cynnig effeithio arnynt.	
Cyfeiriadedd Rhywiol	Nid yw'r cynnig yn effeithio ar fynediad at addysg, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Pontiets yn parhau i dderbyn addysg mewn amgylchedd dysgu cynhwysol a chefnogol ac yn cadw mynediad at yr un cwricwlwm, cymorth bugeiliol a gwasanaethau statudol. Mae'r ysgol sy'n derbyn wedi ymrwymo i hyrwyddo	Bydd yr ysgol yn dilyn arferion a pholisïau cynhwysol.

	cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn unol â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau perthnasol. Mae mesurau priodol ar waith i feithrin amgylchedd diogel, parchus a chroesawgar i bob aelod o gymuned yr ysgol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr, rhieni, gofalwyr neu staff o unrhyw gyfeiriadedd rhywiol. Felly nid ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.	
Rhyw	Nid yw'r cynnig yn newid mynediad at addysg, lleoedd ysgol, gwasanaethau cymorth na chyfleoedd addysgol ar sail rhyw. Byddai pob disgybl sy'n trosglwyddo o Ysgol Pontiets yn parhau i gael mynediad at yr un cwricwlwm, cymorth llesiant a darpariaeth addysgol waeth beth fo'i ryw. Gallai'r cynnig arwain at newidiadau i drefniadau cyflogaeth ar gyfer staff Ysgol Pontiets, gan gynnwys y potensial ar gyfer adleoli, newidiadau i batrymau gweithio neu ddileu swyddi. Ar sail y proffil staffio cyfredol, menywod yw'r holl staff a gyflogir yn yr ysgol. O ganlyniad, gallai unrhyw effeithiau ar staffio sy'n deillio o'r cynnig ddisgyn yn anghymesur ar fenywod. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu cyfansoddiad presennol y gweithlu yn hytrach nag unrhyw agwedd ar y cynnig ei hun, ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi i awgrymu bod y cynnig wedi'i gynllunio neu y byddai'n gweithredu mewn modd sy'n gwahaniaethu ar sail rhyw. Nid yw'r cynnig wedi'i ddatblygu ar sail rhyw y gweithwyr	Bydd yr ysgol yn dilyn arferion a pholisïau cynhwysol.

	yr effeithir arnynt, ac nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'n arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Byddai unrhyw oblygiadau staffio yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor, gan gynnwys ymgynghori priodol, ystyried cyfleoedd adleoli, a darparu mesurau cymorth ar gyfer staff yr effeithir arnynt. Yn gyffredinol, ni fernir y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon.	

Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?

1. Oedran	Gweithredu trefniadau pontio cynhwysfawr ar gyfer disgyblion, gan gynnwys ymweliadau ysgol, gweithgareddau sefydlu a chymorth llesiant. Cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn glir ac yn amserol ynghylch trefniadau cludiant, derbyn a phontio. Cynnig cymorth ychwanegol i rieni disgyblion sydd dan oedran ysgol statudol ac felly heb fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Darparu cymorth, cyngor a chyfleoedd adleoli priodol i staff yr effeithir arnynt, gan gynnwys y rhai 55 oed a hŷn a allai fod yn ystyried opsiynau ymddeol.
2. Anabledd	Sicrhau bod pob disgybl ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i dderbyn cymorth priodol ac addasiadau rhesymol. Datblygu cynlluniau pontio unigol lle bo angen i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng ysgolion. Gweithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol i gynnal parhad cymorth ac i gael mynediad at wasanaethau arbenigol. Monitro effaith y pontio ar lesiant, presenoldeb a chynnydd addysgol y disgyblion.

3. Ailbennu rhywedd	Sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn yn cynnal polisïau cydraddoldeb, gwrth-fwlio a chynhwysiant cadarn. Hyrwyddo amgylchedd diogel, parchus a chefnogol i bob disgybl ac aelod o staff. Sicrhau bod unrhyw drefniadau cymorth presennol yn parhau drwy gydol y broses bontio.
4. Priodas a Phartneriaeth Sifil	Sicrhau bod yr holl benderfyniadau cyflogaeth sy'n ymwneud â staff yn cael eu gwneud mewn modd teg a chyson, yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth a pholisïau'r Cyngor. Parhau i ddarparu mynediad cyfartal at wybodaeth, cyfleoedd ymgynghori a chymorth, beth bynnag fo statws priodasol neu bartneriaeth sifil rhywun.
5. Hil	Sicrhau bod amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig yn cael ei gydnabod a'i gefnogi o fewn yr ysgol sy'n derbyn. Rhannu gwybodaeth berthnasol â staff yr ysgol sy'n derbyn i gefnogi dysgwyr unigol a'u teuluoedd. Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy bolisïau'r ysgol, gweithgareddau'r cwricwlwm a chymorth bugeiliol.
6. Crefydd/Cred	Ymgysylltu â theuluoedd lle mae gofynion neu arferion penodol sy'n gysylltiedig â ffydd. Sicrhau bod polisïau'r ysgol yn parhau i gefnogi hawliau'r disgyblion i arfer a mynegi eu credoau. Cynnal amgylchedd ysgol cynhwysol sy'n parchu gwahanol grefyddau, credoau a diwylliannau.
7. Beichiogrwydd a mamolaeth	Cyfathrebu mewn modd clir a hyblyg â rhieni neu ofalwyr sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth. Sicrhau bod cyngor a chymorth AD ar gael i weithwyr sy'n feichiog, ar absenoldeb mamolaeth neu'n dychwelyd i'r gwaith. Sicrhau bod prosesau staffio yn ystyried amddiffyniadau statudol sy'n ymwneud â beichiogrwydd a mamolaeth.
8. Cyfeiriadedd Rhywiol	Cynnal polisïau ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, urddas a pharch i bob aelod o gymuned yr ysgol. Sicrhau mynediad at gymorth bugeiliol a llesiant lle bo angen. Parhau i herio gwahaniaethu, aflonyddu a bwlio trwy weithdrefnau ysgol sefydledig.
9. Rhyw	Rheoli unrhyw oblygiadau staffio trwy brosesau cyflogaeth teg a thryloyw, gan gynnwys cyfleoedd ymgynghori ac adleoli. Monitro unrhyw effaith anghymesur ar staff gwrywaidd neu fenywaidd lle mae angen gwneud newidiadau i'r gweithlu. Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn parhau i gael mynediad cyfartal at gyfleoedd addysgol, gwasanaethau cymorth a gweithgareddau allgyrsiol beth bynnag eu rhyw.

Y GYMRAEG ***(mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r effaith bositif neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg)***			
Gofyniad	**A ydy'r cynnig yn effeithio ar y Safonau canlynol?**	**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**A ydy'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau positif neu negyddol?**
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg unigol a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo i ysgol amgen Categori Iaith 3 (cyfrwng Cymraeg). Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd y broses ymgynghori yn ddwyieithog, sy'n golygu bydd cyfle i'r cyhoedd ddarllen y dogfennau sy'n ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac ymateb drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn cadarnhau bod y ddwy ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (Atodiad B) yn nodi bod y cynnig yn cynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg.	Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, byddai posibilrwydd o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg. Caiff disgyblion eu trosglwyddo i ysgol amgen Categori Iaith 3 (cyfrwng Cymraeg) sydd â charfan fwy o ddisgyblion, gan roi rhagor o gyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae posibilrwydd y bydd effaith negyddol ar drigolion ochr ddwyreiniol pentref Pontiets o ran defnyddio'r iaith Gymraeg, gan y byddai'r rhan hon o'r pentref yn colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg.
Dim trin y Gymraeg yn llai	Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg unigol	Mae'r ddwy ysgol yn gweithredu o dan Safonau'r Gymraeg.	Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad at darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr

ffafriol na'r Saesneg	a gellir ei ddarllen yn llawn yn Atodiad B. Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd dogfennau'r ymgynghoriad yn ddwyieithog sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ddarllen dogfennau yn ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg a darparu ymateb yn eu dewis iaith.		ardal, gan sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddysgu a chyfathrebu yn bennaf yn Gymraeg.

DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth wneud penderfyniadau strategol, ystyried sut allai ein penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sydd ynghlwm wrth anfanteision economaidd-gymdeithasol. Mae anghydraddoldeb o ran canlyniadau yn ymwneud ag unrhyw wahaniaethau mesuradwy mewn canlyniadau rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddeall safbwyntiau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan y penderfyniad, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais economaidd)	
Gofyniad	
Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-	Mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweledigaeth ehangach yr awdurdod i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc, lleihau effeithiau tlodi ar ddeilliannau addysgol, a sicrhau

gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?	cymunedau diogel a ffyniannus. Mae data CYBLD (2026) yn dangos bod 57% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Pontiets yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, sy'n arwydd bod rhai teuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Gallai'r newidiadau mewn trefniadau teithio a lleoliad yr ysgol olygu y bydd y cynnig yn effeithio ar y teuluoedd hyn. Fodd bynnag, darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys, gan ysgafnhau'r baich ariannol. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Lleol wedi ystyried proffil economaidd-gymdeithasol y dalgylch gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025, sef dull swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r dalgylch yn rhan o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llangyndeyrn 1, a Glyn. Er bod rhan fach iawn o'r dalgylch yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llangyndeyrn 2, mae'r ardal hon yn cynnwys tir amaethyddol yn bennaf ac ychydig o eiddo preswyl, os o gwbl, sydd i'w cael yno. O ganlyniad, ni chredir eu bod yn cael dylanwad sylweddol ar broffil economaidd-gymdeithasol cyffredinol y dalgylch. Mae data MALlC 2025 yn dangos bod y dalgylch yn cwmpasu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o fewn Dengraddau 5 a 6. Mae Llangyndeyrn 1 o fewn Dengradd 5, sy'n cynrychioli ardaloedd sydd â lefelau amddifadedd cyfartalog o gymharu â Chymru gyfan, tra bod Glyn yn Nengradd 6, sy'n dangos lefel amddifadedd ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r data hyn yn awgrymu bod gan y dalgylch lefelau isel i gymedrol o amddifadedd ac nad yw ymysg y cymunedau mwyaf amddifadedd yng Nghymru. Mae dangosyddion amddifadedd incwm a chyflogaeth yn dangos tystiolaeth o lefelau cymedrol o amddifadedd incwm, ond nid lefelau a fyddai'n dangos anfantais economaidd-gymdeithasol ddifrifol neu grynodol ar draws y dalgylch. Mae dadansoddiad o feysydd MALIC 2025 yn dangos bod y ffynhonnell amddifadedd fwyaf arwyddocaol o fewn y dalgylch yn ymwneud â mynediad at wasanaethau, gyda'r ddwy Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is yn llawer mwy amddifad yn y maes hwn nag yn unrhyw un arall, gyda Llangyndeyrn 1 a Glyn o fewn Dengradd 2, sy'n golygu eu bod ymhlith yr 20% o ardaloedd mwyaf

	difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu natur wledig yr ardal a'r pellter cymharol o wasanaethau allweddol, cyfleoedd cyflogaeth a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae amddifadedd incwm a chyflogaeth yn amlwg, yn enwedig mewn perthynas â thlodi plant, er bod lefelau'n gymedrol yn hytrach na difrifol. Mae dangosyddion iechyd, addysg, diogelwch cymunedol ac amgylchedd ffisegol yn gymharol gryfach, sy'n awgrymu mai'r brif her sy'n wynebu'r dalgylch yw un o hygyrchedd yn hytrach nag amddifadedd economaidd-gymdeithasol crynodol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai dysgwyr a theuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn fwy agored i newidiadau mewn trefniadau teithio a hygyrchedd. Mae'r ystyriaethau hyn wedi cael sylw drwy gydol y broses o asesu'r cynnig. Bydd ystod o ddangosyddion amddifadedd, gan gynnwys cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, data presenoldeb a gwybodaeth llesiant, yn llywio'r cynllunio ar gyfer pontio. Lle nodir bod angen cymorth ychwanegol ar ddysgwyr unigol neu deuluoedd, bydd mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i helpu i liniaru effeithiau posibl. Ar ôl ystyried mesurau amddifadedd unigol ac ardal, gan gynnwys bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a data MALIC 2025, nid yw'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai'r cynnig yn cael effaith andwyol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol. Nid yw'r dalgylch wedi'i nodi fel un o'r rhai mwyaf amddifad yng Nghymru. Mae tystiolaeth MALIC 2025 yn dangos mai mynediad at wasanaethau yw'r prif faes o amddifadedd cymharol, gan adlewyrchu natur wledig y gymuned a'r pellteroedd sy'n gysylltiedig â chael mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol. Disgwylir i ddarpariaeth cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr cymwys, ynghyd â chymorth pontio a llesiant wedi'i dargedu, liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl sy'n deillio o'r cynnig. Mae'r cynnig yn cefnogi uchelgais ehangach yr Awdurdod i sicrhau y rhoir y dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn a pherson ifanc, i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a llesiant, ac i gyfrannu at ddatblygiad cymunedau diogel, gwydn a ffyniannus.
A ydych wedi	Cafwyd Trafodaeth Lunio gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu a'r Aelod Lleol. Fodd bynnag, os

ymgysylltu â'r rheiny y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt?	bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol, ymgynghorir â rhanddeiliaid yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gofalwyr, disgyblion, staff, a rhanddeiliaid cymunedol, a fydd yn gallu cyflwyno sylwadau drwy arolygon ar-lein, drwy ymatebion e-bost a thrwy lythyr.
A ydych wedi ystyried cymunedau a lleoedd o ddiddordeb?	Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (Atodiad A) yn ystyried yr effaith ar bentref Pontiets, a bydd yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth sy'n dod i law. Ar hyn o bryd ni wneir unrhyw ddefnydd o adeilad yr ysgol ar ôl oriau gan y gymuned, er bod yr ysgol yn falch o weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau cymunedol ac unigolion i wella'r ddarpariaeth a'r addysg y gall eu darparu i'w disgyblion a'r gymuned ehangach. Felly, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, cydnabyddir y byddai effaith ar y partneriaethau hyn a rôl yr ysgol yn y gymuned. O'r 50 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Pontiets, dim ond 12 sy'n mynychu'r ysgol. Mae'r 9 disgybl arall sydd yn yr ysgol yn teithio o'r tu allan i'r dalgylch, tra bod y 38 disgybl arall sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn ôl data MALIC 2025 yn dangos nad yw diogelwch cymunedol yn ffynhonnell amddifadedd sylweddol yn y dalgylch, a'i fod yn cymharu'n ffafriol â llawer o ardaloedd eraill ledled Cymru. O ganlyniad, nid ystyrir diogelwch cymunedol yn ffactor a fyddai'n gwneud y dysgwyr sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig yn fwy agored i niwed.
Beth yw prif effeithiau'r cynnig?	• Colli'r ddarpariaeth addysg yn ochr ddwyreiniol pentref Pontiets. • Effaith ar ddisgyblion, staff a rhieni. • Effaith bosibl ar drefniadau teithio y disgyblion. Y brif effaith ar y gymuned fyddai colli sefydliad addysgol sydd wedi gwasanaethu Pontiets ers tua 150 o flynyddoedd ac sy'n rhan o hunaniaeth y pentref. Byddai cau'r ysgol yn mynd â darpariaeth addysg o'r pentref, a allai leihau'r cydlyniant cymunedol a'r gweithgarwch lleol sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Fodd bynnag, lleddfir yr effaith o bosibl gan y ffaith nad yw adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan grwpiau cymunedol, byddai addysg cyfrwng Cymraeg dal ar gael yn lleol, ac mae'r ysgol dderbyn arfaethedig wedi'i lleoli yn agos i Bontiets.

Sut gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau deilliannau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?	Gellid gwella'r cynnig drwy ddarparu cymorth pontio wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n agored i niwed, sicrhau nad yw trefniadau cludiant yn creu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad, monitro deilliannau i ddisgyblion dan anfantais ar ôl trosglwyddo, a hyrwyddo mynediad at gynlluniau cymorth ariannol fel prydau ysgol am ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i leihau unrhyw risg y bydd anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar allu disgyblion i elwa'n llawn ar y newidiadau arfaethedig. Bydd disgyblion a theuluoedd yn cael cymorth wedi'i deilwra yn ystod y cyfnod pontio er mwyn cadw'r heriau cyn lleied ag sy'n bosibl. Bydd cyfathrebu clir â rhanddeiliaid yn hanfodol i sicrhau bod y teuluoedd i gyd yn deall beth mae'r cynnig yn ei olygu iddynt. Mae cyfathrebu da yn meithrin ymddiriedaeth, yn lleihau dryswch a gorbryder, ac yn helpu i sicrhau na chaiff neb ei adael ar ôl yn ystod y pontio.
Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a beth yw'r effeithiau pellach o ran croestoriadedd?	Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith andwyol anghymesur ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall rhai dysgwyr brofi anfanteision croestorri, er enghraifft dysgwyr ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd hefyd yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol, neu ddysgwyr o aelwydydd incwm isel sy'n wynebu rhwystrau sy'n gysylltiedig â gwledigrwydd a mynediad at wasanaethau. Mae'r prif fater o ran amddifadedd yn y dalgylch yn ymwneud â mynediad at wasanaethau yn hytrach nag amddifadedd economaidd-gymdeithasol crynodedig. Serch hynny, gallai'r ffactorau croestoriadol hyn gynyddu bregusrwydd yn wyneb newidiadau i drefniadau teithio a phontio i ysgol. Felly, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried amgylchiadau unigol ac yn darparu cymorth priodol o ran pontio, llesiant a chludiant lle bo angen. Ar y cyfan, ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

HAWLIAU'R PLENTYN ***(Yn yr adran hon, mae angen i ni ystyried a yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc).***			
Gofyniad		**Pa dystiolaeth sydd wedi cael ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?**	**Pa gamau gellir eu cymryd i leihau unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau positif?**
A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?	Bydd, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn cael effaith uniongyrchol ar blant. Bydd y cynnig, os caiff ei weithredu, yn golygu y bydd yn rhaid i blant symud o'u hysgol bresennol i ysgol newydd, a allai gael effaith ar lesiant y disgyblion. Ar hyn o bryd nid oes clybiau ieuenctid ac ati yn cael eu cynnal yn yr ysgol, felly byddai'r cynnig ond yn effeithio'n uniongyrchol ar y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Mae **Erthygl 28 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Hawl i Addysg** wedi'i hystyried gan fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ble y bydd plant yn derbyn eu haddysg. Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu a fydd mynediad at addysg yn cael ei gynnal ac yn nodi y byddai dysgwyr yn parhau i gael mynediad at addysg gynradd	Mae data CYBLD (2026) yn dangos bod 21 o ddisgyblion ar y gofrestr. **Erthygl 12 - Parch at Farn y Plentyn** Mae gan bob plentyn yr hawl i rannu ei farn, ei deimladau a'r hyn mae'n ei ffafrio o ran materion sy'n effeithio arno/arni. Dylid gwrando ar sylwadau'r plentyn, a gwerthfawrogi ac ystyried y rheiny'n briodol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd, boed yn y cartref, mewn addysg, neu mewn gwasanaethau a phrosesau ehangach. **Erthygl 28 - Hawl i Addysg** Mae gan bob plentyn yr hawl i fynediad at addysg. Dylid darparu addysg gynradd am ddim, a dylai pob plentyn gael mynediad at addysg uwchradd. Rhaid i bolisïau ac arferion	Bydd cynllun pontio cynhwysfawr yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys ymweliadau ymgyfarwyddo ag Ysgol Gynradd Ponthenri. Bydd y ddarpariaeth fugeiliol yn cael ei chryfhau i gefnogi llesiant disgyblion yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y cyfathrebu â disgyblion a rhieni ynglŷn ag amserlen y pontio a threfniadau logistaidd yn glir ac yn gyson. Cyn i'r symud ddigwydd, bydd yr Awdurdod yn trefnu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chynnal rhwydweithiau cyfoedion drwy weithgareddau ar y cyd. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), ymgynghorir â disgyblion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd cyfle i ddisgyblion (Cyngor Ysgol man lleiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion fod yn rhan o'r broses ymgynghori yn ystod sesiwn gan yr Ymgynghorydd Cymorth Addysg.

	cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Ponthenri neu ysgol arall a ddewisir gan y rhieni drwy'r broses dderbyn. Mae **Erthygl 29 - Nodau Addysg** wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ceisio rhoi mynediad i ddysgwyr at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol, grwpiau cyfoedion mwy, cyfleusterau gwell a phrofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol ehangach, gan gefnogi datblygiad galluoedd a photensial pob plentyn. Mae **Erthygl 12 - Parch at Farn y Plentyn** yn berthnasol oherwydd bydd disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn yn ystod y broses ymgynghori. Mae **Erthygl 30 (Plant o Grwpiau Lleiafrifol)** wedi'i hystyried oherwydd bod y cynnig yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai'r cynnig yn cynnal mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy'r	ysgolion, gan gynnwys rheoli ymddygiad, gynnal urddas a hawliau plant. **Erthygl 29 - Nodau Addysg** Dylai addysg gefnogi datblygiad personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn yn llawn. Dylai hefyd hyrwyddo parch at hawliau dynol, amrywiaeth diwylliannol, gwerthoedd teuluol, a'r amgylchedd, gan helpu plant i dyfu'n aelodau cyfrifol a gwybodus o gymdeithas. **Erthygl 30 – Hawliau Plant o Grwpiau Lleiafrifol neu Frodorol** Mae gan blant yr hawl i fwynhau a dathlu eu diwylliant, eu hiaith a'u crefydd eu hunain. Dylid eu cefnogi i gynnal eu hunaniaeth ddiwylliannol, boed y gymuned ehangach y maent yn byw ynddi yn ei rhannu ai peidio.	Yn ogystal, bydd copi o'r Ddogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc yn cael ei roi i bob disgybl.

	ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Ponthenri.		
A ydy'r fenter wedi'i dylunio / chynllunio er budd pennaf plant a phobl ifanc?	Ydy, nod y cynnig yw gwella cyfleoedd addysgol a deilliannau i'r holl ddisgyblion. Mae hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn gallu parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. **Erthygl 3 - Budd Pennaf y Plentyn** Mae Erthygl 3 wedi bod yn ystyriaeth allweddol drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynnig hwn. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwerthuso'r effeithiau addysgol, llesiant, hygyrchedd a chymunedol posibl, ac mae o'r farn y byddai'r cynnig yn cefnogi budd pennaf dysgwyr yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys darparu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg gynaliadwy, ystod ehangach o gyfleoedd addysgol, cyfleusterau gwell a chymorth gwell. **Erthygl 23 - Plant ag Anableddau** Mae Erthygl 23 wedi'i hystyried oherwydd gallai'r cynnig effeithio	**Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg** Mae'r cynnig yn cyd-fynd â Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg, sy'n ceisio cyflawni darpariaeth addysgol gynaliadwy sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion dysgwyr heddiw a'r dyfodol. **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi nodi y bydd darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod ar gael, gan gefnogi mynediad dysgwyr at addysg Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg. **Erthygl 3 - Budd Pennaf y Plentyn** Rhaid i fudd pennaf y plentyn fod yn brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio arno/arni, gan sicrhau bod ei lesiant, ei ddatblygiad a'i anghenion addysgol wrth	Cynnwys disgyblion yn y broses ymgynghori drwy ddefnyddio gwybodaeth a chyfleoedd hygyrch priodol i'r oedran er mwyn iddynt rannu eu barn. Darparu cymorth bugeiliol, emosiynol a llesiant i ddisgyblion drwy gydol y cyfnod pontio ac yn dilyn y symud. Monitro cynnydd addysgol a llesiant y disgyblion sy'n trosglwyddo i sicrhau eu bod yn setlo'n iawn ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol. Cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gofalwyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf, ac ymateb i unrhyw gwestiynau neu bryderon mewn modd amserol.

	ar ddysgwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r Awdurdod Lleol wedi asesu hygyrchedd yr ysgol sy'n derbyn, parhad y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, mynediad at wasanaethau arbenigol a'r angen am drefniadau pontio sydd wedi'u personoli. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, darperir cymorth priodol a gwneir addasiadau rhesymol i sicrhau bod dysgwyr ag anableddau yn gallu parhau i gael mynediad at addysg a chymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. **Erthygl 31 - Hamdden, Chwarae a Chyfranogiad mewn Bywyd Diwylliannol** Mae Erthygl 31 wedi'i hystyried gan y gallai'r cynnig ddylanwadu ar fynediad disgyblion at weithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Ponthenri ar eu hennill o gael ystod ehangach o gyfleoedd allgyrsiol, sy'n cynnwys gweithgareddau chwaraeon,	wraidd y broses o wneud penderfyniadau. **Erthygl 23 - Plant ag Anableddau** Mae gan blant ag anableddau yr hawl i fyw gydag urddas, i gyflawni eu potensial llawn, ac i gyfrannu'n llawn yn eu cymunedau. Dylid darparu cymorth priodol i hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant a mynediad cyfartal at gyfleoedd. **Erthygl 31 – Hamdden, Chwarae a Diwylliant** Mae gan bob plentyn yr hawl i orffwys, chwarae, cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, a chyfrannu at fywyd diwylliannol, artistig a chymunedol, sydd yn cefnogi ei lesiant, ei ddatblygiad a'i ymdeimlad o berthyn.	

	diwylliannol a Chymraeg. Byddai hyn yn cefnogi eu hawl i gymryd rhan lawn mewn chwarae, hamdden a bywyd diwylliannol.		

Mae DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) A CHARBON SERO NET Adran 6 y ddyletswydd yn datgan bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus "*geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol."*

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cydnabod bod gennym ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain a rhoi arweiniad er mwyn annog trigolion, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu i leihau eu hôl troed carbon hwythau.

Gofyniad	
A ydy'r cynnig yn effeithio ar Fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r sir?	Os bydd y cynnig i gau Ysgol Gynradd Pontiets a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri yn mynd rhagddo, bydd gan hynny oblygiadau cadarnhaol a negyddol o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a gwydnwch yr ecosystem yn y sir. Gallai effeithiau andwyol posibl ddeillio o newidiadau i

	drefniadau teithio, gan y gallai rhai disgyblion fod yn llai abl i gerdded i'r ysgol a dod yn fwy dibynnol ar gludiant, gan gynyddu allyriadau carbon o bosibl. Er mwyn helpu i liniaru'r effeithiau hyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio hyrwyddo a darparu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i'r dysgwyr cymwys lle bynnag y bo'n bosibl. Gan y byddai'r cynnig yn golygu ailddefnyddio, ail-bwrpasu neu, o bosibl, werthu'r adeilad ysgol presennol yn hytrach na datblygu cyfleuster newydd, ni ragwelir y bydd unrhyw darfu o bwys ar gynefinoedd neu fioamrywiaeth. Byddai disgwyl i unrhyw ddefnydd neu ailddatblygiad o'r safle yn y dyfodol gydymffurfio â chyfrifoldebau bioamrywiaeth ac amgylcheddol perthnasol, gan helpu i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol lleol lle bo hynny'n briodol. Gallai cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Ponthenri arwain at gynhyrchu rhagor o wastraff. Fodd bynnag, disgwylir i drefniadau rheoli gwastraff presennol yr ysgol leihau unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol. Yn gyffredinol, ystyrir bod yr effaith ar amcanion sero net y Cyngor yn debygol o fod yn niwtral, gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo o un ysgol i'r llall, yn hytrach na chreu galw ychwanegol am ddarpariaeth addysgol.
A ydy'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar ymrwymiad CSC i fod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030?	Yn ôl data a ddarparwyd gan gydweithwyr o'r Adran Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd, byddai trosglwyddo'r 21 o ddisgyblion o Ysgol Gynradd Pontiets i Ysgol Gynradd Ponthenri: • Yn cynhyrchu tua 0.32 tCO_2e o allyriadau trafnidiaeth bob blwyddyn. • Yn dal i arwain at ostyngiad net amcangyfrifedig o 12.02 tCO_2e y flwyddyn yn gyffredinol. • O bosibl yn rhoi bod i hyd yn oed mwy o arbedion carbon os bydd mesurau datgarboneiddio yn y dyfodol, fel pympiau gwres a gwelliannau i

	adeiladau, yn cael eu gweithredu yn Ysgol Gynradd Ponthenri. Daw'r arbediad o 12 tunnell yn bennaf yn sgil peidio â rhedeg adeilad ysgol Pontiets mwyach, yn hytrach na threfniadau cludiant. Mae hyn yn cyfateb yn fras i allyriadau blynyddol 4 i 6 chartref cyffredin yn y DU. Felly, mae'r asesiad amgylcheddol yn cefnogi'r cynnig o safbwynt allyriadau carbon, gan nodi gostyngiad mewn allyriadau blynyddol yn hytrach na chynnydd.
A ydy'r cynnig yn cael effaith bositif neu negyddol ar sut gall y Cyngor wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol?	Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai fod goblygiadau positif a negyddol i wydnwch y sir yn wyneb effaith newid hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Canlyniad positif posibl yw cyfuno'r ddarpariaeth addysgol mewn un adeilad ysgol yn hytrach na gweithredu dau safle ar wahân, a allai wella effeithlonrwydd o ran y defnydd o adnoddau ac ynni. I'r gwrthwyneb, gallai'r cynnig gynyddu'r gofynion cludiant ar gyfer rhai disgyblion, gan arwain at y posibilrwydd o allyriadau uwch gan gerbydau. Gallai hefyd leihau nifer y disgyblion sy'n gallu cerdded i'r ysgol, a allai fod â goblygiadau pellach i deithio cynaliadwy ac effaith amgylcheddol gyffredinol y cynnig.

DIOGELU DATA ***(Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn nodi a lleihau risgiau preifatrwydd prosiect yn gynnar. Yn yr adran hon, mae angen i ni weld a oes angen cwblhau'r asesiad hwn ar gyfer y cynnig. Mae gofynion penodol hefyd ynglŷn â defnyddio trydydd partïon i brosesu data personol ar ran y Cyngor, a rhaid yw cael Cytundeb Prosesu Data sy'n rhwymol yn gyfreithlon ar eu cyfer).***		
A ydy'r cynnig yn golygu casglu/defnyddio data personol (gwybodaeth yn ymwneud â pherson y mae	Ydy.	**Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o ddata** Gofynnir am gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post os yw ymgyngoreion am gael gwybodaeth am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori.

modd ei adnabod)?		Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn aros yn gyfrinachol.
A ydy'r cynnig yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd ac yn debygol o arwain at berygl sylweddol i hawliau a rhyddid yr unigolion?	Nac ydy.	**Os ydy, rhowch wybodaeth am y math o dechnolegau newydd** Bydd papurau'r cynnig ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol os oes angen. Bydd ffurflenni ymateb ar gael ar-lein ac fel copi papur yn yr ysgol os oes angen.
A ydy'r cynnig yn golygu bydd trydydd parti yn casglu, yn derbyn, neu fel arall, yn cael mynediad at ddata personol a reolir gan y Cyngor?	Nac ydy.	**Os ydy, rhowch wybodaeth am beth fydd hyn yn ei olygu**
Os ydych wedi ateb 'ydy' i unrhyw un o'r ystyriaethau hyn, siaradwch â'r Swyddog Diogelu Data i gychwyn Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a/neu drafod a oes angen Cytundeb Prosesu Data.		

GOBLYGIADAU ***(Rhowch ystyriaeth i unrhyw oblygiadau ychwanegol a gwnewch yn siŵr fod y Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth priodol wedi cytuno ar unrhyw oblygiadau sy'n codi, ac y cyfeirir atynt yn fanwl isod)***	
	A oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol y mae angen eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?
1. Cyfreithiol a Rheoli Risg	Os caiff ei gymeradwyo, cychwynnir ar yr ymgynghori'n unol â'r gweithdrefnau statudol perthnasol a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn nodi mai "prif bwrpas ysgolion yw darparu addysg a dylai unrhyw achos dros gau fod yn gadarn ac er budd y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal."
2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Ffisegol	Bydd Ysgol Gynradd Ponthenri yn parhau i gael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir.

	Refeniw Cyllid Mae sefyllfa ariannol bresennol yr ysgol yn ogystal â'r cyllidebau a ragwelir wedi'u hystyried fel rhan o bapurau'r cynnig. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, a phe chytunid iddynt gael eu rhoi ar waith, yr arbedion refeniw blynyddol disgwyliedig ar gyfer Ysgol Gynradd Pontiets fyddai £66,807. Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor o'r gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgolion fel Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo. Roedd Arolwg Cyflwr Adeiladau 2023 ar gyfer Ysgol Gynradd Pontiets yn rhagweld gwariant cynnal a chadw wedi'i gyfalafu o £202,808 dros gyfnod o bum mlynedd. Byddai hyn yn arwain at arbediad i'r Cyngor pe bai'r ysgol yn cau. Mae'r Gwasanaeth Arlwyo yn darparu clwb brecwast i ddisgyblion £6,060 a gwasanaeth cinio £30,004 am gyfanswm cost flynyddol i'r Awdurdod Lleol o £36,064. Er bod hyn yn cael ei wrthbwyso gan y grant gan Lywodraeth Cymru o £4,923 i ddarparu prydau bwyd, mae arbediad net i'r gwasanaeth, ac felly i'r Cyngor o £31,141. Bydd grant Llywodraeth Cymru o £4,923 ar gyfer prydau bwyd yn symud gyda'r disgyblion i'w hysgol newydd. Mae'n annhebygol y bydd costau ychwanegol o ran darparu'r prydau bwyd yn yr ysgol hynny, felly bydd cost net darparu'r gwasanaeth yn lleihau yn yr ysgol sy'n derbyn. Unwaith eto, mae'r gyllideb hon ar wahân i gyllideb ddirprwyedig gyffredinol yr ysgolion. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, o ganlyniad, byddai cyfanswm o £122,549 yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn yn unol â'r cyllid fesul disgybl.

	<u>Cyfalaf Cyllid</u> Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Os nad oes diddordeb corfforaethol neu gymunedol mewn cadw'r adeilad yn unol â'r polisi 'Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid', yna byddai'r adeilad yn cael ei roi ar y farchnad agored a gallai gynhyrchu derbyniad cyfalaf o tua £150,000. **<u>Asedau Ffisegol</u>** Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, a phe chytunid iddo gael ei roi ar waith, byddai gan yr Awdurdod Lleol adeilad ysgol diangen yn ei ystad. Byddai'r eiddo yn cael ei drosglwyddo i'r Is-adran Eiddo Corfforaethol er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi ynghylch 'Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid' o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.
3. Staffio	Os caiff ei chymeradwyo, byddai proses o ddileu swyddi staff yn cychwyn mewn perthynas â'r holl staff sy'n cael eu cyflogi yn yr ysgol ar hyn o bryd. Byddai'r broses hon yn cael ei chynnal yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi a Staff Gormodol ar gyfer Ysgolion. Byddai Polisi Dileu Swyddi'r Awdurdod Lleol yn berthnasol i unrhyw staff sydd yn yr ysgol sy'n cael eu cyflogi'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol h.y. Arlwyo a Glanhau ac ati. Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac rydym yn cydnabod yn llawn yr effaith y gallai cynnig o'r fath ei chael ar y staff. Ein blaenoriaeth yw lleihau tarfu a rhoi'r gefnogaeth briodol i staff drwy gydol y cyfnod o newid. Yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi a Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i osgoi dileu swyddi'n orfodol lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd adleoli addas mewn

	ysgolion ar draws y sir a'r awdurdod lleol ehangach, gan ystyried dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, ac ymgysylltu'n agos ag undebau llafur cydnabyddedig drwy gydol y broses. Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau cyflogaeth amgen i staff yr effeithir arnynt, nid yw'n bosibl dileu'n llwyr y risg y caiff swydd ei dileu. Pan na fydd cyfleoedd adleoli ar gael, bydd unrhyw doriadau i'r staffio yn cael eu rheoli trwy broses deg, dryloyw a chefnogol, gan roi arweiniad a chymorth priodol i'r rhai yr effeithir arnynt. Rydym yn cydnabod y gallai'r cyfnod hwn o ansicrwydd fod yn heriol i staff a'u teuluoedd. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd, rhoi diweddariadau amserol a sicrhau mynediad at gymorth priodol drwy gydol y broses.
4. Marchnata a'r Cyfryngau	Os caiff ei gymeradwyo, bydd angen marchnata'r ymgynghoriad trwy wefan y Cyngor Sir a'r cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid gofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026).
5. Troseddau ac Anhrefn	Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau.

Atodiad D - Ffurflen Ymateb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig:

- i gau Ysgol Gynradd Pontiets o 31 Rhagfyr 2027 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Gynradd Ponthenri.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i chi wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau amgen, ac awgrymu opsiynau amgen eraill.

Gallwch gyflwyno eich barn o blaid neu yn erbyn y cynnig.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr

☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned

☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch _____

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

3. Teimlwch yn rhydd i rannu unrhyw sylwadau neu resymau dros eich ateb gan gynnwys unrhyw effaith yr ydych yn credu y gallai'r cynnig ei chael (dewisol)

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Gynradd Pontiets?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

5. Nodir yn Safonau'r Gymraeg ei bod yn ofynnol inni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori?

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden,
Neuadd y Sir,
Rhiw'r Castell
Caerfyrddin
SA31 1JP

neu eu e-bostio i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein Arolwg Snap

Dychwelwch eich ymateb erbyn 22 Rhagfyr 2026. Ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.